

Strategaeth Leol Rheoli'r Perygl o Lifogydd

Strategaeth a Fabwysiadwyd – Dogfen Dechnegol

Cyngor Dinas Caerdydd

Medi 2014



Cynnwys

Pennod

Tudalennau

Rhagair	i
Crynodeb gweithredol	ii
1. Cyflwyniad	1
1.1. Cwmpas y Strategaeth Leol Rheoli'r Perygl o Lifogydd	1
1.2. Dyheadau Caerdydd i'r Strategaeth Leol Rheoli'r Perygl o Lifogydd	2
1.3. Gofynion statudol y strategaeth	2
1.4. Egwyddorion Arweiniol	3
1.5. Ffactorau Cyfreithiol Cysylltiedig	3
2. Rolau a chyfrifoldebau	4
2.1. Gwasanaethau Mewnol Cyngor Caerdydd	9
3. Y perygl lleol o lifogydd yng Nghaerdydd	11
3.1. Nodweddion cyffredinol Caerdydd	11
3.2. Ffynonellau perygl o lifogydd	11
3.3. Asesiadau perygl o lifogydd	14
4. Sut caiff y Perygl Lleol o Lifogydd ei reoli ar hyn o bryd?	16
4.1. Camau gweithredu cyfredol Cyngor Caerdydd	16
4.2. Adroddiadau a Digwyddiadau	17
4.3. Lefel y ddealltwriaeth ar hyn o bryd	18
4.4. Ffactorau i Ganolbwyntio Arnynt yn y Dyfodol	19
5. Dull Gweithredu a Pholisi Rheoli'r Perygl Lleol o Lifogydd yng Nghaerdydd	21
5.1. Methodoleg a chanllawiau	21
5.2. Ymgynghoriad	22
5.3. Amcanion	22
5.4. Mesurau 26	
6. Cyllid	33
6.1. Sefyllfa bresennol	33
6.2. Sefyllfa gwneud dim	33
6.3. Dulliau o weithredu yn y dyfodol	34
6.4. Risgiau Ariannu	35
7. Asesiadau Amgylcheddol	36
7.1. Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)	36
7.2. Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARC)	38
7.3. Asesiad y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (CFD)	40
8. Monitro ac adolygu	41
8.1. Monitro ac adolygu	41
8.2. Adolygu a Monitro Amgylcheddol	41
9. Cyfeiriadau	42
Atodiadau	43
Appendix A. Polisiâu a Fabwysiadwyd	
Appendix B. Manylion Cyswllt yr Awdurdodau Rheoli Risg	
Appendix C. Cofnod o Ymatebion Ymgynghori	
Appendix D. Amcanion Strategaeth Genedlaethol	

Appendix E.	Tablau Gwerthuso'r Strategaeth Leol Perygl o Lifogydd
Appendix F.	Geirfa
Appendix G.	Rhestr o dalfyriadau

Tablau

Tabl 1	Camau blaenoriaeth i reoli'r perygl o lifogydd yn lleol yng Nghaerdydd	v
Tabl 2.1	– Awdurdodau Rheoli Risg a'u cyfrifoldebau, eu dyletswyddau a'u pwerau	6
Tabl 5.1	- Amcanion a dangosyddion AAS	23
Tabl 5.2	– Mesurau blaenoriaeth	28
Tabl 6.1	– Effaith economaidd y perygl lleol i lifogydd	34
Tabl 2	Difrod a ragwelir ar gyfer llifogydd a asesir	84
Tabl 3	Difrod Gwerth Presennol a ragwelir (£M)	84

Ffigurau

Ffigur 2-1	– Awdurdodau Rheoli'r Perygl o Lifogydd	4
Ffigur 3-1	Ardal risg allweddol ARPL	13
Ffigwr 4.2	– Digwyddiadau a adroddwyd – draenio a llifogydd priffyrdd	18
Ffigur 5-1	Dull polisi o Strategaethau Cenedlaethol i rai Lleol	22
Ffigwr 6-1	Difrod Blyneddol Cyfartalog	34
Ffigur 2	Siart grynhoi AAD	84

Appendices

Appendix A.	<u>Polisiau a Fabwysiadwyd</u>
A.1.	<u>Polisi ceuffosydd</u>
A.2.	<u>Polisi Bagiau Tywod</u>
Appendix B.	<u>Manylion Cyswllt yr Awdurdodau Rheoli Risg</u>
Appendix C.	<u>Cofnod o Ymatebion Ymgynghori</u>
C.1.	<u>Ymatebion Ymgynghori</u>
C.2.	<u>Ymgynghores Statudol</u>
Appendix D.	<u>Amcanion Strategaeth Genedlaethol</u>
Appendix E.	<u>Tablau Gwerthuso'r Strategaeth Leol Perygl o Lifogydd</u>
E.1.	<u>Matrics asesu Amcanion v Mesurau</u>
E.2.	<u>Asesiad blaenoriaeth Themâu a Mesurau Cyflawni</u>
E.3.	<u>Asesiad Economaidd</u>
Appendix F.	<u>Geirfa</u>
Appendix G.	<u>Rhestr o dalfyriadau</u>

Rhagair



Gallwn weld effeithiau newid yn yr hinsawdd o'n cwmpas, ac mae llifogydd yn dod yn berygl cynyddol. Ni allwn wrthsefyll grym natur, ond gallwn weithredu strategaeth i baratoi a diogelu ein dinas.

Ein blaenoriaeth yw sicrhau;

- bod pobl a busnesau Caerdydd yn deall y perygl sy'n eu hwynebu o du llifogydd
- bod y gwaith a wna Cyngor Caerdydd i leihau a rheoli'r perygl o lifogydd yn rhoi sicrwydd i bobl

Mae Cyngor Caerdydd am fynd y tu hwn i ofynion canllawiau a chreu dull cymunedol o reoli llifogydd a sicrhau gwydnwch. Rhaid i ni sicrhau dull cynhwysfawr o weithredu, drwy bartneriaethau, i **reoli dŵr llifogydd yn ein dinas** drwy ddeall yn llawn y peryglon sy'n ein hwynebu o du llifogydd ac erydiad arfordirol.

Bydd y strategaeth hon yn un o sylfeini cynaliadwyedd hirdymor ein prifddinas, yn ogystal â sicrhau buddion i'n cymunedau a diogelu safon bywyd i genedlaethau'r dyfodol.

Y Cynghorydd Ramesh Patel - Cyngor Dinas Caerdydd, Aelod Cabinet dros Drafnidiaeth, Cynllunio a Chynaliadwyedd

Crynodeb gweithredol

Cyflwyniad

Mae'r perygl o lifogydd wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf oherwydd newid yn y tywydd a mwy o law trwm yn lleol. Gall llifogydd gael effaith sylweddol ar ein bywydau, ein heiddo ac ar fusnesau, ac mae mwy a mwy o lifogydd difrifol yn digwydd yn y DU bob blwyddyn. Daw llifogydd o amryw darddleuoedd - o afonydd, nentydd, y môr ac yn fwyaf cyffredin o ddraeniau neu hen garthffosydd wedi'u blocio yng Nghaerdydd, na allant ymdopi â faint o law sy'n disgyn.

Mae gan Gyngor Caerdydd ymrwymiad cryf i leihau'r perygl o lifogydd ledled Caerdydd, a lleihau effeithiau unrhyw lifogydd ar gymunedau, yr amgylchedd a'r economi.

Er na fu nifer o lifogydd difrifol yng Nghaerdydd, mae nifer gynyddol o broblemau yn deillio o lifogydd lleol yn ystod glaw trwm. Mae mwy o lifogydd lleol bob blwyddyn, ac mae'r Cyngor yn gweithredu nawr i ddiogelu trigolion a busnesau Caerdydd at y dyfodol.

Rôl statudol

Mae'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (FWMA) a gyflwynwyd yn 2010 yn gosod dyletswydd ar Gyngor Caerdydd i fod yn Awdurdod Arwain Llifogydd Lleol (AALL) ac i lunio Strategaeth Leol Rheoli'r Perygl o Lifogydd (SLRPL). Mae'r strategaeth hon yn nodi sut y bydd y Cyngor yn ceisio rheoli'r perygl o lifogydd yn yr ardal, a pharatoi ein cymunedau.

Mae'r Strategaeth hon yn manylu ar rolau a chyfrifoldebau'r sefydliadau yng Nghaerdydd sy'n cyfrannu at reoli'r perygl o lifogydd yng Nghaerdydd, yn ogystal â nodi sut rydym yn gweithio i leihau canlyniadau llifogydd. Amlinellir cyfrifoldebau cyfreithiol y cyngor, o ran sut y byddwn yn datblygu, cynnal, gweithredu a monitro rhaglen i reoli'r perygl o lifogydd lleol.

Rolau a Chyfrifoldebau

Fel yr AALL, mae'r Cyngor yn gyfrifol am ddŵr wyneb, nentydd, ceuffosydd a llifogydd dŵr llawr. Mae'r strategaeth yn amlinellu ein cyfrifoldebau yn ogystal â chyfrifoldebau partneriaid allweddol fel Dŵr Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Bwrdd Draenio Mewnol. Rhaid i bawb gydweithio i atal llifogydd a pharatoi ar eu cyfer.




Yn ogystal â phartneriaid allanol, mae gan amrywiaeth o wasanaethau'r Cyngor gyfraniad i'w wneud wrth atal a pharatoi at lifogydd:


- Rheoli mewn argyfwng – sicrhau bod adnoddau ar waith i ymdopi â digwyddiadau ac adfer ar eu hôl
- Awdurdod yr Harbwr – rheoli a chynnal a chadw'r Morglawdd sy'n lleihau'r risg i'r ddinas
- Priffyrdd – cynnal a chadw, creu cynlluniau atal, a rheoli arfordirol
- Tai – paratoi ein stoc dai a helpu trigolion
- Cynllunio – diogelu datblygiadau yn y dyfodol
- Gwasanaethau cymdeithasol – gweithio gyda thrigolion i'w diogelu rhag llifogydd a'u paratoi atynt
- Glanhau Strydoedd – cadw gylïau a draenïau ffordd yn ddi-sbwriel

Dealltwriaeth bresennol o'r perygl o lifogydd


Dangosodd arolwg diweddar o drigolion fod angen gwneud rhagor o waith i godi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â llifogydd, a'r cymorth a'r cyngor sydd ar gael i drigolion a busnesau.



Wyddech chi sut i ddysgu a ydych chi'n byw mewn ardal lle mae perygl o lifogydd?



Wyddech chi o ble i gael cyngor petai llifogydd yn peryglu'ch eiddo?



Wyddech chi beth i'w wneud petai llifogydd yn eich cartref?

Amcanion y Strategaeth

Mae'r Cyngor wedi adeiladu ar amcanion y strategaeth genedlaethol i lunio ein strategaeth ni gydag amcanion lleol a aiff y tu hwnt i'r gofynion statudol. Nodir yr amcanion hyn yn y tabl canlynol, a byddant yn ceisio sicrhau'r canlyniadau canlynol:

- Sicrhau dealltwriaeth well o beryglon lleol llifogydd ac erydiad, fel bod modd blaenoriaethu gwaith rheoli risg yn fwy effeithiol;
- Nodi cynlluniau clir a chyson ar gyfer rheoli risg fel y gall cymunedau a busnesau wneud dewisiadau gwybodus o ran rheoli'r risg weddilliol;
- Annog gwaith rheoli arloesol o ran y perygl o lifogydd ac erydiad arfordirol, gan ystyried anghenion cymunedau a'r amgylchedd;
- Ffurio cysylltiadau rhwng y strategaeth leol rheoli'r perygl o lifogydd a chynlluniau gofodol lleol;
- Sicrhau bod cynlluniau ac ymatebion brys i lifogydd yn effeithiol ac y gall cymunedau ymateb yn briodol i rybuddion am lifogydd;
- Helpu cymunedau i adsefydlu'n gynt ac yn effeithiol ar ôl digwyddiadau.

Tabl 1 Amcanion Strategaethau Cenedlaethol a Lleol

Prif Amcan Strategaeth Genedlaethol	Is-amcanion y Strategaeth Leol
Lleihau effaith llifogydd ac erydiad arfordirol ar unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd.	Rhoi arweinyddiaeth a chyfarwyddyd strategol yn lleol
	Llunio polisiau ar gyfer rheoli tir yn effeithiol a gweithdrefnau rheoli datblygiadau gwell lle y bo'n briodol
	Sefydlu amserlenni cynnal a chadw rheolaidd o ran asedau rheoli'r perygl o lifogydd ac erydiad arfordirol
Codi ymwybyddiaeth ymhlith pobl a'u cynnwys wrth ymateb i berygl llifogydd ac erydiad arfordirol	Sicrhau bod pawb, erbyn 2026, sy'n byw mewn ardal lle mae perygl o lifogydd yn deall y perygl hwnnw, canlyniadau'r perygl a sut i fyw gyda'r perygl hwnnw
Sicrhau ymateb effeithiol a chyson i lifogydd ac erydiad arfordirol	Sicrhau bod Cynlluniau Argyfwng yn cael eu paratoi a'u profi
	Ymateb i ddigwyddiadau mewn ffordd amserol a phriodol
	Hwyluso adferiad o lifogydd cyn gynted â phosibl
Blaenoriaethu buddsoddiad yn y cymunedau lle mae'r perygl mwyaf	Ceisio cyfleoedd ariannol allanol

Blaenoriaethau

Ar ôl adolygu'r sefyllfa bresennol, a gofynion a pheryglon yn y dyfodol yng Nghaerdydd, pennwyd y blaenoriaethau canlynol;

- creu cysylltiadau cryfach â rhanddeiliaid allweddol ac Awdurdodau Lleol cyfagos
- parhau i adeiladu ar y gwaith a wnaed o ran cynlluniau gwydnwch cymunedol
- ymsefydlu ymwybyddiaeth o fesurau lliniarol llifogydd ym mhob un o swyddogaethau'r Cyngor
- deall yn llawn peryglon erydiad arfordirol
- codi ymwybyddiaeth yn holl gymunedau Caerdydd, yn bennaf y rhai lle mae'r perygl mwyaf o lifogydd, a'r rhai sydd angen mwy o gymorth fel cymunedau sy'n fwy difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol a chymunedau sy'n agored i niwed
- lleihau canlyniadau llifogydd drwy beirianeg 'galed' a chynlluniau dylunio
- lleihau canlyniadau llifogydd drwy adeiladu amddiffynfeydd priodol sydd o fudd i'r amgylchedd lleol

Mae'r tabl canlynol yn nodi sut y bydd Cyngor Caerdydd yn cyflawni'r blaenoriaethau hyn.

Tabl 1 Camau blaenoriaeth i reoli'r perygl o lifogydd yn lleol yng Nghaerdydd

Thema Cyflawni	Math o weithgaredd	Mesur(au) a awgrymir
Rhagweld ac Ymateb i Lifogydd	Ymwybyddiaeth o lifogydd	<ul style="list-style-type: none"> Nodi grwpiau mewn perygl mewn cymunedau, gan gynnwys unigolion sy'n agored i niwed.
	Cynlluniau Ymateb mewn Argyfwng	<ul style="list-style-type: none"> Cwblhau cynlluniau argyfwng ar gyfer pob math o berygl llifogydd. Cynnal ymarferion argyfwng yn lleol i brofi trefniadau ymateb ac adfer dros oes y Strategaeth. Ymateb cynnar a phriodol i'r holl argyfyngau. Datblygu a gweithredu protocolau gadael ardal effeithiol mewn argyfwng Nodi a darparu llety dros dro addas fel y bo'n briodol dros oes y Strategaeth.
	Cynlluniau Cymunedol pan fo Llifogydd	<ul style="list-style-type: none"> Creu cynlluniau argyfwng cymunedol i helpu cymunedau Caerdydd
Rheoli a Chynnal Asesiad	Cynlluniau Rheoli mewn Argyfwng	<ul style="list-style-type: none"> Llunio cofrestr o nodweddion naturiol/dynol sy'n debygol o effeithio ar y risg o lifogydd erbyn 2015. Sefydlu rhaglen cynnal a chadw rheolaidd a phriodol i reoli'r risg o erydu gan lifogydd ac ar yr arfordir.
	Rheoli Amddiffynfeydd / Adeileddau	<ul style="list-style-type: none"> Dynodi adeileddau neu nodweddion naturiol a dynol sy'n debygol o effeithio ar lifogydd neu erydu arfordirol dros oes y Strategaeth. Llunio amserlenni atgyweirio gan gynnwys darparu ar gyfer gosod mesurau gwydnwch erbyn 2015.
	Cynnal a Chadw Sianeli	<ul style="list-style-type: none"> Llunio gweithdrefnau i glirio sbwriel yn effeithiol.
	Cynnal a Chadw Ceuffosydd	<ul style="list-style-type: none"> Sefydlu rhaglen cynnal a chadw rheolaidd a phriodol i reoli'r risg o erydu gan lifogydd ac ar yr arfordir. .
Ymwybyddiaeth ac Ymgysylltu ar Lefel Uchel	Gweithio mewn partneriaeth	<ul style="list-style-type: none"> Cyflawni cyfrifoldebau statudol gan gynnwys y rhai a nodir yn Neddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 a'r Rheoliadau Perygl o Lifogydd. Cysylltu â gwaith ehangach a wneir o ran gwneud Caerdydd yn ardal fwy gwydn a chynaliadwy i fyw ynddi Rhaglen o weithgareddau ymwybyddiaeth ac ymgysylltu cymunedol gan ddefnyddio'r Pecyn Cymorth Cynnwys Cymunedau wrth Reoli'r Perygl o Lifogydd Codi ymwybyddiaeth yn fewnol o ran effaith y perygl o lifogydd ar weithrediadau arferol a sefyllfaoedd ar ôl digwyddiadau Cyfraniadau ariannol gan drydydd parti / ffynonellau nad ydynt yn rhai cyhoeddus


Cyllid

Ar hyn o bryd mae Cyngor Caerdydd yn gwario tua £1m y flwyddyn ar weithgareddau uniongyrchol o ran rheoli'r perygl o lifogydd drwy'r gwasanaethau a gynigir gan dimau Draenio Priffyrdd.

Mae dadansoddiad a wnaed i'r strategaeth hon yn amcangyfrif y gallai, ledled Caerdydd, y nifer ganlynol o eiddo gael eu heffeithio arnynt gan y perygl o lifogydd yn lleol;

- Siawns o 1/30 – dros 10,000 o eiddo
- Siawns o 1/200 – dros 30,000 o eiddo

Petai Cyngor Caerdydd yn rhoi'r gorau i gyflawni'r gweithgareddau uchod, a gadael i'r systemau draenio tir naturiol ymdopi â'r sefyllfa, heb gynnal a chadw, amcangyfrifir mewn unrhyw un flwyddyn mai effaith economaidd posibl y perygl o lifogydd yn lleol i'r eiddo hyn fyddai £13.2m.



Ffigur 1 Difrod Blynyddol oherwydd llifogydd ar Gyfartaledd

Mae'r Cyngor wedi dewis gwneud mwy.

Adolygiad o'r Strategaeth

Y strategaeth hon fydd sylfaen strategaeth at y dyfodol i leihau'r perygl o lifogydd ledled Caerdydd. Gyda deddfwriaeth newydd a newidiol yn dod i'r amlwg, mae'n cynnig y dylid cynnal adolygiad yn 2015 i gyd-fynd â Chynlluniau Rheoli'r Perygl o Lifogydd fel rhan o Reoliadau Perygl o Lifogydd.

Ar ôl hynny byddai'r strategaeth yn dal i gael ei hadolygu'n unol â Rheoliadau Perygl o Lifogydd, bob 6 mlynedd, gyda'r adolygiad nesaf yn 2021.

1. Cyflwyniad

Mae'r perygl cynyddol o lifogydd sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd yn codi proffil llifogydd yng Nghymru a ledled y DU. Mae angen dull mwy cynaliadwy o reoli'r perygl o lifogydd i helpu i leihau'r risg gynyddol o lifogydd i ni, ein heiddo a'n heconomi. Mae llawer o ffactorau'n cyfrannu at lifogydd: glaw trwm, eira'n dadmer yn gyflym, gwynt garw dros y dŵr, llanwon anarferol o uchel, tonnau storm yn erbyn yr arfordir, draeniau, neu adeileddau eraill sy'n cadw dŵr, yn methu neu'n cael eu blocio. Ni ellir atal peryglon llifogydd ac erydiad arfordirol gan eu bod yn brosesau naturiol. Fodd bynnag, mae modd lleihau'r tebygolrwydd y bydd llifogydd, gan felly lleihau ar ganlyniadau llifogydd.

Y mae effeithiau llifogydd yn amrywiol. Maent yn difrodi tai ac eiddo ac yn amharu ar ddulliau cyfathrebu. Gall y sefyllfaoedd gwaethaf beryglu bywydau pobl a chreu pryderon hirdymor ynghylch diogelwch cartrefi pobl. Caiff effaith ar ffordd o fyw pobl a'r economi leol. Gellir colli incwm o dwristiaeth ac enw da ardaloedd. Mae dŵr wyneb yn llifo'n gyflym yn difrodi seilwaith, yn erydu pridd ac yn llygru dyfrffyrdd. Mewn dinas fel Caerdydd gall dŵr wyneb arafu traffig ac amharu ar fusnesau a gwasanaethau lleol. Gal llifogydd amharu â draeniau a'r defnydd economaidd o dir, fel mannau agored, busnesau ac ardaloedd trefol. Gall difrod adeileddol ddigwydd mewn cartrefi a busnesau a cholofnau cynnal pontydd. I awdurdodau lleol lle cafwyd llifogydd sylweddol, gall y colledion ariannol fod yn ddirfawr - yn ffilynau o bunnoedd.

Ar ôl y llifogydd ar draws rhannau helaeth o'r DU yn haf 2007, comisynodd y Llywodraeth Adroddiad Pitt (Pitt, 2010). Roedd yr adolygiad yn argymhell newid y ddeddfwriaeth o ran pwy sy'n gyfrifol ac yn atebol am reoli'r perygl o lifogydd yng Nghymru a Lloegr. Arweiniodd yr adolygiad hwn at **Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (FWMA) 2010**.

Mae'r Ddeddf hon yn gosod cyfrifoldeb ar Awdurdodau Lleol (fel yr **Awdurdodau Arweiniol Llifogydd Lleol (AALLau)**) i ddatblygu, cynnal, gweithredu a monitro strategaeth ar gyda rheoli'r perygl o lifogydd yn lleol (**Strategaeth Leol Rheoli'r Perygl o Lifogydd (SLRPL)**).

Dros yr ugain mlynedd diwethaf, bu datblygiad sylweddol yng Nghaerdydd sydd wedi ymestyn ardaloedd preswyl y sir gan hefyd ailddatblygu ardaloedd helaeth o dir llwyd. Mewn ardaloedd datblygu newydd, bydd polisïau cynllunio cyfredol wedi helpu i reoli'r perygl o lifogydd i lefel dderbyniol. Fodd bynnag, mewn ardaloedd a ddatblygwyd yn flaenorol yng Nghaerdydd lle mae lefel y risg yn anhysbys, gallai effaith llifogydd fod yn sylweddol. Hefyd, mae arfordir Caerdydd yn amgylchedd newidiol a all gynyddu'r perygl o lifogydd ac erydiad y tir.

Drwy ddatblygu Strategaeth Leol Rheoli'r Perygl o Lifogydd Caerdydd, mae'n bwysig ein bod yn deall y peryglon o ffynonellau llifogydd amrywiol y gallai Caerdydd eu hwynebu, bod yn rhagweithiol wrth liniaru'r risgiau a chodi ymwybyddiaeth ar draws ein cymunedau a pharatoi at unrhyw ddigwyddiad o'r fath.

1.1. Cwmpas y Strategaeth Leol Rheoli'r Perygl o Lifogydd

Wrth lunio strategaeth llifogydd, bydd Caerdydd yn ceisio cydbwysio anghenion cymunedau, yr economi a'r amgylchedd.

Diffinnir y '**perygl o lifogydd yn lleol**' yn y Ddeddf fel perygl o lifogydd o du:

- Dŵr wyneb;
- Dŵr Daear;
- Cyrsiau dŵr cyffredinol¹

Rheolir y perygl o lifogydd o ffynonellau eraill fel afonydd Taf, Rhymni ac Elái a chronfeydd dŵr gan Cyfoeth Naturiol Cymru fel rhan o'u dyletswyddau. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi llunio cyfres o fapiau llifogydd ar gyfer yr ardaloedd y maent yn gyfrifol amdanynt i helpu i roi gwybodaeth i'r cyhoedd am y risg bosibl o'r ffynonellau hyn. Mae rhagor o wybodaeth ar y wefan hon:

<http://maps.environment-agency.gov.uk/wiyby/wiybyController?ep=maptopics&lang=e>

¹ The reference to ordinary watercourses, above, includes a reference to a lake, pond or other area of water which flows into an ordinary watercourse; Section 10(3) of the Flood and Water Management Act 2010:

1.2. Dyheadau Caerdydd i'r Strategaeth Leol Rheoli'r Perygl o Lifogydd

Yn ogystal â'r gofynion statudol mae Caerdydd am fynd y tu hwnt i ganllawiau Llywodraeth Cymru a chynnig fframwaith i ddatblygu dull cyfannol i sicrhau y gall holl wasanaethau'r Cyngor gyfrannu at reoli'r perygl o lifogydd yn y Sir.

Bydd strategaeth Caerdydd yn rhan o fframwaith, lle gall cymunedau lleol ddweud eu dweud ar benderfyniadau am reoli'r perygl lleol o lifogydd ac erydiad. O'i chyfuno â'r Strategaeth Genedlaethol, bydd SLRPL Caerdydd yn annog prosesau rheoli risg mwy effeithiol drwy alluogi pobl, cymunedau, busnesau a'r sector cyhoeddus i gydweithio i wneud y canlynol:

- Sicrhau dealltwriaeth well o beryglon lleol a chenedlaethol llifogydd ac erydiad, fel bod modd blaenoriaethu gwaith rheoli risg yn fwy effeithiol;
- Nodi cynlluniau clir a chyson ar gyfer rheoli risg fel y gall cymunedau a busnesau wneud dewisiadau gwybodus am reoli'r risg weddilliol;
- Annog gwaith rheoli arloesol o ran y perygl o lifogydd ac erydiad arfordirol, gan ystyried anghenion cymunedau a'r amgylchedd;
- Ffurio cysylltiadau rhwng y strategaeth leol rheoli'r perygl o lifogydd a chynlluniau gofodol lleol;
- Sicrhau bod cynlluniau ac ymatebion brys i lifogydd yn effeithiol ac y gall cymunedau ymateb yn briodol i rybuddion am lifogydd;
- Helpu cymunedau i adsefydlu'n gynt ac yn effeithiol ar ôl digwyddiadau.

Mae Cyngor Caerdydd yn manteisio ar y cyfle i lunio'r Strategaeth hon i adnewyddu'r dull o reoli'r perygl o lifogydd yn y Cyngor, wrth iddo geisio creu Dinas Carbon Isel a sicrhau datblygu cynaliadwy.

1.3. Gofynion statudol y strategaeth

Noda Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yr hyn sy'n rhaid ei gynnwys mewn Strategaeth Leol Rheoli'r Perygl o Lifogydd (SLRPL).

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ar beth y dylai SLRPLau ei gynnwys a sut y dylent gael eu llunio (Llywodraeth Cymru, 2011a).

Rhaid i strategaeth Caerdydd fod yn gyson â'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli'r Perygl o Lifogydd ac Erydiad Arfordirol (Llywodraeth Cymru, 2011b).

Rhaid i strategaeth Caerdydd gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Nodi Awdurdodau Rheoli Risg (ARRau) yn ardal Rheoli'r Perygl O Lifogydd Leol (RPLL) Caerdydd (**Adran 2**).
- Nodi bod swyddogaethau, rolau a chyfrifoldebau rheoli'r perygl o lifogydd ac erydiad arfordirol yr amrywiaeth o Awdurdodau Rheoli Risg yn yr ardal RPLL (**Adran 2**).
- Asesiad o'r perygl lleol o lifogydd (**Adran 3**)
- Nodi amcanion ar gyfer rheoli'r perygl o lifogydd (**Adran 5**)
- Datblygu mesurau (camau gweithredu) i gyflawni'r amcanion (**Adran 5**)
- Nodi sut a phryd y caiff mesurau eu rhoi ar waith (**Adran 5**)
- Costau a buddion y mesurau (**Adran 6**)
- Sut mae'r SLRPL yn cyfrannu at amcanion amgylcheddol a chynaliadwyedd ehangach (**Adran 7**)
- Sut a phryd y caiff y SLRPL ei hadolygu (**Adran 8**)

1.4. Egwyddorion Arweiniol

Bydd Caerdydd yn mabwysiadu gofynion Llywodraeth Cymru i Awdurdodau Rheoli Risg a mynd ymhellach i ddatblygu eu swyddogaethau rheoli'r perygl o lifogydd ac erydiad arfordirol mewn ffordd sy'n:

- Cynnwys datblygu cynaliadwy fel y prif egwyddor drefniadol sy'n llywio penderfyniadau ac yn gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, gan sicrhau safon byw well i ni a chenedlaethau'r dyfodol;
-
- Cefnogi'r rhaglen adnewyddu economaidd ehangach, sicrhau buddsoddiad cynaliadwy mewn seilwaith o safbwynt y perygl o lifogydd ac erydiad arfordirol a buddsoddi mewn meithrin y sgiliau gofynnol i weithredu'r mesurau rheoli risg effeithiol ac arloesol ledled Cymru;
- Yn hyrwyddo cydraddoldeb ac nid yw'n effeithio'n andwyol ar dlodi;
- Yn sicrhau'r gwaith o ymgysylltu â'r gymuned, codi ymwybyddiaeth a gwaith partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol
- Seiliedig ar ddealltwriaeth holistig o'r risgiau a'r canlyniadau;
- Yn ystyried yr ystod lawn o ymatebion rheoli risg gan gynnwys y cyfleoedd amgylcheddol, economaidd neu gymdeithasol posibl ehangach;
- Cyfrannu at ddull holistig o reoli ein hadnoddau dŵr, tir a morol gan adlewyrchu'r dull ecosystem o weithredu a nodir yn y Fframwaith Amgylchedd Naturiol;
- Hwyluso cynllunio adnoddau a buddsoddi hirdymor;
- Galluogi buddsoddiad, adnoddau a chamau gweithredu i gael eu blaenoriaethu'n effeithiol;
- Sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl i addasu i newid yn yr hinsawdd;
- Ystyried gofynion deddfwriaeth Ewropeaidd a domestig berthnasol gan gynnwys y Gyfarwyddeb Llifogydd, Cyfarwyddeb y Fframwaith Dŵr a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

Mae'r strategaeth hon hefyd yn cydgysylltu â chanllawiau penodol Llywodraeth Cymru i Awdurdodau Rheoli Risg ar Addasu i Newid yn yr Hinsawdd (Llywodraeth Cymru, 2011c), a Datblygu Cynaliadwy (Llywodraeth Cymru, 2011d).

1.5. Ffactorau Cyfreithiol Cysylltiedig

Effeithir ar waith Rheoli'r Perygl o Lifogydd gan ystod o ganllawiau a deddfwriaeth sy'n cydgysylltu, ac a ystyriwyd wrth lunio'r strategaeth hon.

Yn eu plith mae:

- Deddf Newid yn yr Hinsawdd (2008)
- Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (2010)
- Deddf Argyfyngau Sifil Posibl (2004)
- Cyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) (2001/42/EC)
- Deddf Draenio Tir (1991)
- Cyfarwyddeb y Fframwaith Dŵr (2007)
- Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981)
- Deddf Hawliau Tramwy Cefn Gwlad (2000)
- Deddf Iechyd Cyhoeddus (1936)

2. Rolau a chyfrifoldebau

Mae'n bwysig nodi rolau a chyfrifoldebau amrywiol y Cyngor a'r partïon allweddol niferus sy'n cyfrannu at waith rheoli risg yng Nghaerdydd. Gelwir y cyrff mwy ffurfiol a statudol yn Awdurdodau Rheoli Risg (ARRau). Nodir manylion cyswllt yr awdurdodau rheoli risg yn Atodiad B.

Gallai cyrff sydd â rôl statudol i'w gyflawni o ran cynorthwyo â gwaith o reoli'r perygl o lifogydd yng Nghaerdydd a chyfraniad sylweddol i'w wneud tuag at waith llifogydd Caerdydd feddu ar gyfrifoldebau mewn ardaloedd Rheoli'r Perygl o Lifogydd Lleol. Gallai fod ganddynt swyddogaethau, rolau, dyletswyddau a chyfrifoldebau gwahanol mewn meysydd eraill (e.e. pysgodfeydd, rheoli gwastraff neu fioamrywiaeth). Mae **Tabl 2.1** yn dangos gwybodaeth am reoli'r perygl o lifogydd ac erydiad unig. Mae'r wybodaeth a nodir yn yr adran hon yn ymwneud ag ardal reoli Caerdydd yn unig.

Noda **Tabl 2.1** y wybodaeth ganlynol am yr Awdurdodau Rheoli Risg yn ardal Caerdydd:

- **Awdurdod Rheoli Risg** – enw'r ARR, a lle y bo'n berthnasol yr adran berthnasol
- **Cyfrifoldebau o ran rheoli'r perygl o lifogydd ac erydiad** – nodi'r golofn hon gyfrifoldebau cyffredinol yr ARR o ran rheoli'r perygl o lifogydd ac erydiad. Mae'n cynnig gwybodaeth am yr holl gyfrifoldebau o ran rheoli'r perygl o lifogydd ac erydiad sydd gan yr ARR, nid yn unig y rhai dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr.
- **Dyletswyddau statudol** – dyma'r pethau sy'n rhaid i'r ARR, yn ôl deddfwriaeth, eu gwneud i reoli'r perygl o lifogydd ac erydiad
- **Pwerau caniatáu** – pwerau sy'n caniatáu / galluogi'r ARR i wneud pethau. Nid oes yn rhaid iddo ddefnyddio'r pwerau hyn, a chyfrifoldeb yr ARR yw penderfynu a wnaiff hynny ai peidio.
- **Ardal gyfrifoldeb ddaearyddol** - disgrifiad o'r ardal y mae'r ARR yn gyfrifol amdani. Gallai fod yn rhan neu'r cyfan o ardal fwy dan SLRPL Caerdydd.



Ffigur 2-1 – Awdurdodau Rheoli'r Perygl o Lifogydd

Er nad yw Llywodraeth Cymru'n Awdurdod Rheoli Risg, mae ganddo gyfrifoldebau helaeth o ran llifogydd ac erydiad arfordirol:

- Cyfrifoldeb cyffredinol dros bopeth sy'n ymwneud â llifogydd ac erydiad arfordirol
- Pennu polisi cenedlaethol
- Datblygu strategaeth genedlaethol llifogydd ac erydiad
- Llunio deddfwriaeth
- Darparu'r rhan fwyaf o'r cyllid sector cyhoeddus
- Penderfynu ar ba gamau gweithredu (os o gwbl) y dylid eu cymryd os nad yw'r Strategaeth Genedlaethol yn cael ei gweithredu neu os yw mesurau'n cynyddu'r perygl o du llifogydd ac erydiad

O fis Ebrill 2013, sefydlodd Llywodraeth Cymru un corff amgylcheddol i Gymru, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Cyfunodd swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru a rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru.

Mae'r corff newydd hwn yn ystyried holl gyfrifoldebau Asiantaeth yr Amgylchedd o ran rheoli'r perygl o lifogydd ac erydiad arfordirol yng Nghymru.

Tabl 2.1 – Awdurdodau Rheoli Risg a'u cyfrifoldebau, eu dyletswyddau a'u pwerau

Awdurdod Rheoli Risg	Cyfrifoldebau dros reoli'r perygl o lifogydd ac erydiad	Dyletswyddau Statudol	Pwerau caniatáu	Ardal gyfrifoldeb ddaearyddol
Cyfoeth Naturiol Cymru – Awdurdod Rheoli Risg	<p>Rôl oruchwylio ar gyfer yr holl waith rheoli llifogydd ac erydiad arfordirol yng Nghymru</p> <ul style="list-style-type: none"> Rhoi cyngor a chymorth technegol i Awdurdodau Rheoli Risg Arwain ar Ymwybyddiaeth o Lifogydd Cymru Arwain at raglen codi ymwybyddiaeth genedlaethol Arwain ar fentrau cenedlaethol eraill Un pwynt cyswllt ar gyfer ymholiadau a gwybodaeth am y perygl o lifogydd <p>Cyfrifoldebau gweithredol dros lifogydd o afonydd, y môr ac erydiad arfordirol</p> <ul style="list-style-type: none"> Casglu data Mapio risgiau llifogydd o brif afonydd, y môr a chronfeydd dŵr Cynnal asesiadau o ran risgiau llifogydd o brif afonydd, y môr a chronfeydd dŵr Adolygu a chydlynu data i gyflwyno gwybodaeth i'r Comisiwn Ewropeaidd Cymeradwyo gwaith yr Awdurdod Amddiffyn Arfordirol o ran erydiad arfordirol ac amddiffyn yr arfordir 	<ul style="list-style-type: none"> Cydweithio ag Awdurdodau Rheoli Risg eraill, gan gynnwys rhannu data Adrodd i Weinidogion Cymru ar y perygl o lifogydd ac erydiad arfordirol yng Nghymru Adrodd i Weinidogion Cymru ar roi'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer rheoli'r perygl o lifogydd ac erydiad ar waith Sefydlu Pwyllgorau Llifogydd ac Arfordir Rhanbarthol Gweithredu mewn ffordd sy'n gyson â'r Strategaeth Genedlaethol Rheoli'r Perygl o Lifogydd ac Erydiad yng Nghymru Gweithredu mewn ffordd sy'n gyson â Strategaethau Lleol a chanllawiau Rheoli'r Perygl o Lifogydd 	<ul style="list-style-type: none"> Gofyn am wybodaeth Codi ardollau ar gyfer gwaith rheoli'r perygl o lifogydd yn lleol, drwy Rheoli'r Perygl o Lifogydd Cymru Dynodi adeileddau neu nodweddion sy'n effeithio ar y perygl o lifogydd neu erydiad arfordirol Cyflawni gwaith Achosi llifogydd neu erydiad arfordirol dan amodau penodol 	Cymru Gyfan
Cyngor Caerdydd				Ardal Awdurdod Lleol Cyngor

Awdurdod Rheoli Risg	Cyfrifoldebau dros reoli'r perygl o lifogydd ac erydiad	Dyletswyddau Statudol	Pwerau caniatâu	Ardal gyfrifoldeb ddaearyddol
Awdurdod Arweiniol Lleol Llifogydd	Cyfrifoldebau gweithredol o ran perygl llifogydd lleol o gyrsiau dŵr cyffredinol, dŵr wyneb a dŵr llawr <ul style="list-style-type: none"> Corff Mabwysiadu a Chymeradwyo SDCau Cynnal SDCau Gwaith a ganiateir ar gyrsiau dŵr cyffredinol Cynnal asesiadau o ran risgiau llifogydd o bob ffynhonnell <u>heblaw am</u> o'r prif afonydd, y môr a chronfeydd dŵr Mapio risgiau llifogydd o bob ffynhonnell <u>heblaw am</u> o'r prif afonydd, y môr a chronfeydd dŵr Cynllunio ar gyfer rheoli llifogydd o bob ffynhonnell heblaw am o'r prif afonydd, y môr a chronfeydd dŵr 	<ul style="list-style-type: none"> Paratoi Strategaethau Lleol Rheoli'r Perygl o Lifogydd (SLRPLau) Gweithredu mewn ffordd sy'n gyson â'r Strategaeth Genedlaethol Rheoli'r Perygl o Lifogydd ac Erydiad yng Nghymru Gweithredu mewn ffordd sy'n gyson â Strategaethau Lleol a chanllawiau Rheoli'r Perygl o Lifogydd Cydweithio ag Awdurdodau Rheoli Risg eraill, gan gynnwys rhannu data Ymchwilio i lifogydd yn yr ardal, i'r graddau y bo hynny'n briodol. Cadw cofrestr o adeileddau a nodweddion sy'n debygol o effeithio ar y perygl o lifogydd Cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy Dyletswyddau dan y ddeddf cynlluniau sifig wrth gefn i asesu risgiau a chreu cynlluniau yn eu herbyn 	<ul style="list-style-type: none"> Gofyn am wybodaeth Cyhoeddi hysbysiadau gorfodi a gosod cosbau am ddiffyg cydymffurfiaeth gyda chais am wybodaeth Dynodi adeileddau neu nodweddion sy'n effeithio ar y perygl o lifogydd neu erydiad arfordirol Cyflawni gwaith Achosi llifogydd neu erydiad arfordirol dan amodau penodol 	Caerdydd
Awdurdod Amddiffyn yr Arfordir ²			<ul style="list-style-type: none"> Cynnal gwaith o ran erydiad arfordirol ac amddiffyn yr arfordir Cydsynio i waith amddiffyn yr arfordir 	Ardal Awdurdod Lleol Cyngor Caerdydd
Awdurdod Priffyrdd Lleol	Cyfrifoldeb dros yr holl faterion llifogydd sy'n effeithio ar briffyrdd (heblaw am gefnffyrdd) <ul style="list-style-type: none"> Delio ag achosion o lifogydd ar briffyrdd pan fônt yn ymwneud â cheuffosydd a/neu gylïau sy'n achosi dŵr i greu llifogydd ar y lôn ac effeithio ar eiddo ar y naill ochr iddi 			
Bwrdd Draenio	Cyfrifoldeb Gweithredol dros ddraenio tir ,	<ul style="list-style-type: none"> Gweithredu mewn ffordd sy'n gyson â'r 	<ul style="list-style-type: none"> Dynodi adeileddau neu nodweddion sy'n 	Ardal Ddraenio

² They may also be referred to as 'coastal erosion risk management authority', 'coastal local authority' or 'maritime authority'

Awdurdod Rheoli Risg	Cyfrifoldebau dros reoli'r perygl o lifogydd ac erydiad	Dyletswyddau Statudol	Pwerau caniatâu	Ardal gyfrifoldeb ddaearyddol
Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg – Awdurdod Rheoli Risg	<p>rheoli lefelau dŵr a chysiau dŵr cyffredinol yn Ardal Ddraenio Cil-y-coed a Gwynllŵg</p> <ul style="list-style-type: none"> Cynnal adeileddau draenio tir, adeileddau rheoli lefelau dŵr a chysiau dŵr cyffredinol Cyfrannu at baratoi strategaethau lleol perygl o lifogydd 	<p>Strategaeth Genedlaethol Rheoli'r Perygl o Lifogydd ac Erydiad yng Nghymru</p> <ul style="list-style-type: none"> Gweithredu mewn ffordd sy'n gyson â Strategaethau Lleol a chanllawiau Rheoli'r Perygl o Lifogydd Cydweithio ag Awdurdodau Rheoli Risg eraill, gan gynnwys rhannu data Cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy 	<p>effeithio ar y perygl o lifogydd neu erydiad arfordirol</p> <ul style="list-style-type: none"> Cyflawni gwaith Achosi llifogydd neu erydiad arfordirol dan amodau penodol 	<p>Cil-y-coed a Gwynllŵg – sy'n cynnwys ardaloedd yng Nghaerdydd a Chasnewydd.</p> <p>Nid yw'n cwmpasu ardal gyfan y SLRPL</p>
Dŵr Cymru - Awdurdod Rheoli Risg	<ul style="list-style-type: none"> Cyfrifol am ddarparu dŵr, gwneud trefniadau priodol i ddraenio dŵr budr, trin gwastraff, carthffosydd dŵr wyneb a charthffosydd cyfunol³. Yn bennaf gyfrifol am lifogydd o systemau dŵr a charthffosydd – mae hyn yn cynnwys llifogydd carthffosydd, pibellau wedi'u byrstio neu lifogydd a achosir gan ddiffygion yn y system dŵr neu garthffosiaeth. 	<ul style="list-style-type: none"> Gweithredu mewn ffordd sy'n gyson â'r Strategaeth Genedlaethol dros Reoli'r Perygl o Lifogydd ac Erydiad yng Nghymru Ystyried cynnwys Strategaethau Lleol Rheoli'r Perygl o Lifogydd Cydweithio ag Awdurdodau Rheoli Risg eraill, gan gynnwys rhannu data 		<p>Y rhan fwyaf o Gymru ac ambell ardal yn Lloegr</p> <p>Yn cynnwys ardal gyfan SLRPL Caerdydd</p>
Asiant Cefnffyrdd De Cymru Llywodraeth Cymru – Awdurdod Rheoli Risg	<ul style="list-style-type: none"> Cyfrifoldeb am yr holl faterion llifogydd sy'n effeithio ar gefnffyrdd Delio ag achosion o lifogydd ar briffyrdd pan fônt yn ymwneud â cheuffosydd a/neu gyliau wedi'u blocio sy'n achosi dŵr i greu llifogydd ar y lôn ac effeithio ar eiddo ar y naill ochr. 			<p>Holl awdurdodau lleol De Cymru.</p> <p>Yn cynnwys ardal gyfan SLRPL Caerdydd</p>

³ 'Combined sewers' carry both surface water run-off and waste water from homes and businesses

2.1. Gwasanaethau Mewnol Cyngor Caerdydd

Mae'n bwysig cydnabod y gall canlyniadau ac effeithiau llifogydd dorri ar draws nifer o wasanaethau'r Cyngor, a bod gan bob un rôl i'w chyflawni i leihau'r perygl o lifogydd, codi ymwybyddiaeth a chefnogi'r ymateb i lifogydd.

2.1.1. Uned Rheoli mewn Argyfwng

Paratoi, cynllunio ac ymateb i lifogydd drwy weithio gyda gwasanaethau eraill a phartneriaid allweddol. Mae hyn yn cynnwys creu cynlluniau ymateb brys ar gyfer llifogydd amrywiol, profi a hyfforddi unigolion i'w paratoi at ddigwyddiad o'r fath; codi ymwybyddiaeth o ddigwyddiadau o'r fath drwy gynlluniau gwydnwch cymunedol a gweithio gyda'r gymuned; yn ogystal â chynorthwyo â'r ymateb i unrhyw ddigwyddiad o'r fath. Gwneir llawer o'r gwaith hwn mewn partneriaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru ac a'r gwasanaethau brys.

2.1.2. Priffyrdd

Drwy reoli, arolygu a chynnal a chadw arwynebau ffordd, gylïau a draeniau, gellir lleihau'r perygl o lifogydd. Mae caniatáu adeileddau a rheoli ceisiadau cynllunio sy'n ymwneud â chyrsiau dŵr cyffredin yn helpu i reoli llif dŵr mewn sianeli allweddol a lleihau'r risg o lifogydd. Yn ogystal â blaengynllunio ac adeiladu seilwaith priffyrdd, mae hefyd angen ymateb i ddraeniau a gylïau sydd wedi'u blocio, y mae angen gwneud mwy o waith arnynt mewn cyfnodau o law trwm, a all effeithio ar ganlyniadau a pharhad llifogydd.

2.1.3. Cynllunio ac Adnewyddu Cymdogaethau

Drwy ganllawiau a gorfodi cynllunio, safonau derbynol ar gyfer datblygiadau newydd a'r strydlyn, gellir lleihau'r tebygolrwydd o lifogydd a chanlyniadau hynny. Mae gan swyddogion ddyletswydd i ystyried effeithiau a risgiau llifogydd wrth ystyried ceisiadau cynllunio a chreu'r weledigaeth strategol hirdymor i Gynllun Datblygu Caerdydd a all helpu gyda strategaethau lliniaru llifogydd hirdymor Caerdydd. Yn ogystal â'r gwaith ymgynghori a wnaed â datblygwyr, gall penseiri a pherchenogion tai helpu i godi ymwybyddiaeth o faterion llifogydd.

2.1.4. Cymunedau a Thai

I sicrhau bod stoc dai'r Cyngor yn addas at y diben a'i bod yn lliniaru'r perygl o lifogydd, gan leihau canlyniadau sy'n deillio ohonynt. Mae cyfleoedd i wella mesurau atal llifogydd drwy ddatblygu stoc dai newydd, cynnal a chadw ac atgyweirio eiddo a chodi ymwybyddiaeth ymhlith holl denantiaid y Cyngor.

2.1.5. Ysgolion ac Addysg

Mae dyletswydd i sicrhau bod ein hysgolion a'n cyfleusterau addysgol yn ddiogel ac yn addas at y diben. Mae paratoi ymateb brys yn bwysig i sicrhau bod plant ac oedolion yn cael eu diogelu a'u symud i le diogel cyn gynted â phosibl. Mae hefyd yn gyfle delfrydol i godi ymwybyddiaeth o beryglon llifogydd a'r effaith ar ein cymunedau.

2.1.6. Parciau

Mae gan barciau sawl ardal o dir agored a ddefnyddir fel ardaloedd gorlif petasai'r afon gyfagos yn gorlifo. Hefyd, gall plannu coed gael effaith negyddol neu gadarnhaol ar ddŵr wyneb. Gall planhigion, ardaloedd gweiriog a choed helpu i gadw dŵr ac arafu dŵr sy'n llifo, gan leihau'r perygl o achosi llifogydd arwyneb. Yn yr un modd, gall coeden sydd wedi'i phlannu yn agos at gyli neu ddraen gynyddu'r risg o greu llifogydd arwyneb, gan y gall y dail flocio llif y dŵr a gall gwreiddiau flocio rhannau o'r prif garthffosydd neu ddraeniau.

2.1.7. Rheoli Gwastraff a Glanhau Strydoedd

Gall sbwriel, dail a graen mewn gylïau ac o amgylch draeniau achosi mwy o lifogydd dŵr wyneb, felly mae cael gwared arnynt mewn pryd yn bwysig i leihau effeithiau llifogydd. Mae Cyngor Caerdydd yn treialu dull "parcio llanwol" wrth ymdrin â "chyfyngiadau parcio dros dro" ar strydoedd penodol drwy gydlyn gwaith y timau glanhau strydoedd a gweithrediadau'r briffordd. Awgryma canlyniadau cychwynnol fod hyn wedi bod yn llwyddiannus wrth glirio ardaloedd mewn ffordd effeithiol ac effeithlon.

2.1.8. Cynaliadwyedd

Mae gan lifogydd gysylltiad agos â newid yn yr hinsawdd a'r tywydd eithafol cynyddol sy'n achosi glaw mawr am gyfnodau hwy. Gall glaw trwm wedi cyfnod sych iawn fod yr un mor beryglus â glaw trwm yn disgyn ar dir soeglyd. Drwy roi ystyriaeth i gynaliadwyedd yn holl weithgareddau'r cyngor, mae modd lleihau'r risgiau

hyn a chodi ymwybyddiaeth o'r mesurau lliniaru a gaiff eu cyflwyno. Gall y Cyngor gyfrannu at fesurau lliniarol hirdymor drwy wneud ymrwymiad parhaus i ynni gwyrdd a lleihau allyriadau carbon.

2.1.9. Gofal Cymdeithasol

Mae dyletswydd i sicrhau bod ein cyfleusterau'n ddiogel ac yn addas at y diben. Mae'n bwysig paratoi ymateb brys i sicrhau bod pobl yn cael eu diogelu a'u symud i rywle diogel cyn gynted â phosibl, yn ogystal chodi ymwybyddiaeth am berygl llifogydd a'r effaith ar ein cymunedau mwyaf diamddiffyn.

2.1.10. Cymunedau yn Gyntaf

Mae Cymunedau yn Gyntaf wedi gweithio gyda'r sectorau mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau i godi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â llifogydd a dwyn ymlaen trafodaethau ar sut y gall cymunedau helpu eu hunain, paratoi at ddigwyddiadau o'r fath ac ymateb iddynt.

2.1.11. Awdurdod yr Harbwr

Mae Awdurdod yr Harbwr yn rheoli Morglawdd Bae Caerdydd a grëwyd i fodloni dau angen. Yn gyntaf, i greu morlyn parhaol 2km² a fyddai'n denu buddsoddiad i ardal ddociau bur segur Caerdydd a sbarduno adfywiad. Yn ail, i gynnig adeiledd lliniaru llifogydd hanfodol i warchod rhag lefel y môr yn codi a lefelau dyfroedd Afonydd Taf ac Elái. Llwyddwyd i gyflawni'r ddau beth hyn, sy'n dangos sut y gall gweithredu adeileddau amddiffyn rhag llifogydd gael fwy nag un canlyniad cadarnhaol. Mae Morglawdd Bae Caerdydd bellach yn rhan bwysig o system amddiffynfeydd arfordirol Caerdydd.



3. Y perygl lleol o lifogydd yng Nghaerdydd

3.1. Nodweddion cyffredinol Caerdydd

Mae ffin weinyddol Cyngor Caerdydd tua 158 km² ac mae'n cynnwys tua 346,000 o bobl (yn ôl cyfrifiad 2011).

Yng Nghaerdydd, mae tua 148,109 o eiddo preswyl, 8,011 o eiddo amhreswyl a 1,341 o wasanaethau hanfodol (ysbytai, cartrefi nyrsio/gofal/ymddeol, is-orsafedd trydan, ysgolion, Heddlu, Gorsafedd Tân ac Ambiwylans, carchardai a gwaith carthffosiaeth neu drin gwastraff dŵr).

3.2. Ffynonellau perygl o lifogydd

Gall llifogydd ddod o fwy nag un ffynhonnell. Wrth reoli'r perygl o lifogydd mae angen ystyried yr holl ffynonellau llifogydd a allai effeithio ar ardal benodol. Mae angen hefyd ystyried y rhyngweithio rhwng ffynonellau llifogydd gwahanol i sicrhau nad yw gweithredu i reoli'r perygl o un ffynhonnell yn effeithio ar y perygl o ffynhonnell arall mewn ardal wahanol, hynny yw symud y perygl o un lle i'r llall.

3.2.1. Prif afonydd

Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am reoli'r perygl o lifogydd o Brif Afonydd (fel y diffinnir yn Neddf Adnoddau Dŵr 1991). Mae Caerdydd yn nalgylchoedd afonydd Elái, Taf a Rhymni. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi paratoi Cynlluniau Rheoli Llifogydd Dalgylchoedd ar gyfer y dalgylchoedd hyn; Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch Taf ac Elái (EAW, 2009) a Chynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch y Cymoedd Dwyreiniol (EAW, 2009), sy'n cynnwys Afon Rhymni.

Daw llifogydd o Brif Afonydd fel arfer pan fo lefel y dŵr glaw sy'n llifo i afonydd yn fwy nag y gall llif ddŵr naturiol yr afon ymdopi â hi. Bryd hynny bydd yr afon yn gorlifo ac yn creu llifogydd yn yr ardal o'i chwmpas. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi codi nifer o amddiffynfeydd rhag llifogydd yn y sir i leihau'r perygl o hyn rhag digwydd.

3.2.2. Cyrsiau dŵr cyffredinol

Afonydd neu nentydd nas dynodir yn Brif Afonydd yw'r rhain. Mae Deddf Draenio Tir 1991, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, yn gosod dyletswyddau cyffredinol a phenodol ar Gyngor Caerdydd o ran yr adeileddau a ganiateir a gorfodol i'w gosod ar gwrs dŵr cyffredinol.

Mae llifogydd o gyrsiau dŵr cyffredinol yn cael eu hachosi mewn ffordd debyg i Brif Afonydd, pan fydd lefel y glaw sy'n disgyn yn fwy na gallu'r afon i'w dal. Yn y gorffennol, gosodwyd nifer o gyrsiau dŵr mewn pibelli mawr, neu geuffosydd, o dan y ddaear fel bod modd datblygu ardal yn ehangach. O ganlyniad i effaith llifogydd dros dir, a fydd yn digwydd pan na all ceuffos ymdopi â'r holl lif sy'n ei gyrraedd, mae'n aml yn fwy difrifol na llifogydd o gwrs dŵr agored. O'i gymharu â chwrs dŵr agored mae perygl mwy o flocio unwaith y caiff ceuffos ei gosod. Mae'n anos delio â blocio ceuffos na chwrs dŵr agored.

Mae Cyngor Caerdydd yn buddsoddi llawer o arian ac amser mewn sicrhau bod y gwaith yn cael ei gynnal i sicrhau bod ceuffosydd allweddol yn glir, pan gydnabyddir bod perygl o lifogydd petai'r geuffos yn cael ei blocio. Yn y dyfodol, bydd Cyngor Caerdydd yn annog ac yn hyrwyddo gwaredu ceuffosydd i adfer amgylchedd cwrs dŵr mwy naturiol. Mae hyn yn unol â pholisïau ceuffosydd CNC a Chyngor Caerdydd.

3.2.3. Erydiad arfordirol a'r perygl o lifogydd

Nodir polisi rheoli arfordir Caerdydd yng Nghynllun Rheoli Arfordir Aber Afon Hafren 2 (CRA2) (Grŵp Arfordirol Aber Afon Hafren). Mae CRA2 yn ddogfen anstatudol, sydd â pholisïau sy'n cynnig sut i reoli'r arfordir ar Aber Afon Hafren dros y ganrif nesaf. Mae ardal astudiaeth CRA2 yn dilyn yr arfordir o Drwyn Larnog, ger Penarth yng Nghymru, i Anchor Head, i'r gogledd o Fae Weston yn Lloegr. Ffin yr uchel lanw yw Haw Bridge, ger Caerloyw, sydd fymryn yn is na'r cyfyngiad llanwol presennol ac sydd dal yn cael ei effeithio gan y môr. Mae hefyd yn cynnwys Ynys Echni ac Ynys Rhonech.

Bydd polisiâu rheoli arfaethedig Arfordir Caerdydd yn parhau gyda'r polisi presennol i 'Ddal Tir' i ddwyrain Bae Caerdydd ac ar Wastatir Gwynllŵg lle mae'r tir yn is. Yn y dyfodol, dylid ystyried 'Alinio a Reolir' ar Wastatir Gwynllŵg. I'r de a'r gorllewin, lle mae'r tir yn uwch a bod llai o berygl o erydu oherwydd hyn, bydd y polisi Dim Ymyrryd Rhagweithiol yn parhau.

Gall prosesau arfordirol a llanwol effeithio ar y perygl o lifogydd yn anuniongyrchol. Pan fydd storm, gall lefel y dŵr yn yr aber godi'n sylweddol, gan achosi ymchwydd storm sy'n golygu na all afonydd a systemau draenio ollwng dŵr i'r môr.

Mae'r ymchwyddon hyn fel arfer yn digwydd ar yr un adeg â glaw trwm, a gallant gyfyngu ar lif y dŵr i'r môr, allan o'r afonydd neu'r ceuffosydd o systemau draenio fel y rhai a geir yng Ngwastatir Gwent. Gall hyn effeithio ar y gwaith o reoli llifogydd dŵr wyneb (gweler isod).

3.2.4. Dŵr Daear

Mae llifogydd dŵr daear yn digwydd pan fydd lefelau dŵr yn y ddaear yn codi'n uwch na'r arwyneb naturiol. Mae'n fwyaf cyffredin yn yr iseldir lle ceir haenau athraidd. Prin fod tystiolaeth a gofnodir ynghylch llifogydd dŵr daear yn yr ardal, ac felly ystyrir bod y perygl o lifogydd yn yr ardal hon yn fach, a gadarnheir gan y crynodeb yng Nghynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch Afonydd Taf ac Elái (EAW 2009).

Yn ystod y cam dichonoldeb o gynllunio project Morglawdd Bae Caerdydd codwyd pryderon am y posibilrwydd y byddai'r lefelau dŵr daear yn codi yn ne Caerdydd a bod eiddo yn yr ardal mewn perygl o gael eu difrodi. O ganlyniad, cafodd Cynllun Amddiffyn Dŵr Daear ei gynnwys yn Neddf Morglawdd Bae Caerdydd 1993 sy'n rhoi cyfle i berchenogion a meddianwyr, petai difrod yn digwydd o achos dŵr daear a achoswyd fwy na thebyg drwy godi'r Morglawdd, hawlio gwaith adfer neu iawndal.

Roedd y Ddeddf yn gorfodi Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd, sef Awdurdod yr Harbwr bellach (sy'n rhan o'r Cyngor) i fonitro'r lefelau dŵr daear am gyfnod cyn cronni ac ar ôl adeiladu'r Morglawdd, er mwyn gwybod pa effaith fyddai cronni yn ei gael ar y lefelau dŵr daear.


Gwnaed gwaith dad-ddyfrio mewn ardaloedd y nodwyd fel rhai a allai fod mewn perygl o gael eu difrodi gan ddŵr daear. Mae'r system ddad-ddyfrio yn cynnwys ffynhonnau fertigol, draeniau llorweddol a phwmpio. Bydd y gwaith ddad-ddyfrio yn parhau tan 2019 dan delerau'r Ddeddf. Mae hwn yn waith cynnal a chadw a newid offer parhaus y mae'n gyfrifoldeb i Awdurdod Harbwr Caerdydd i'w gyflawni.

3.2.5. Dŵr wyneb

Mae llifogydd dŵr wyneb fel arfer yn digwydd pan fydd llif y dŵr wyneb (oherwydd glaw) yn fwy na gallu systemau draenio i'w waredu. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi llunio asesiad cenedlaethol o'r perygl o lifogydd o ddŵr wyneb ar ffurf dwy set ddata mapio genedlaethol. Mae gan y set gyntaf, Ardaloedd sy'n Agored i Lifogydd Dŵr Wyneb (AALDW) yn cynnwys thri throthwy 'agored i niwed' o ran glaw sydd â chyfle o 1/200 mewn digwydd.

Ers hynny, diweddarwyd y fethodoleg genedlaethol i greu Map Llifogydd Dŵr Wyneb (MLDW), model diwygiedig gyda dau achos o lifogydd (cyfle blynyddol o 1/30 ac 1/200) a dau drothwy dyfnder (mwy na 0.1m a mwy na 0.3m o ddyfnder).

Fel y Prif Awdurdod Llifogydd Lleol, cwblhaodd Cyngor Caerdydd yr Asesiad Rhagarweiniol o'r Perygl o Lifogydd (ARPL) (Hyder Consulting (DU) Cyf 2011) yn unol â'r Rheoliadau Perygl o Lifogydd yn Hydref 2011. Defnyddiwyd y siawns blynyddol o 1/200 a'r trothwy 0.3m o ddyfnder gan Asiantaeth yr Amgylchedd i lunio Ardaloedd Perygl o Lifogydd dangosol, a defnyddiwyd allbwn y rhain gan AALL i nodi eiddo a gwasanaethau critigol sydd mewn perygl o ddiodef o lifogydd dŵr wyneb, a'u hasesu yn erbyn canllawiau cenedlaethol. Nododd yr asesiad hwn nifer o ardaloedd ledled y sir lle gallai lefel y risg fod yn fwy na'r meini prawf a bennwyd. Mae'r rhan fwyaf o'r sir, fel y gwelir o'r map canlynol, yn ardal risg allweddol, fel y dangosir yn y darlun dilynol. Gwneir rhagor o waith yn unol â'r Rheoliadau Perygl o Lifogydd i wella ein dealltwriaeth o ganlyniadau'r perygl o lifogydd o ddŵr wyneb yn yr ardal.



Ffigur 3-1 Ardal risg allweddol ARPL

Ffynhonnell: ARPL Ffigwr 7.3:

3.2.6. Cronfeydd Dŵr

Fel y nodir yn adran 2 uchod, Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am reoli'r perygl o lifogydd o gronfeydd dŵr yng Nghymru. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi llunio asesiad o'r perygl o lifogydd o gronfeydd dŵr, sy'n cael ei ddefnyddio gan Cyfoeth Naturiol Cymru i lywio'u gwaith.

Mae Uned Rheoli Amgylcheddol y Cyngor wedi gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau bod cynlluniau lliniaru ac argyfwng addas ar waith petai digwyddiad o'r fath. Fodd bynnag, pwysleisiodd fod y lefel hon o risg yn isel tu hwnt, gyda chronfeydd dynodedig yn cael eu gofalu amdanynt a'u cynnal dan delerau Deddf Cronfeydd Dŵr 1975.

3.2.7. Llifogydd o garthffosydd a phibellau cyflenwi dŵr

Mae gan Ddŵr Cymru ddau brif gyfrifoldeb: cyflenwi dŵr o safon uchel i gwsmeriaid, a chael gwared â dŵr gwastraff a'i ddychwelyd i'r amgylchedd yn ddiogel. Drwy gyflawni ei swyddogaethau sylfaenol fel cynnal, cludo a thrin dŵr a dŵr gwastraff, gallai'r asedau hyn beri perygl o lifogydd a all ddeillio o fethiant yn y system, pibellau wedi'u byrstio neu ollngiadau tebyg o'r rhwydwaith carthffosydd ac asedau eraill, y mae Dŵr Cymru'n gyfrifol amdanynt.

Mae carthffosydd budr yn gorlifo pan fyddant wedi'u blocio neu pan fydd pypiau'n methu, sydd fel arfer ond yn effeithio ar hyn a hyn o eiddo. Gall llifogydd sy'n cynnwys dŵr budr achosi gofid mawr i bobl y mae'n effeithio arnynt.

Mae tri chategori o garthffos:

- carthffosydd budr, sy'n cludo dŵr budr a ddefnyddiwyd i olchi neu goginio, a dŵr o dai bach ac elifion masnachol;
- carthffosydd dŵr wyneb, sy'n cludo dŵr glaw o doeon, ierdydd a ffyrdd
- carthffosydd cyfunol, sy'n cludo dŵr budr a dŵr wyneb.

Gall llifogydd o ddŵr wyneb a charthffosydd cyfunol ddigwydd pan fydd unrhyw un o'r mathau hyn o garthffos yn gorlenwi oherwydd glaw trwm (neu weithiau eira'n toddi), pan fydd carthffosydd yn cael eu blocio neu, yn llai aml, pan fydd offer mecanyddol neu drydanol yn torri. Mae tebygolrwydd a difrifoldeb llifogydd o garthffosydd drwy orlenwi'n dibynnu ar faint y gall y system garthffosiaeth ymdopi ag ef, a all gael ei effeithio gan ystod o ffactorau gan gynnwys maint pibellau ac amodau tywydd. Nid yw carthffosydd wedi'u dylunio'n benodol i ddelio â llifogydd.

3.3. Asesiadau perygl o lifogydd

Rhaid i SLRPL Caerdydd gynnwys asesiad o'r perygl lleol o lifogydd. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar lunio SLRPL yn nodi ystod o ffynonellau gwybodaeth y dylid eu defnyddio i gynnal yr asesiad perygl lleol o lifogydd:

- **Yr Asesiad Rhagarweiniol o'r Perygl o Lifogydd (ARPL)** – Cynhaliodd Cyngor Caerdydd ARPL yn 2011. Mae'n rhoi trosolwg lefel uchel o'r perygl o lifogydd o ffynonellau llifogydd lleol gan gynnwys dŵr wyneb, dŵr daear a chyrsgau dŵr cyffredin. Mae Cyngor Caerdydd wedi cyhoeddi adroddiad ar yr ARPL fel dogfen ar wahân (Hyder Consulting (DU) Cyf, 2011).
- **Data a gwybodaeth hanesyddol ar lifogydd** – roedd yr ARPL yn cynnwys adolygiad o wybodaeth am lifogydd o'r gorffennol.
- **Mapiau Perygl o Lifogydd i Ardaloedd Strategol Perygl o Lifogydd (ASPLau)** - mae'r ffynonellau gwybodaeth hyn wrthi'n cael eu casglu a chânt eu cwblhau erbyn mis Mehefin 2013. Nid ydynt felly wedi'u defnyddio i lunio'r SLRPL gyntaf hon i Gaerdydd ond bydd angen iddynt fod ar gael ar gyfer adolygiadau a strategaethau yn y dyfodol.
- **Mapiau Perygl o ASPLau** - mae'r ffynonellau gwybodaeth hyn wrthi'n cael eu casglu a chânt eu cwblhau erbyn mis Mehefin 2013. Nid ydynt felly wedi'u defnyddio i lunio'r SLRPL gyntaf hon i Gaerdydd ond bydd angen iddynt fod ar gael ar gyfer adolygiadau a strategaethau yn y dyfodol.
- **Data Asiantaeth yr Amgylchedd ar lifogydd dŵr wyneb** - Mae AA wedi paratoi nifer o fapiau llifogydd dŵr wyneb sy'n dangos ardaloedd a allai ddioddef o lifogydd, sydd ar gael i'w lawrlwytho. Cawsant eu diweddarau'n rheolaidd gan AA a chânt eu diweddarau'n barhaus. Fe'u defnyddiwyd i lywio'r asesiad a gwblhawyd ar gyfer yr ARPL, ac a ddefnyddir yn y dyfodol i lywio ymhellach gynlluniau buddsoddi a chynlluniau llifogydd i'r ASPLau.
- **Data penodol lleol** – gall gynnwys tystiolaeth anecdotaidd ar ardaloedd y gwyddys bod llifogydd yn effeithio arnynt ac unrhyw ddata y gall Cyngor Caerdydd ei gasglu i'w ardal ddaearyddol ei hun



Ceuffos Llannon Road o dan lifogydd
Chwefror 2008

4. Sut caiff y Perygl Lleol o Lifogydd ei reoli ar hyn o bryd?

Nid yw'r gwaith o reoli llifogydd yn faes newydd i Gaerdydd a gwnaed gwaith ers blyneddau i atal, paratoi a lleihau'r tebygolrwydd o lifogydd a chanlyniadau hynny. Gall gwaith lliniaru llifogydd fod yn adeileddol neu anadeileddol.

- Adeileddol – newidiadau i seilwaith; adeileddau ffisegol; amddiffynfeydd arfordirol sy'n helpu i gadw, sianelu neu atal dŵr rhag symud.
- Anadeileddol – codi ymwybyddiaeth, cynlluniau mewn argyfwng, rheolaethau cynllunio, tirlunio addas neu ddefnyddio dulliau draenio cynaliadwy.

Mae Caerdydd wedi defnyddio'r ddau dull.

4.1. Camau gweithredu cyfredol Cyngor Caerdydd

4.1.1. Ymatebion brys

Mae gan Uned Rheoli Brys Cyngor Caerdydd nifer o gynlluniau argyfwng y gellir eu rhoi ar waith os bydd llifogydd mawr yng Nghaerdydd. Aethpwyd drwy senarios digwyddiadau brys gyda'r gwasanaethau allweddol a gwasanaethau brys eraill i brofi gwydnwch y Cyngor o ran digwyddiadau o'r fath. Mae'r swyddogion cysylltiedig hefyd yn rhoi cyngor i fusnesau a chymunedau lleol ar sut i ddelio â chanlyniadau, a lleihau effeithiau'r rheiny, petai llifogydd, gan weithio'n agos gyda gwasanaethau eraill i baratoi at ddigwyddiadau o'r fath.

4.1.2. Ymwybyddiaeth Gymunedol

Mae ymwybyddiaeth gymunedol o risgiau llifogydd yn tyfu'n araf ledled Caerdydd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, Cymunedau yn Gyntaf ac Uned Rheoli Brys y Cyngor yn cynnal gweithdai cymunedol a diwrnodau gweithredu i gefnogi cymunedau lle mae perygl uchel o lifogydd. Maen nhw'n codi ymwybyddiaeth ym mhob cymuned a busnes am y perygl o lifogydd mewn cymuned, gan nodi camau y gall unigolion eu cymryd i wella gwydnwch eu cartrefi.

Er bod yr ymwybyddiaeth gyffredinol o lifogydd yn tyfu, yn rhannol oherwydd cyhoeddusrwydd yn y cyfryngau cenedlaethol, mae llifogydd mewn llefydd fel Boscastle, Swydd Gaerloyw ac yn fwyaf diweddar yn Aberystwyth, mae angen gwneud mwy i baratoi cymunedau at lifogydd.

4.1.3. Cynnal a Chadw Priffyrdd

Mae gwasanaeth priffyrdd y cyngor yn gweithio'n ddygn i gynnal a chadw a thrwsio draeniau, ceuffosydd a gyliau'r Cyngor, drwy raglen arolygu a glanhau i gael gwared â blociadau a gweddillion o gyrsgiau dŵr yn ogystal â chynnal gridiau a sgriniau sbwriel. Maent yn gwneud gwaith cynnal a chadw amrywiol a gwaith ymatebol, gan ddelio â galwadau o ran draeniau wedi'u blocio a llifogydd dŵr wyneb. Gallant hefyd weithredu pymplau symudol i leihau'r difrod a fyddai'n digwydd fel arall gan lifogydd.

4.1.4. Cynlluniau lliniaru llifogydd

Mae Cyngor Caerdydd yn adolygu'n barhaus yr angen i sicrhau buddsoddiad cyfalaf i leihau'r perygl o lifogydd ledled yr ardal. Un enghraifft gyfredol yw cynllun a gynlluniwyd yn Rhiwbeina.

Dros yr 20 mlynedd olaf, mae gan gyrsgiau dŵr Rhiwbeina hanes o lifogydd sy'n effeithio ar eiddo preswyl a masnachol. Digwyddodd y diweddaraf ym Mehefin 2009, gan effeithio ar Wenallt Road, Heol Uchaf, Pen y Dre a sawl lleoliad arall ym mhentref Rhiwbeina. Achosodd y llifogydd ddifrod sylweddol i eiddo preswyl a masnachol. Mae arian wedi'i sicrhau a gwaith wedi dechrau ar ddylunio a chyflawni gwaith gwella amddiffynfeydd llifogydd i ddiogelu yn erbyn y siawns o storm 1/100 blyneddol gan gynnwys ystyriaeth o newid yn yr hinsawdd. Caiff 216 eiddo fudd o amddiffynfeydd gwell sy'n cael eu cyflawni drwy waith peirianeg a gynigir dan y cynllun hwn.

Amcangyfrifir y bydd y cynllun yn costio £1.5m, a sicrhawyd grant gan Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewropeaidd (ERDF) ar gyfer cyflawni'r rhan fwyaf o'r cynllun, ond talwyd am gyfradd o'r cynllun gan y Cyngor. Y dyddiad diweddaraf a gynigiwyd i gwblhau'r project yw erbyn Rhagfyr 2014.

Mae'r Cyngor hefyd yn dal i weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i ystyried cynlluniau lliniaru newydd mewn ardaloedd lle mae perygl uchel o lifogydd ledled y Ddinas fel Pen-y-lan, Waterloo Gardens.

4.1.5. Erydiad Arfordirol

Mae Cyngor Caerdydd yn monitro erydiad ar hyd yr arfordir yn y sir. Cynhelir arolygon erydiad arfordirol fel ein bod yn deall yn well y risgiau sy'n wynebu ein cymunedau sy'n byw ger yr arfordir, a fydd yn llywio rhaglen waith y cyngor a chynlluniau cyfalaf posibl unwaith y cânt eu cwblhau.

4.1.6. Morglawdd Bae Caerdydd

Ym mis Tachwedd 1999 cwblhawyd y morglawdd a chaeodd y llifddorau pan fo lefel y dŵr yn uchel i gadw dŵr y môr o Fôr Hafren yn y bae 500 erw. Crëwyd Morglawdd Bae Caerdydd i fodloni dau angen. Yn gyntaf, i greu morlyn parhaol 2km² a fyddai'n denu buddsoddiad i ddociau Caerdydd, a oedd yn segura gan mwyaf, a sbarduno adfywiad. Yn ail, i gynnig adeiledd lliniaru llifogydd hanfodol i ddiogelu rhag lefel y môr yn codi a lefelau dyfroedd Afonydd Taf ac Elái. Llwyddwyd i gyflawni'r ddau beth hyn, sy'n dangos sut y gall gweithredu adeileddau amddiffyn rhag llifogydd gael fwy nag un canlyniad cadarnhaol. Mae Morglawdd Bae Caerdydd bellach yn rhan bwysig o system amddiffynfeydd arfordirol Caerdydd.

4.1.7. Gweithio mewn partneriaeth

Mae Cyngor Caerdydd yn gweithio gyda nifer o gyrff cyhoeddus cysylltiedig i greu amgylchedd gwell i bobl Caerdydd. Mae Cyngor Caerdydd yn aelodau o'r sefydliadau / gweithgorau canlynol:

- **Bwrdd Draenio Mewnol Gwastatir Cil-y-coed a Gwynllŵg** sy'n gyfrifol am reoli system ddraenio Gwastatir Gwent o ddydd i ddydd, lle byddai tir sy'n werthfawr i amaeth, neu ddefnyddiau masnach a phreswyl, yn dioddef o lifogydd y rheolaidd. Mae gwaith y Bwrdd yn hanfodol i gynnal diddordeb ecolegol ac archeolegol sydd o bwysigrwydd cenedlaethol yn yr ardal.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys Aelodau a etholwyd o blith talwyr ardollau draenio amaethyddol ac Aelodau a benodir gan yr awdurdodau lleol sy'n talu ardollau.

- Sefydlwyd **Grŵp Rheoli'r Perygl o Lifogydd De-ddwyrain Cymru (DEWFRMG)** i hyrwyddo cyfnewid gwybodaeth rhwng Awdurdodau Lleol (ALLau), Byrddau Draenio Mewnol (BDMau), Cyfoeth Naturiol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Llywodraeth Cymru (LIC) ac i ddarparu sail ar gyfer cynnal trosolwg strategol rhanbarthol.


Yn cefnogi'r cyfan mae cyfrifoldeb sydd gan bob Awdurdod Arweiniol Llifogydd Lleol (AALL) dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (FWMA) i ymgynghori ag Awdurdodau Rheoli Risg:

"Rhaid i awdurdod perthnasol gydweithio ag awdurdodau perthnasol eraill wrth arfer eu swyddogaethau llifogydd ac erydiad arfordirol."

- **Grŵp Llifogydd Ardal Caerdydd.** Sefydlwyd Grŵp Llifogydd Ardal Caerdydd i sicrhau dull amlasiantaeth o ddelio â llifogydd mawr yn Ninas a Sir Caerdydd.
- **Grŵp Arfordirol Aber Afon Hafren (GAAAH)** – partneriaeth o awdurdodau lleol a sefydliadau eraill Aber Afon Hafren sy'n datblygu Cynlluniau Rheoli Arfordirol.

4.2. Adroddiadau a Digwyddiadau

Ni fu llifogydd mawr yng Nghaerdydd ers rhai blynyddoedd, a'r rhai diwethaf a ddifrododd eiddo ac a amharodd ar bobl oedd yn 2009. Nid oes cofnodion manwl o ddigwyddiadau cyn 2010. Ond, mae llifogydd dŵr wyneb yn bryder cynyddol i drigolion Caerdydd, a gyda chyfnodau helaethach o law trwm, mae nifer yr achosion yn codi (gweler Ffigwr 4-1).



Ffigwr 4.2 – Digwyddiadau a adroddwyd – draenio a llifogydd priffyrdd


4.3. Lefel y ddealltwriaeth ar hyn o bryd

Mae'r Cyngor yn cysylltu â'r gymuned drwy arolwg blynyddol "Holi Caerdydd". 2012 oedd y flwyddyn gyntaf i gwestiwn gael ei ofyn i ddeall lefel bresennol yr ymwybyddiaeth o'r perygl o lifogydd. Bydd gwaith yn dechrau i ffurfio sylfaen dealltwriaeth ledled Caerdydd o ran llifogydd.



Mae'r ymatebion yn awgrymu bod dealltwriaeth sylfaenol resymol gan y cyhoedd ond bod angen gwneud mwy o waith mewn ardaloedd penodol, yn enwedig cymunedau a sectorau sy'n agored i niwed a'u paratoi at lifogydd.

Rhoddir ymatebion cryno i'r cwestiynau allweddol isod. Canlyniadau: Medi 2012


A yw eich eiddo mewn ardal lle ceir perygl o lifogydd?




Os ydy, sut dysgoch chi hyn?



Ydych chi'n gwybod sut i ddysgu os ydych chi'n byw mewn ardal lle mae perygl o lifogydd?



Ydych chi'n gwybod sut i gael cyngor petai'r perygl o lifogydd i'ch eiddo?



Ydych chi'n gwybod beth i'w wneud petai lifogydd yn cyrraedd eich eiddo?

4.4. Ffactorau i Ganolbwyntio Arnynt yn y Dyfodol

Drwy ddatblygu ac ystyried peryglon llifogydd ledled Caerdydd, nodwyd yr ardaloedd canlynol fel rhai sydd angen cael eu datblygu ymhellach neu yn cynnig cyfle i fynd y tu hwnt i'r gofynion statudol, i atgyfnerthu sefyllfa Caerdydd. Ymgorfforir hyn yn amcanion a mesurau lliniaru'r Cyngor.

- Gan nad yw llifogydd ac erydiad arfordirol yn mynd tu hwnt i ffiniau'r Cyngor, dylid canolbwyntio mwy ar **weithio mewn partneriaeth** gydag Awdurdodau Lleol cyfagos ac awdurdodau'r perygl o lifogydd fel Dŵr Cymru a'r IDB.
- **Gweithio'n agosach â'r Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd** i gyflawni cynlluniau sydd o fudd i bawb.
- Pennu **Polisi Darparu Bagiau Tywod** cadarn i sicrhau eglurder o ran sefyllfa'r Cyngor wrth ddarparu bagiau tywod ar adeg y llifogydd. Caiff y polisi hwn ei ddatblygu mewn ymgynghoriad ag aelodau ward lleol a chymunedau (gweler Atodiad A).
- Parhau i adeiladu ar y gwaith a wneir gan yr Uned Rheoli Brys mewn cydweithrediad â Cyfoeth Naturiol Cymru a Cymunedau yn Gyntaf o ran **cynlluniau gwydnwch cymunedol**. Bydd **ymgynghori ac ymgysylltu'n** allweddol i fynd i'r afael â chanlyniadau llifogydd a chynyddu ymwybyddiaeth o gamau i amddiffyn rhag llifogydd y gall unigolion eu cymryd i ddiogelu eu heiddo. Gan gynnwys ystyried y posibilid o ddarparu **dyfeisiau amddiffyn rhag llifogydd rhatach** i gymunedau eu prynu.
- O ganlyniadau cychwynnol Arolwg Holi Caerdydd mae'n amlwg bod angen gwneud rhagor o waith i **godi ymwybyddiaeth** o bob agwedd ar gymuned a sector busnes Caerdydd. Drwy ddefnyddio'r holl sianeli cyfathrebu presennol y gall y Cyngor eu defnyddio, mae modd cyfleu negeseuon codi ymwybyddiaeth ym mhob gwasanaeth.
- Gan fod yr arfordir yn newid yn gyson, mae angen cynnal **arolwg Arfordir** newydd o sicrhau bod y Cyngor yn ymwybodol o'r newidiadau. Drwy ddeall y risgiau presennol o erydiad arfordirol, tiffeddianwyr allweddol a'r amserlen bosibl o ran erydiad, gall y Cyngor ystyried manteision cost manwl unrhyw waith a allai gael ei nodi.
- Yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth am faterion llifogydd a chanlyniadau hynny ar lefel gyffredinol, mae angen cyfleu gwybodaeth am **rolau a chyfrifoldebau newidiol** i'r holl randdeiliaid allweddol, yn arbennig o ran **caniatadau dŵr cyffredin** a'r caniatâd cynllunio cysylltiedig.
- Gwneud **ystyried llifogydd yn rhan hanfodol** o holl benderfyniadau a chyfathrebu gwasanaethau.
- Sicrhau **caniatâd** cynllunio a **gorfodi** o ran hynny i sicrhau bod cyrsiau ac adeileddau dŵr yn cael eu diogelu
- Llundio **Canllawiau Cynllunio Penodol (CCPau)** o ran materion llifogydd i leihau'r perygl o lifogydd yn y dyfodol.
- Cynnwys a chefnogi Llywodraeth Cymru yn ei thrafodaethau â'r diwydiant yswiriant ar bremymau i eiddo mewn ardaloedd risg uchel.

Yn ogystal â gwella gweithgareddau sy'n mynd rhagddynt mae hefyd y dyletswyddau canlynol sy'n rhaid i'r Cyngor eu cyflawni i newid rolau a chyfrifoldebau statudol newidiol neu ganllawiau Llywodraeth Cymru sydd ar ddod.

- Cynnal **cofrestr o asedau perygl o lifogydd**. Rhaid i bob AALL gasglu a chadw cofrestr asedau draenio'n cofnodi perchenogaeth, cyflwr a chynnal cofnodion yr asedau hyn. Nod y gofrestr yw diogelu mesurau lliniaru llifogydd a helpu i lywio cyfundrefnau cynnal a chadw i leihau'r perygl o lifogydd. Yna bydd angen cynnal arolygon rheolaidd ar gyflwr adeileddau allweddol, er enghraifft, waliau gardd, ceuffosydd, nentydd ac adeiladau i sicrhau eu bod yn cael eu cynnal a'u cadw er mwyn lleihau'r perygl o lifogydd.
- Llundio **matrics methodoleg a blaenoriaethau cadarn** ar gyfer **ymchwilio i lifogydd** i sicrhau bod y digwyddiadau'n cael eu hymchwilio iddynt yn briodol yn gymesur â maint y digwyddiad. Sefydlu lle y bo'n bosibl resymau craidd dros lifogydd er mwyn datblygu camau adferol lle y bo'n bosibl. Mae Caerdydd yn cefnogi dull rhanbarthol sy'n cael ei ddatblygu.
- Adolygu'r angen i **ddynodi rhai adeileddau trydydd parti** sy'n effeithio ar perygl lleol i lifogydd. Rhaid i Gyngor Caerdydd nodi a dynodi (ac felly diogelu) **asedau draenio** y mae trydydd partiön sy'n cynorthwyo â rheoli'r perygl o lifogydd **yn berchen arnynt, yn eu cynnal a'u cadw neu'n eu gweithredu**. Ar ôl ei ddynodi bydd yn drosedd addasu neu gael gwared ar y nodweddion heb ganiatâd AALL.
- Gweithredu fel y **Corff Cymeradwyo SDCau (CCSDC)** ar gyfer ceisiadau datblygu yn y dyfodol yn unol â safonau cenedlaethol. Caiff Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) eu cyflwyno lle y bo'n ymarferol yn yr holl ddatblygiadau newydd. Cyflwyno safonau cenedlaethol er mwyn lleihau'r risg o lifogydd a gwella ansawdd dŵr. Heb ganiatâd CCSDC ni chaniateir dechrau adeiladu datblygiadau newydd.

Hefyd, rhaid i ganiatâd CCSDC gael ei roi cyn cael caniatâd cynllunio gan felly greu proses dau gam ar gyfer yr holl geisiadau cynllunio.

5. Dull Gweithredu a Pholisi Rheoli'r Perygl Lleol o Lifogydd yng Nghaerdydd


5.1. Methodoleg a chanllawiau

Mae Cyngor Caerdydd wedi datblygu ei ddull a'i bolisi dros reoli'r perygl lleol o lifogydd yn unol â chanllawiau⁴ a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, ac a gyflwynwyd i Awdurdodau Arweiniol Llifogydd Lleol.

Mae'r canllawiau hyn yn nodi'r broses i'w dilyn i sicrhau dull cyson o weithredu a sicrhau bod strategaethau lleol yn cael eu halinio â'r Strategaeth Genedlaethol. Mae'r adrannau canlynol yn nodi sut mae Caerdydd wedi dilyn y broses a ddangosir yn Ffigurau 5-1 isod. Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn nodi cyfres o Amcanion y mae'r strategaeth yn ceisio'u cyflawni. Mae'n gyfrifoldeb ar Gyngor Caerdydd, fel yr AALL, i ystyried yr Amcanion hyn, ac adolygu unrhyw Amcanion lleol pellach a ystyrir yn angenrheidiol.

Mae angen nodi ffyrdd o asesu sut y gellir cyflawni'r Amcanion. Gwneir hyn drwy gyfres o Fesurau. Gall rhai Mesurau gyfrannu at fwy nag un Amcan.

Bydd yn rhaid cynnal cyfres o Gamau Gweithredu i sicrhau bod Mesurau'n cael eu cyflawni. Mae amryw opsiynau ar gael i gyflawni'r Amcanion hyn drwy wneud lefelau gwahanol o ymdrech ac adnoddau "ar lawr gwlad". Gall lefel yr ymdrech a wneir ddibynnu ar y gyllideb sydd ar gael a'r lefel o angen / risg a nodwyd i gamau gweithredu o'r fath.



⁴ Local Flood Risk Management Strategies - Local Strategy (guidance for Lead Local Flood Authorities), Welsh Government, November 2011

Ffigur 5-1 Dull polisi o Strategaethau Genedlaethol i rai Lleol

5.2. Ymgynghoriad

Wrth benderfynu ar y mesurau, mae Cyngor Caerdydd hefyd wedi gweithio gydag awdurdodau lleol cyfagos ac Awdurdodau Rheoli Risg eraill (a restrir yn Adran 2). Mae hyn yn cynnwys datblygu atebion gyda Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn gwella buddion gwaith partneriaeth.

Cafwyd ymgynghoriad fel rhan o'r broses Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cadw ac ymgynghoreion eraill. Mae'r adborth cychwynnol o'r ymarfer ymgynghori ac arolwg Holi Caerdydd hefyd wedi llywio'r canlyniadau hyn (rhagor o fanylion yn Atodiad C).

Mae'r Datganiad Ôl-fabwysiadu Manylion Amgylcheddol yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn cynnwys manylion ar sut mae canlyniadau'r ymgynghoriadau a'r farn a ystyriwyd.

Yn ystod mis Chwefror i fis Mawrth 2013 gwnaeth Cyngor Caerdydd hefyd cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth Ddrafft. Mae'r Strategaeth derfynol hon wedi'i chynnwys yn ymatebion yr ymgynghoriad. Mae manylion am yr holl sylwadau ymgynghori yn Atodiad C.

5.3. Amcanion

Diffinnir **amcan** fel '*canlyniad*' neu '*darged*' y gellir ei gyflawni. Er enghraifft, gallai canlyniad amcan fod i '*leihau effaith llifogydd*' tra gallai amcan targed fod yn '*creu a gweithredu cynllun monitro ar gyfer adeileddau rheoli risg llifogydd ac erydiad*'.

Wrth ddatblygu'r amcanion ar gyfer rheoli'r perygl lleol i lifogydd, mae Cyngor Caerdydd wedi ystyried y canlynol:

- **Amcanion Strategaeth Genedlaethol** – Mae Cyngor Caerdydd wedi ystyried sut y gallai'r amcanion sydd yn y Strategaeth Genedlaethol (Atodiad D) gael eu cyflawni yng Nghaerdydd mewn ffordd ymarferol, ystyrlon.
- Gofynion Rheoliadau'r Perygl o Lifogydd 2009.
- **Lefel manylder** yr amcanion – gallai amcanion fod yn rhai lefel uchel a strategol fel 'codi ymwybyddiaeth o'r perygl o lifogydd' neu'n fwy penodol ac wedi'u targedu i ardal neu risg benodol.
- **Amserlen ac amseru'r** amcanion – gallai amcanion fod yn fyrdymor, tymor canolig neu hirdymor. Gallai amcanion gael eu cynllunio ar gyfer cyfnod 6 blynedd gan y strategaeth gyntaf hon, ar ryw adeg yn y dyfodol, neu dros gyfnod hwy.
- **Blaenoriaethu** amcanion – pa amcanion yw'r rhai pwysicaf, neu sydd angen dod o flaen rhai eraill. Gallai hyn fod o ganlyniad i derfynau amser deddfwriaethol, gan fod y risg o lifogydd neu erydiad yn uchel, neu fod canlyniadau llifogydd neu erydiad hefyd yn fawr iawn.
- Mae amcanion yn **gymesur** i nodi'r perygl o lifogydd ac erydiad arfordirol.

Mae amcanion hefyd wedi ystyried tair elfen perygl o lifogydd sef **Atal**, **Amddiffyn** a **Pharatoi** (sy'n cynnwys addasu i newid yn yr hinsawdd). Mae'r elfennau hyn yn ein helpu i ddeall ac ystyried ar ba gam y gallai amcan effeithio ar lefel y perygl o lifogydd.

5.3.1. Amcanion Strategaeth Genedlaethol

Mae'r Strategaeth Genedlaethol wedi nodi **pedair amcan cyffredinol** gydag 11 is-amcan (Atodiad D) ar gyfer rheoli'r perygl o lifogydd ac erydiad arfordirol yng Nghymru;

- **Lleihau canlyniadau llifogydd** ac erydu i unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd;
- **Codi ymwybyddiaeth** ymhlith pobl a'u cynnwys wrth ymateb i berygl llifogydd ac erydiad arfordirol;
- Sicrhau **ymateb effeithiol a chyson** i lifogydd ac erydiad arfordirol;
- **Blaenoriaethu buddsoddiad** yn y cymunedau lle mae'r perygl mwyaf.

5.3.2. Amcanion Rheoli'r Perygl O Lifogydd

Mae'r canllawiau strategol, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, yn cynnwys amcanion penodol rheoli'r perygl o lifogydd o ran risg gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, fel y'u datblygwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Nodir y rhain isod.

- **Cymdeithasol**
 - Lleihau gofid (Nifer y bobl a allai gael eu heffeithio gan lifogydd)
 - Lleihau tarfu ar y gymuned (Nifer yr eiddo preswyl a masnachol)
 - Lleihau'r perygl i fywyd (ymateb pobl)
 - Lleihau tarfu ar seilwaith allweddol
- **Economaidd**
 - Lleihau'r difrod economaidd (e.e. yr AAD Difrod Blynyddol Cyfartalog)
 - Lleihau cost rheoli (nid yn ganlyniad rheoli risg i'w ddefnyddio mewn gwerthusiad)
- **Pwyllgor Craffu**
 - Lleihau'r difrod i Natura 2000 / SoDdGAau / safleoedd BAP (neu wella safleoedd)
 - Gwella 'naturioldeb' (Lleihau addasu sianeli / cyrff dŵr)

Fel rhan o broses yr Aseiad Amgylcheddol Strategol (AAS) rydym wedi datblygu'r ddau amcan amgylcheddol uchod i gynnwys set o amcanion Amgylcheddol ehangach fel y'u nodir yn y tabl canlynol. Fe'u defnyddiwyd i brofi effaith bosibl y strategaeth ar dderbynyddion amgylcheddol.

Tabl 5.1 - Amcanion a dangosyddion AAS

Pwnc AAS	Cod Amcan AAS	Amcan AAS
Poblogaeth ac iechyd gan gynnwys yr economi	Pop1	Gwella iechyd a lles cymunedau
	Pop2	Lleihau anghydraddoldeb ac amddifaded cymdeithasol
Bioamrywiaeth, planhigion ac anifeiliaid	Bio1	Gweithio gyda phrosesau naturiol, gwella cysylltedd ecolegol a hyrwyddo ecosystemau gweithredol iach
	Bio2	Cadw a lle y bo'n bosibl gwella cynefinoedd a rhywogaethau pwysig ac a blaenoriaeth a ddiogelir
	Bio3	Gwarchod a hybu bioamrywiaeth, planhigion ac anifeiliaid lleol
Dŵr	Water1	Diogelu a gwella'r amgylchedd dyfrol, o ran ansawdd a maint dŵr, er budd yr amgylchedd dynol a/neu naturiol
	Water2	Cynnal a gwella swyddogaeth hydromorffolegol yr amgylchedd dyfrol drwy weithio gyda phrosesau naturiol
	Water3	Lleihau effeithiau llifogydd o ffynonellau lleol
Aer	Dd/b	
Ffactorau hinsawdd	Clim1	Cyfrannu at allu Caerdydd i addasu i newid yn yr hinsawdd
Asedau materol	Mat1	Cadw a diogelu asedau materol a seilwaith newydd a phresennol pwysig
Treftadaeth ddiwylliannol	Cult1	Cadw, a lle y bo'n bosibl gwella, asedau treftadaeth ddiwylliannol pwysig ac a ddiogelir
Tirwedd, defnydd o dir a phridd	Land1	Sicrhau bod cymeriad tirlun Caerdydd yn cael ei gadw a, lle y bo'n bosibl, ei wella

Pwnc AAS	Cod Amcan AAS	Amcan AAS
	Land2	Diogelu a chadw priddoedd a swyddogaethau pridd, a gwella gwydnwch rhag diraddiad
	Land3	Lleihau'r perygl i ddyfroedd o llygredd tryledol
	Land4	Lleihau'r risg i ddyfroedd o dir halogedig

5.3.3. Amcanion o'r Strategaeth Leol o'r Perygl o Lifogydd

Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn nodi nifer o fesurau i gyflawni pob un o'r 11 is-amcan a nodwyd sydd felly'n cyfrannu at gyflawni amcanion cyffredinol. Mae rhan o'r amcanion cysylltiedig o'r Strategaeth Genedlaethol yn Atodiad D. Cyngor Caerdydd, fel yr Awdurdod Arweiniol Llifogydd Lleol sy'n gyfrifol am gyflawni rhai o'r mesurau cenedlaethol yn yr ardal. Fel Awdurdod Rheoli Risg, mae Cyngor Caerdydd hefyd yn gyfrifol am gyfrannu at amcanion lleol eraill.

Er mwyn gweithredu Amcanion y Strategaeth Genedlaethol, mae Cyngor Caerdydd wedi'i llunio'r Strategaeth Leol hon yn seiliedig ar yr wyth is-amcan strategaeth leol canlynol:

Prif Amcan y Strategaeth Genedlaethol	Is-amcanion y Strategaeth Leol (rhifo cyfeirnodau yn unol â'r Strategaeth Genedlaethol)
1 - Lleihau effeithiau llifogydd ac erydiad arfordirol i unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd.	2- Rhoi Arweiniad Strategol yn lleol
	3- Llunio polisiau i ddefnyddio tir yn effeithiol a rheoli gweithdrefnau datblygu'n well lle y bo'n briodol
	4 – Sefydlu amserlenni cynnal a chadw rheolaidd o ran asedau rheoli'r perygl o lifogydd ac erydiad arfordirol
2 - Codi ymwybyddiaeth ymhlith pobl a'u cynnwys wrth ymateb i berygl llifogydd ac erydiad arfordirol	5 – Sicrhau erbyn 2026 bod bawb sy'n byw mewn ardal lle mae'r perygl o lifogydd yn deall y perygl sy'n eu hwynebu, canlyniadau hynny a sut i fyw gyda'r perygl hwnnw
3 - Sicrhau ymateb effeithiol a chyson i lifogydd ac erydiad arfordirol	7 – Sicrhau bod Cynlluniau Argyfwng wedi'u paratoi a'u bod yn cael eu profi
	8 – Ymateb i ddigwyddiadau mewn ffordd amserol a phriodol
	9 – Hwyluso adsefydlu yn dilyn llifogydd o fewn y cyfnod byrraf posibl
4 - Blaenoriaethu buddsoddiad yn y cymunedau lle mae'r perygl mwyaf.	Lleol 1 – Arian allanol

5.4. Mesurau

Mae modd diffinio **mesur** fel gweithgaredd neu gam(gau) gweithredu a gynhelir i gyflawni amcan a rheoli'r perygl o lifogydd ac erydiad arfordirol. Nid yw mesurau yn ymwneud ag adeiladu cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd newydd yn unig. Gallent gynnwys gwella ymateb y gwasanaethau brys i lifogydd, rhoi cyngor ar beth i'w wneud yn y fath sefyllfa a helpu pobl i adsefydlu ar ôl digwyddiad, neu wneud gwaith cynnal a chadw i sicrhau bod adeileddau sy'n rheoli'r perygl o lifogydd yn gweithio'n gywir.

Wrth ddatblygu'r mesurau ar gyfer rheoli'r perygl lleol i lifogydd, mae Cyngor Caerdydd wedi ystyried y canlynol:

- **Amserlen ac amseriad** y mesurau – gallent fod yn fyrdymor (0-20 mlynedd), tymor canolig (20-50 mlynedd) neu'n hirdymor (50-100 mlynedd). Gallai amcanion gael eu cynllunio ar gyfer cyfnod 6 blynedd gan y strategaeth gyntaf hon, ar ryw adeg yn y dyfodol, neu dros gyfnod hwy. Er enghraifft, gallai cynllun amddiffyn rhag llifogydd newydd gael ei gynllunio at 15 mlynedd i'r dyfodol, tra gallai draeniau priffordd gael eu harolygu a'u clirio bob blwyddyn.
- A yw'r mesurau'n **adeileddol** neu'n **anadeileddol** – oes angen arnynt godi adeilad/trwsio adeiledd fel y mur llifogydd neu system ddraenio neu a ydynt yn ymwneud â chamau gweithredu nad oes angen gwaith adeiladu arnynt fel gwaith ymchwil, monitro, codi ymwybyddiaeth neu bolisiau cynllunio newydd.
- A all y mesurau gyflawni **amryw fuddion** - gwnaed ymdrechion i lunio camau gweithredu a fydd yn helpu i reoli peryglon llifogydd ac erydiad a gaiff fuddion eraill hefyd e.e. o ran bioamrywiaeth, treftadaeth, iechyd neu adfywio.
- Effeithiau posibl **newid yn yr hinsawdd**.
- Mae camau gweithredu mewn **cynlluniau rheoli eraill ar lifogydd neu erydiad** fel Cynlluniau Rheoli Dalgychoedd Llifogydd a Chynlluniau Rheoli'r Arfordir.

5.4.1. Darparu Gwasanaethau

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol (S.3.4.4) yn nodi 7 Thema Cyflawni lefel uchel, y dylid ystyried mesurau oddi tanynt. Y rhain yw:

- Cynllunio ac addasu datblygiadau (gan gynnwys y ddau ddatblygiad newydd ac addasiadau i ddatblygiadau / tirluniau presennol);
- Rhagweld llifogydd, rhybuddion ac ymateb;
- Rheoli tir, diwylliant ac amgylchedd;
- Rheoli a chynnal asedau;
- Asesiadau a chynlluniau astudiaethau;
- Ymwybyddiaeth ac ymgysylltu ar lefel uchel (i wella gwydnwch unigol a chymunedol);
- Monitro (o ran materion y perygl lleol o lifogydd).

Wrth ddatblygu'r mesurau, mae Cyngor Caerdydd wedi ystyried sut maent yn berthnasol i'r Themâu Cyflawni hyn i sicrhau ystod eang o fesurau, ac felly ystyrir camau gweithredu i reoli'r perygl lleol o lifogydd yn y sir. Mae Atodiad E.1 yn cynnwys rhestr o fesurau, a'r amcanion y maent yn eu cefnogi sydd wedi'u mabwysiadu gan Gyngor Caerdydd ar gyfer cyfnod cychwynnol y SLRPL hyn.

5.4.2. Camau Gweithredu Posibl

Mae Cyngor Caerdydd wedi cynnal cyfres o weithdai mewnol i adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes fel rhan o'r asesiadau cychwynnol ar y perygl o lifogydd. Cynhaliwyd y gweithdai hyn i nodi'r camau gweithredu posibl a gynhelir i wireddu'r mesurau a'r amcanion a nodwyd. Mae'r ymgynghoriad mewnol wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o'r newidiadau i ddeddfwriaeth a chyfrifoldebau a dyletswyddau cysylltiedig Cyngor Caerdydd. Mae hyn yn ei dro wedi gwella'r ddealltwriaeth o'r angen i ystyried effaith y perygl o lifogydd ar draws Gwasanaethau'r Cyngor.

Mae'r broses hon wedi nodi meysydd lle gall gwasanaethau ehangach y Cyngor gefnogi'r mesurau a gynigir drwy wneud newidiadau i arferion gwaith, gan ddefnyddio sianeli cyfathrebu presennol i godi ymwybyddiaeth ac ystyried yn uniongyrchol y perygl o lifogydd fel rhan o unrhyw broses penderfyniadau.

Ystyriwyd mesurau yn erbyn tri opsiwn a oedd yn gofyn am lefelau buddsoddiad ac ymdrech amrywiol;

- **Gwneud Dim** – Rhoi'r gorau i unrhyw gamau gweithredu a/neu wariant presennol. Mae hwn yn cynnig sylfaen i allu mesur unrhyw fudd y mae ymdrech ychwanegol yn ei gynnig.
- **Gweithredu'n ôl yr arfer** – Mae hyn yn ystyried parhau â'r camau gweithredu presennol yn y dyfodol. Cedwir at yr un lefel o wariant, ond byddai cyfle y gallai'r perygl o lifogydd gynyddu yn y dyfodol oherwydd ehangiad pellach yn yr ardal leol neu newid yn yr hinsawdd.
- **Gwneud mwy** – Mae'r mesurau hyn yn nodi camau gweithredu newydd y gallai'r Cyngor eu cyflawni neu y bydd yn rhaid iddo'u cyflawni yn sgîl dyletswyddau deddfwriaethol newydd. Gallai'r ymdrech ychwanegol amrywio'n dibynnu ar y math o gam gweithredu sy'n cael ei ystyried, a'r budd a ystyrir o gynnig adnodd ychwanegol. Maent hefyd yn nodi camau gweithredu y gellid eu cyflawni petai rhagor o arian ar gael.

Mae matrices asesu sy'n nodi'r opsiwn a ystyrir ac a ffeirir o ran y mesurau amrywiol yn Atodiad E1.

Wrth ddatblygu'r Amcanion a'r mesurau rydym wedi ceisio aseinio'u cyflawniad i amryw amserlenni, fel y nodir yn y canllawiau cenedlaethol:

- Byrdymor (0-20 mlynedd)
- Tymor canolig (20-50 mlynedd)
- Hirdymor (50-100 mlynedd)

I alluogi cynllunio mwy ymarferol mae Cyngor Caerdydd wedi rhannu'r byrdymor yng nghyfnodau adolygu'r SLRPL fel a ganlyn:

- Cylch 1 SLRPL (hyd at 2015)
- Cylch 2 SLRPL (hyd at 2020)
- Cylch 3 SLRPL (hyd at 2030)

5.4.3. Blaenoriaethu

Aseswyd y mesurau a fabwysiadwyd i benderfynu pa amcanion strategol y perygl o lifogydd yn Lleol ac felly'n Genedlaethol y maent yn cyfrannu atynt, a'u pwysoli ar sail yr amserlenni gofynnol, i roi 'sgôr blaenoriaeth' i nodi'r 3 thema cyflawni flaenaf (rhagor o fanylion yn Atodiad E.2).

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r mesurau blaenoriaeth i Gyngor Caerdydd dan y 3 thema cyflawni flaenaf. Defnyddiwyd yr asesiad manwl i lywio blaenoriaethau yn Atodiad E.2. Bydd Cyngor Caerdydd yn defnyddio'r asesiadau ategol i ddatblygu prosesau mewnol a mesurau arfaethedig i gyflawni'r mesurau byrdymor a nodwyd a chynllunio at gyflawni'r mesurau tymor hwy.

Tabl 5.2 – Mesurau blaenoriaeth

Thema Cyflawni	Math o weithredu	Mesur(au) a awgrymir	Cam Gweithredu Arfaethedig Cyngor Caerdydd	Amserlen
Rhagweld llifogydd ac ymateb iddynt	Ymwybyddiaeth o lifogydd	<ul style="list-style-type: none"> Nodi grwpiau mewn perygl mewn cymunedau, gan gynnwys unigolion sy'n agored i niwed. 	<ul style="list-style-type: none"> Drwy Gynllunio ar gyfer Argyfyngau a Chyfathrebu Corfforaethol gallwn sicrhau bod busnesau'n gwybod am y risg, a'r hyn y gallant ei wneud i leihau'r effaith 	<ul style="list-style-type: none"> Parhaus
	Cynlluniau Ymateb mewn Argyfwng	<ul style="list-style-type: none"> Cwblhau cynlluniau ar gyfer pob math o risg llifogydd. Ymarferion lleol i brofi trefniadau ymateb ac adsefydlu dros oes y Strategaeth. Ymateb cynnar a phriodol i'r holl argyfyngau. Datblygu a gweithredu protocolau gadael effeithiol i argyfyngau Nodi a darparu llety seibiant addas fel y bo'n briodol dros oes y Strategaeth. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae gennym weithdrefn gynllunio sefydledig ar gyfer argyfyngau mawr gan gynnwys llifogydd. Adolygu ymhen 12 mis, fel bod y newidiadau a gynllunnir yn ein cynllun ar waith ac y gellir eu datblygu Byddwn yn dal i brofi ac adolygu ein cynlluniau a thrafod ag awdurdodau lleol cyfagos yr angen posibl am gydgefnogaeth yn ôl yr angen Datblygu a gweithredu protocolau gadael effeithiol i argyfyngau Byddwn yn dal i brofi ac adolygu ein cynlluniau a thrafod ag awdurdodau lleol cyfagos yr angen posibl am gydgefnogaeth yn ôl yr angen 	<ul style="list-style-type: none"> Parhaus Adolygu Tach 2015 Ar waith ac yn destun adolygiad parhaus
	Cynlluniau Cymunedol pan fo Llifogydd	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu cynlluniau argyfwng i gymunedau ar lefel y gymuned 	<ul style="list-style-type: none"> Dal i weithio gyda CNC i ddatblygu cynlluniau brys cymunedol 	<ul style="list-style-type: none">
Rheoli a Chynnal Asedau	Cynlluniau Rheoli mewn Argyfwng	<ul style="list-style-type: none"> Llunio cofrestr o nodweddion naturiol/dynol sy'n debygol o effeithio ar y risg o lifogydd erbyn 2015. 	<ul style="list-style-type: none"> Llunio cofrestr gychwynnol gan ddefnyddio meddalwedd a'i diweddarau yn ôl yr angen (dull goddefgar). Defnyddio pwerau a gorfodi lle bo angen i reoli risg Gweithredu system i sicrhau bod agweddau draenio'n cael eu hystyried fel rhan o unrhyw gynnyg sy'n effeithio ar y briffordd Adolygu a chadarnhau cyfyngiadau diffiniedig dyfroedd arfordirol Cefnogi cynlluniau fel Project Grangetown Werddach Rhoi tystiolaeth i awdurdodau sy'n uwch i 	<ul style="list-style-type: none"> Dechrau Ebrill 2014

Thema Cyflawni	Math o weithredu	Mesur(au) a awgrymir	Cam Gweithredu Arfaethedig Cyngor Caerdydd	Amserlen
		<ul style="list-style-type: none"> Sefydlu rhaglen cynnal a chadw reolaidd a phriodol i reoli'r risg o erydu gan lifogydd ac ar yr arfordir. 	<p>fyni'r afon ac amlygu problem weithredol ceisio â rheoli gweddillion yn y ffynhonnell</p> <ul style="list-style-type: none"> Adolygu opsiynau i'w cynnwys mewn Cynlluniau / adolygiadau gofodol yn y dyfodol. Draenio Priffyrdd – adolygu sut mae gwaith yn cael ei gynllunio a beth yw'r Canlyniad a Fwriedir Draenio Tir – penderfynu ar lefel y gwasanaeth a gwaith cynnal a chadw sydd ei hangen Cyrsiau Dŵr cyffredinol - clirio ceuffosydd mewn safleoedd blaenoriaeth, adolygu'r system i asesu a gellir gwneud hyn Arfordir – adolygu'r risg bosibl o du erydu Arfordir – adolygu'r risg bosibl o erydiad, a chyflawni gwaith angenrheidiol <p>Sicrhau bod materion amgylcheddol yn cael eu hystyried wrth ddylunio / adeiladu amddiffynfeydd newydd Sicrhau bod unrhyw waith yn cydymffurfio ag arferion gwaith y cytunwyd arnynt e.e. atal tarfu ar adar</p>	
	<p>Rheoli Amddiffynfeydd / Adeileddau</p>	<ul style="list-style-type: none"> Dynodi adeileddau neu nodweddion naturiol a dynol sy'n debygol o effeithio ar lifogydd neu erydu arfordirol dros oes y Strategaeth. Llunio amserlenni atgyweirio gan gynnwys darparu ar gyfer gosod mesurau gwydnwch erbyn 2015. 	<ul style="list-style-type: none"> Rydym ar hyn o bryd wrthi'n cynllunio sut y caiff y gofrestr ei llunio drwy weithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol eraill De-ddwyrain Cymru. Bydd angen cyllidebu ar gyfer arolygu a diweddarau'r gofrestr yn gyson Llunio amserlenni atgyweirio gan gynnwys darparu ar gyfer gosod mesurau gwydnwch erbyn 2015. Cynnal arolwg o'r arfordir i asesu rigiau erydu mewn cymunedau arfordirol. Ystyried cynlluniau amddiffyn ar gyfer Pen-y-lan, ardal Waterloo Gardens gyda Cyfoeth 	<ul style="list-style-type: none"> Dechrau 2014/15.

Thema Cyflawni	Math o weithredu	Mesur(au) a awgrymir	Cam Gweithredu Arfaethedig Cyngor Caerdydd	Amserlen
			Naturiol Cymru	
	Cynnal a Chadw Sianeli	<ul style="list-style-type: none"> Llunio gweithdrefnau i glirio sbwriel yn effeithiol. 	<ul style="list-style-type: none"> Llunio gweithdrefnau 	<ul style="list-style-type: none"> Ar waith ac yn destun adolygiad parhaus
	Cynnal a Chadw Ceuffosydd	<ul style="list-style-type: none"> Sefydlu rhaglen cynnal a chadw reolaidd a phriodol i reoli'r risg o erydu gan lifogydd ac ar yr arfordir. 	<ul style="list-style-type: none"> Cwrs Dŵr cyffredinol - clirio ceuffosydd mewn safleoedd blaenoriaeth, adolygu'r system i asesu a gellir gwneud hyn 	<ul style="list-style-type: none"> Adolygiad parhaus
Ymwybyddiaeth ac Ymgysylltu ar Lefel Uchel	Gweithio mewn partneriaeth	<ul style="list-style-type: none"> Cyflawni cyfrifoldebau statudol gan gynnwys y rhai a nodir yn Neddff Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 a'r Rheoliadau Perygl o Lifogydd. Cysylltu â gwaith ehangach a wneir o ran gwneud Caerdydd yn ardal fwy gwydn a chynaliadwy i fyw ynddi Rhaglen o weithgareddau ymwybyddiaeth ac ymgysylltu cymunedol gan ddefnyddio'r Pecyn Cymorth Cynnwys Cymunedau wrth Reoli'r Perygl o Lifogydd Codi ymwybyddiaeth yn fewnol o ran effaith y perygl o lifogydd ar weithrediadau arferol a sefyllfaoedd ar ôl digwyddiadau Cyfraniadau ariannol gan drydydd parti / ffynonellau nad ydynt yn rhai cyhoeddus 	<ul style="list-style-type: none"> Wedi cyflawni ein ARPL sy'n nodi'r ardaloedd risg mwyaf. Gweithredu pellach wedi'i nodi yn y SLRPL a fydd yn ein helpu i gyflawni'r amcan hwn. Sicrhau bod Camau Gweithredu sy'n sicrhau cysondeb rhwng cynlluniau amrywiol i gyflawni Caerdydd fwy gwydn. Helpu CNC, codi ymwybyddiaeth ymhlith trigolion ynghylch eu hymwybyddiaeth o'r perygl o lifogydd a chael adborth ganddynt drwy holiadur blynyddol "Holi Caerdydd" Trafod â chorff cynrychioliadol y diwydiant yswiriant o ran y cyfleoedd sydd ar gael i reoli'r perygl o lifogydd i sicrhau bod yswiriant yn parhau'n fforddiadwy ar draws y sir Llunio Polisi i adfer / cael cyfraniadau ariannol naill ai drwy'r Ardoll Seilwaith Cymunedol, neu adfer drwy'r ardoll yn y dyfodol gyda gwarantau datblygwyr (TIF ac ati) 	<ul style="list-style-type: none"> Mapiau perygl llifogydd erbyn mis Rhagfyr 2013 Cynlluniau rheoli'r perygl o lifogydd (erbyn mis Rhagfyr 2015). Parhaus Camau gweithredu a gynllunnir yn dilyn ymateb i'r ymgynghoriad Dechrau Ebrill 2013

Sefyllfa bresennol Cyngor Caerdydd yw y dylid blaenoriaethu mesurau sy'n:

- o meithrin cysylltiadau cryfach gyda rhanddeiliaid allweddol ac Awdurdodau Lleol cyfagos
- o dal i adeiladu ar waith a wnaed ar gynlluniau gwydnwch cymunedol
- o ymsefydlu ymwybyddiaeth o fesurau lliniarol llifogydd ar draws holl swyddogaethau'r Cyngor
- o deall yn llawn beryglon erydiad arfordirol

- codi ymwybyddiaeth ar draws holl gymunedau Caerdydd, yn canolbwyntio'n bennaf ar y rhai lle mae'r perygl mwyaf o lifogydd a'r rhai sydd angen mwy o gymorth fel cymunedau sy'n agored i niwed neu'n llai ffyniannus yn economaidd-gymdeithasol
- lleihau canlyniadau llifogydd drwy adeiladu amddiffynfeydd cynaliadwy priodol sy'n fuddiol i'r amgylchedd lleol



6. Cyllid

Gwnaed dadansoddiad i benderfynu ar gostau a buddion (ariannol ac anariannol) sy'n dibynnu ar y dulliau a fabwysiedir a lefelau gweithgarwch a nodir yn y canllawiau cenedlaethol (A 3.6).

6.1. Sefyllfa bresennol

Mae Cyngor Caerdydd wrthi'n gwario tua £1 filiwn y flwyddyn ar weithgareddau uniongyrchol sy'n ymwneud â rheoli'r perygl o lifogydd drwy wasanaethau'r timau Draenio Priffyrdd.

Ymhlith y gwaith a wneir mae:

- Clirio ceuffosydd / sgriniau
- Atgyweirio draeniau priffyrdd
- Glanhau gyliau
- Gorfodi Draenio
- Draenio tir
- Ymchwilio i lifogydd ac opsiynau i'w lleddfu
- Costau gweithredol gorsafoedd pwmpio a monitro dŵr wyneb
- Gwaith adferol ac ymatebol
- Gwaith trwsio carthffosydd ar eiddo'r cyngor

Caiff Cyngor Caerdydd hefyd ei gynrychioli ar Fwrdd Draenio Cil-y-coed a Gwynllŵg ac mae'n talu ardoll o tua £700,000 y flwyddyn i'r Bwrdd Draenio Mewnol i'w helpu i reoli gwaith draenio tir â'r perygl lleol o lifogydd yn ardal y bwrdd draenio.

Mae Awdurdod Harbwr Caerdydd yn rhan weithredol o Gyngor Caerdydd, fodd bynnag mae'r gyllideb weithredol yn cael ei darparu gan Lywodraeth Cymru.

Mae gan Uned Rheoli Argyfyngau Cyngor Caerdydd nifer o gynlluniau y gellir eu rhoi ar waith pe bai llifogydd mawr. Nid yw'r gost o gynnal adnoddau'r cynlluniau hyn, yn ogystal â gwaith gyda'r gymuned, yn rhan o'r costau uchod.

6.2. Sefyllfa gwneud dim

Defnyddiwyd y gyfres o Ganllawiau Gwerthuso Project (CGP) ac egwyddorion dadansoddiad cost/budd, fel yr amlinellir yng Nghanllawiau Gwerthuso Projectau Amddiffyn rhag Llifogydd ac Amddiffynfeydd Arfordirol FCDPAG3 (Defra, 2006) i gynnal dadansoddiad cost/budd.

Mae'r dadansoddiad wedi rhagdybio bod y systemau draenio presennol yn gallu delio â llifogydd hyd at safon ddylunio arferol os bydd digwyddiad â siawns o 1/30. Bydd llifogydd sy'n uwch na hyn yn effeithio ar eiddo. Defnyddiwyd Map Llifogydd Dŵr Wyneb (MLIDW) Asiantaeth yr Amgylchedd a data a gyhoeddwyd ar gyfer yr effaith economaidd a ragwelir o llifogydd (FHRC, 2010) i asesu'r difrod posibl y gallai llifogydd ei achosi.

Mae'r dadansoddiad yn amcangyfrif, ledled Caerdydd, y gallai'r nifer o eiddo canlynol gael eu heffeithio gan y perygl lleol o lifogydd:

- Digwyddiad 1 mewn 30 – dros 10,000 eiddo
- Digwyddiad 1 mewn 200 – dros 30,000 eiddo

Petai Cyngor Caerdydd yn rhoi'r gorau i weithredu fel y mae uchod, a gadael i'r systemau draenio tir naturiol ymdopi, heb eu cynnal na'u cadw, amcangyfrifir mewn unrhyw flwyddyn y byddai effaith economaidd bosibl o'r perygl lleol o lifogydd fod dros £11m (gweler Tabl 6.1 dros y ddalen).

6.3. Dulliau o weithredu yn y dyfodol

Ystyriwyd y dulliau hyn wrth lunio'r Strategaeth hon.


- Gwneud dim
- Gweithredu'n ôl yr arfer
- Gwneud mwy (lleihau'r tebygolrwydd o lifogydd a chanlyniadau llifogydd)

6.3.1. Cymhariaeth economaidd

Mae'r tabl canlynol yn nodi budd economaidd posibl y dulliau gweithredu a aseswyd o ran lleihau'r difrod sy'n deillio o lifogydd. Aseswyd y budd economaidd posibl dros y byrdymor (20 mlynedd) a allai ddigwydd o gyflawni mesurau fel y rhai a awgrymwyd yn Adran 0. (gweler Atodiad E.3 am ragor o fanylion).

Tabl 6.1 – Effaith economaidd y perygl lleol i lifogydd

Dull Gweithredu	Difrod Blynyddol Cyfartalog (£M)	Gwerth Difrod Presennol dros 20 mlynedd (£M)	Budd Presennol (gwerth) (£M)
Gwneud dim	£13.2	£ 194.0	
Gweithredu'n ôl yr arfer	£9.9	£ 145.4	£ 48.6
Gwneud mwy	£3.7	£ 54.2	£ 139.8



Ffigur 6-1 Difrod Blynyddol Cyfartalog

Mae'r tabl a'r siart uchod yn dangos bod y difrod blynyddol posibl yn seiliedig ar ein dull presennol ("gweithredu'n ôl yr arfer") tua £9.9m o'i gymharu â'r sefyllfa Gwneud Dim sef £13.2m.

Mae hyn yn cynnig budd posibl o dros £3m y flwyddyn o'i gymharu â'r gost flynyddol amcangyfrifedig o £1m sef cost y gweithgareddau a gyflawnir ar hyn o bryd.

6.3.2. Dull a ffefrir

Yn y dyfodol, bydd angen i Gyngor Caerdydd adolygu'r cyllidebau sydd ar gael i gyflawni'r dyletswyddau gofynnol.

Y **dull a ffefrir** yw cymryd camau cyffredinol i **wneud mwy i leihau'r tebygolrwydd o lifogydd**. Byddai'r difrod blynyddol cyfartalog a ragwelir yn lleihau i £3.7m, gan arwain at fudd (y gwahaniaeth rhwng Gwneud Dim a Gwneud Mwy) o £9.5m. Yn y byrdymor byddai hyn yn cyfrif am bron £140m o fudd economaidd i'r sir.

Bydd Cyngor Caerdydd yn rhagweithiol wrth gyflawni rhai mesurau â blaenoriaeth. Bydd gan weithgareddau eraill weithdrefnau ar waith ar gyfer camau gweithredu sydd i'w cyflawni'n ymatebol, fel ymchwilio i lifogydd neu glirio gweddillion ar ôl llifogydd. Mae gan y budd a geir o reoli'r perygl o lifogydd er mwyn lleihau canlyniadau llifogydd a welir yn y tabl uchod y potensial i gynnig bron £140m o fudd dros yr ugain mlynedd nesaf. Fodd bynnag, bydd rhaid penderfynu rhwng fforddiadwyedd a lefel dderbyniol o fudd i gymunedau Caerdydd wrth ystyried pob cam gweithredu a gymerir, i'r graddau ei bod yn bosibl na wireddir pob un o'r buddion hynny.

6.4. Risgiau Ariannu

Mae Llywodraeth Cymru wedi amlygu'r ffaith y gall costau mesurau lliniaru fod yn sylweddol ac na ellir eu talu gydag arian canolog. Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu dyraniadau ariannol dangosol o ran y perygl o lifogydd ac erydiad arfordirol i Gymru fel a ganlyn:

- 2012/13 - £35.7million
- 2013/14 - £37 miliwn

Caiff arian ei ddyrannu yn seiliedig ar flaenoriaeth ar sail risg gan Lywodraeth Cymru i gyflawni cynlluniau buddsoddi ariannol hirdymor. Maent wedi nodi y byddant yn disgwyl i Awdurdodau Lleol ddod o hyd i wariant ychwanegol wrth bennu cyllidebau yn y dyfodol, gan roi ystyriaeth i ardollau, costau a threfniadau partneriaeth ychwanegol lle bynnag y bo'n bosibl. Gallai arian cenedlaethol ac Ewropeaidd fod ar gael, ond nid yw'n ddigonol i dalu am yr holl fesurau lliniarol sydd angen eu cyflawni ledled Cymru.

6.4.1. Ariannu cyfredol a phosibl yn y dyfodol

Cymorth Grant Amddiffyn rhag Llifogydd (CGALI)

Yn draddodiadol, ariannwyd projectau rheoli'r perygl o lifogydd yng Nghymru'n bennaf drwy ddull ariannu Cymorth Grant Amddiffyn rhag Llifogydd Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, o ystyried y pwysau sydd ar wariant cyfan Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, a fydd yn deillio o'r gostyngiad yn yr arian sydd ar gael (fel y'i gweithredwyd drwy Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant Llywodraeth y DU) mae'n debygol y bydd gostyngiad yng ngwariant rhaglenni cyfalaf dros oes y cylch SLRPL hwn.

Arian Ewropeaidd

Nod arian gan yr Undeb Ewropeaidd yw alinio llewyrch economaidd amryw ranbarthau Ewrop. Dros y cyfnod 2007-2013 bydd y gronfa hon wedi rhoi bron £50M o gymorth i raglen rheoli'r perygl o lifogydd ac erydiad arfordirol allan o'r cyfanswm o £100m yng Nghymru. Gallai Cymru gael budd o rownd arall o arian Ewropeaidd, ond mae'n aneglur p'un ai a fyddai dull o ddefnyddio'r arian hwn ar gyfer gweithgareddau Rheoli'r Perygl o Lifogydd.

Cyfraniadau datblygwyr

Gall Awdurdodau Lleol ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr gyflawni gwaith ar safleoedd (gan gynnwys gwaith rheoli'r perygl o lifogydd ac erydiad arfordirol) dan Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Yn dilyn newid yn y ddeddfwriaeth berthnasol, o 6 Ebrill 2014, caiff cwmpas unrhyw gytundebau ei gyfyngu i wneud darpariaeth seilwaith berthnasol yn anos ei chyfiawnhau.

Mae Deddf Gynllunio 2008 yn gwneud darpariaeth i awdurdodau cynllunio lleol baratoi a gweithredu Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC) y gellir ei ddefnyddio i ariannu elfennau seilwaith na fydd modd eu cyflawni mwyach drwy gytundebau A106. Ar hyn o bryd mae Cyngor Caerdydd yn ystyried cwmpas Amserlen Codi ASC, sy'n nodi pa ddatblygiadau fydd yn destun ASC a faint fydd yr ardoll.

Codi Arian Partneriaethau

Rhaid ystyried arian partneriaeth rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat a chymunedau lleol. Hefyd, lle y bo'n bosibl, gallai gwaith partneriaeth rhwng Awdurdodau Rheoli Risg ddenu cyfleoedd ariannu i gyflawni amcanion rheoli'r perygl o lifogydd sydd o fudd i randdeiliaid a phartneriaid.

7. Asesiadau Amgylcheddol

Mae'r adran hon yn nodi sut mae'r strategaeth ac asesiadau amgylcheddol yn cyd-fynd â'i gilydd a sut maent wedi llywio'i gilydd wrth lunio'r SLRPL.

Mae tri asesiad o effeithiau amgylcheddol posibl yn SLRPL Caerdydd sy'n ofynnol dan y gyfraith ac a integreiddiwyd yn rhan o'r gwaith o ddatblygu SLRPL neu a weithredir ynddi. Mae'r adran hon yn cynnig trosolwg o'r tri asesiad, eu gofynion cyffredinol ac yn lle mae rhagor o wybodaeth am yr asesiadau ar gael yn yr **Atodiadau**.

7.1. Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)

Mae'r **Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)** yn arfarniad systematig o effeithiau posibl penderfyniadau a wneir ar lefel uchel (mewn strategaethau, polisiau a chynlluniau) ar yr amgylcheddau adeiledig, naturiol a hanesyddol.

Mae Cyfarwyddeb AAS yr UE⁵ yn nodi gofynion cyfreithiol yr arfarniad hwn yng ngwledydd yr UE. Mae'r Gyfarwyddeb AAS hon wedi'i gosod yng nghyfraith Cymru a Lloegr gan yr Asesiad Amgylcheddol o Reoliadau Cynlluniau a Rhaglenni 2004 (OS 1633) a Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (OS 1656).

Mae'r Gyfarwyddeb AAS yn ei gwneud yn ofynnol i asesu cynlluniau/rhaglenni penodol wrth iddynt gael eu datblygu i sicrhau bod yr effeithiau amgylcheddol a allai fod yn fawr yn cael eu hystyried yn briodol a bod effeithiau posibl yn cael eu hystyried cyn i benderfyniadau ar y cynllun/rhaglen derfynol gael eu gwneud. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i effeithiau sylweddol gael eu monitro unwaith y bydd y cynllun a rhaglenni ar waith. Rhaid monitro am fod rhan o'r AAS yn gysylltiedig â'r gwaith monitro ac adolygu sydd angen ei wneud ar SLRPL gyfan Caerdydd (gweler **Adran 8**).

Mae'r Gyfarwyddeb AAS yn berthnasol i ystod o gynlluniau a rhaglenni. Mae'n berthnasol yn yr achos hwn am fod gofyniad cyfreithiol i Gyngor Caerdydd lunio strategaeth perygl o lifogydd.

7.1.1. Y Broses AAS

Nid yw cyflawni AAS yn rhywbeth untro. Mae ystyried effeithiau posibl penderfyniadau ar yr amgylchedd yn broses gam wrth gam sy'n rhan o broses ddatblygu gyfan SLRPL Caerdydd. Dan ddeddfwriaeth AAS rhaid cymryd camau penodol (e.e. gweithio'n gynnar ac yn barhaus gyda rhanddeiliaid) a sicrhau canlyniadau penodol (e.e. adroddiad amgylcheddol). Drwy lunio SLRPL Caerdydd, bodlonwyd gofynion y Gyfarwyddeb AAS yn y ffyrdd canlynol:

- **Adroddiad Cwmpasu AAS** – fe'i lluniwyd yn Awst 2012. Fe'i dosbarthwyd i ymgynghoreion statudol (Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru⁶, Cyngor Cefn Gwlad Cymru⁶ a Cadw) ac adrannau perthnasol Cyngor Caerdydd i gynnig sylwadau arno.
- **Cynnwys rhanddeiliaid** - mae hyn yn rhan graidd o brosesau SLRPL ac AAS Caerdydd. Cyhoeddwyd Adroddiad AAS a strategaeth llifogydd ddrafft Caerdydd i ymgynghori arnynt ym mis Rhagfyr 2012. Mae trosolwg o'r gwaith o gynnwys rhanddeiliaid wrth lunio strategaeth llifogydd Caerdydd wedi'i gynnwys yn yr **Adroddiad Amgylcheddol AAS**.
- **Nodi nodweddion amgylcheddol** – mae Adroddiad Cwmpasu'r AAS yn disgrifio'r amgylchedd o ran '**derbynyddion**' (Poblogaeth ac iechyd pobl; Bioamrywiaeth; Defnydd o dir; Daeareg a phriddoedd; Dŵr; Aer; Asedau materol; Amgylchedd hanesyddol; Tirlun; a'r rhyngberthynas rhyngddynt);
- **Nodi amcanion diogelu'r amgylchedd** – nododd Adroddiad Cwmpasu'r AAS amcanion diogelu amgylcheddol drafft i'r AAS, wrth i strategaeth llifogydd Caerdydd nodi amcanion i'r strategaeth ei hun (gweler **Adran 5**). Mae rhai o'r amcanion hyn yr un fath, ond mae rhai yn benodol i'r AAS.
- **Asesiad o effeithiau tebygol ar yr amgylchedd ac ystyried dewisiadau amgen** – gwerthuso opsiynau, dewisiadau amgen a'u heffeithiau, gan gynnwys effeithiolrwydd wrth gyflawni amcanion – oll yn rhan graidd o'r AAS. Gwnaeth yr asesiad hwn o'r holl opsiynau polisi gynnwys yn llawn effeithiau posibl ar yr amgylchedd a chyflawniad (neu fel arall) amcanion AAS. Mae **Adran 0** uchod yn nodi'r

⁵ Directive 2001/42/EC on the assessment of the effects of certain plans and programmes on the environment

⁶ From April 2013, the Welsh Government established a single environmental body for Wales, National Resources Wales (NRW). This merged the functions of the Environment Agency Wales, the Countryside Council for Wales, the Forestry Commission Wales and some Welsh Government functions.

opsiynau posibl a ystyrir dan strategaeth llifogydd Caerdydd. Mae modd darllen asesiadau AAS yn **Adran 7 Adroddiad Amgylcheddol AAS**.

- **Mesurau i atal, lleihau a gwrthbwysu unrhyw effeithiau andwyol sylweddol** – nodir y mesurau hyn yn yr asesiad AAS ac maent wedi'u cynnwys yn y rhaglen benodol o fesurau sydd ar gyfer strategaeth llifogydd Caerdydd (gweler **Adran 5**).
- **Adroddiad Amgylcheddol** – lluniwyd Adroddiad Amgylcheddol AAS ym mis Tachwedd 2012. Mae'n cynnwys **crynodeb annhechnegol** o'r wybodaeth sydd yn yr Adroddiad Amgylcheddol.
- **Monitro** – cyfunwyd monitro camau gweithredu a nodwyd yn Adroddiad Amgylcheddol AAS â'r rhai sydd eu hangen i fonitro cynnydd strategaeth llifogydd Caerdydd (**Adran 8**).
- **Datganiad Ôl-fabwysiadu** - mae'r ddogfen hon yn rhan o'r broses AAS. Mae'n crynhoi sut cafodd materion amgylcheddol eu cynnwys yn y broses o lunio'r strategaeth llifogydd; y rhesymau dros ddewis yr opsiynau a ffeirir; canlyniadau'r ymgynghoriad a'r gwaith monitro arfaethedig. Mae'n ddogfen ar wahân a lunnir unwaith y caiff strategaeth llifogydd Caerdydd ei mabwysiadu'n ffurfiol.

7.1.2. Casgliadau AAS

Mae AAS strategaeth llifogydd Caerdydd yn dod i'r casgliadau canlynol sydd yn yr **Adroddiad Amgylcheddol**.

Poblogaeth ac Iechyd Pobl – Bydd strategaeth llifogydd Caerdydd yn creu budd sylweddol i'r boblogaeth ac i iechyd pobl, gan leihau effeithiau posibl y perygl o lifogydd i'r boblogaeth, i fusnesau ac i economi Caerdydd. Mae rhoi blaenoriaethu i fuddsoddi mewn mesurau a chamau gweithredu'r strategaeth llifogydd yn cynnwys Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru i helpu i dargedu ardaloedd a chymunedau sydd o bosibl y lleiaf gwydn o ran y perygl o lifogydd a sicrhau'r manteision gorau.

Bioamrywiaeth, Fflora a Ffawna – Gallai rhoi strategaeth llifogydd Caerdydd ar waith o bosibl effeithio ar fioamrywiaeth, fflora a ffawna, yn dibynnu ar sut y caiff mesurau a chamau gweithredu eu rhoi ar waith. Er mwyn sicrhau bod camau gweithredu'n cael effaith niwtral neu gadarnhaol, mae angen mesurau lliniaru. Bydd cyflawni rhai o'r camau gweithredu dan y strategaeth llifogydd yn gofyn am waith project. Ni nodwyd gwaith o'r fath eto a bydd angen ystyried yr angen i gynnal asesiadau Effaith ar yr Amgylchedd, Asesiad Rheoli Cynefinoedd, Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr amrywiol a'u canfyddiadau ar lefel project;

Amgylchedd Dyfrol – Ar y cyfan bydd strategaeth llifogydd Caerdydd yn cael effaith fuddiol ar leihau effeithiau llifogydd o ffynonellau lleolond gallai effeithio'n andwyol ar ansawdd dŵr a hydromorffoleg, yn dibynnu ar sut y caiff gweithrediadau eu cyflawni, gan ofyn am fesurau lliniaru

Amgylchedd Hanesyddol – Ar y cyfan, bydd strategaeth llifogydd Caerdydd yn cael effaith fuddiol ar allu dreftadaeth ddiwylliannol, gan leihau effeithiau llifogydd ar safleoedd a ddiogelir a thirweddau hanesyddol;

Aer a Hinsawdd – Ar y cyfan, bydd strategaeth llifogydd Caerdydd yn cael effaith fuddiol sylweddol ar allu Caerdydd i addasu i newid yn yr hinsawdd ac effeithiau hynny;

Tirwedd – Gallai strategaeth llifogydd Caerdydd gael naill ai effaith fuddiol neu andwyol ar dirwedd, pridd a'r defnydd o dir, yn dibynnu ar sut y caiff y gweithrediadau eu rhoi ar waith.

Er mwyn sicrhau y gellir cael gwared ar unrhyw effeithiau negyddol yn y Strategaeth a gwneud y mwyaf o'r effeithiau cadarnhaol, argymhellir y camau lliniarol canlynol:

- Sicrhau bod diweddariadau/newidiadau i'r cyngor ar newid yn yr hinsawdd yn cael eu hystyried yng ngweithrediad a pherfformiad Morglawdd Caerdydd;
- Dylai gwaith monitro blynyddol AHC o sianeli llywio gael ei ddefnyddio i nodi newidiadau neu dueddiadau mawr mewn newidiadau i forffoleg gwelyau a llywio'r angen am gynnal astudiaeth i ddysgu am effeithiau Morglawdd Caerdydd ar gludo gwaddod;
- Dylid ystyried yr angen i gynnal asesiadau o'r Effaith ar yr Amgylchedd, Asesiad Rheoli Cynefinoedd, Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a phrojectau / gwaith rheoli risg penodol o ran llifogydd ac erydiad. Dylid ystyried canfyddiadau unrhyw asesiadau wrth gyflawni projectau/gwaith;
- Dylid llunio strategaethau / cynlluniau gweithredu lleol sy'n ystyried derbynyddion AAS ac unrhyw effeithiau amgylcheddol a allai fod gan y strategaethau / cynlluniau gweithredu;
- Dylai'r adroddiad AAS gael ei ddogfen oddi mewn i Gyngor Caerdydd ynghyd â'r SLRPL ddrafft i'w hymgyngori arnynt. Dylai adroddiadau terfynol hefyd gael eu dosbarthu gan ymgynghori â Gwasanaethau eraill a'u cynnwys yn y gwaith o gyflawni'r SLRPL;
- Dylai'r CDLI, cynlluniau defnydd tir a'r CCAu gael eu datblygu gan ystyried derbynyddion AAS ac unrhyw effeithiau amgylcheddol a allai fod ganddynt;
- Dylai Gweithdrefnau Gweithredu Safonol a Gweithdrefnau Argyfwng gael eu hadolygu i sicrhau bod materion bioddiogelwch yn cael eu hystyried ac yr eir i'r afael â nhw;

- Caiff staff wybod am yr angen am fiddiogelwch a lleihau'r risg o ledaenu rhywogaethau anfrodorol;
- Dylai offer, dillad a cherbydau a chychod gael eu glanhau'n briodol cyn eu defnyddio mewn cyrsiau dŵr yng Nghaerdydd neu tu hwnt;
- Dylai'r holl gynlluniau argyfwng (gan gynnwys profi ac adolygu) ystyried yr effeithiau posibl y gall camau gweithredu eu cael ar yr amgylchedd;
- Dylai holl aelodau'r tîm cynllunio fod yn ymwybodol o ofynion PCC, TAN14 a TAN15 a sicrhau bod yr holl geisiadau cynllunio'n bodloni gofynion y dogfennau canllaw hyn. Diweddariadau i PCC, TANau a chanllawiau cynlluniau eraill i'w dosbarthu i holl aelodau'r tîm cynllunio a chael eu hystyried mewn penderfyniadau ar gynllunio;
- Dylai gweithgareddau codi ymwybyddiaeth gynnwys gwybodaeth am sut y gall llifogydd effeithio ar ansawdd dŵr. Dylai cyngor ar baratoi at lifogydd a gwasanaethau glanhau ar ôl llifogydd gynnwys gwybodaeth o ran sut i leihau'r effaith bosibl ar ansawdd dŵr. Dylai CNC sicrhau ei fod yn rhoi cyngor priodol i Gaerdydd i sicrhau y caiff negeseuon cyson eu lleadaenu gan y ddau sefydliad;
- Sicrhau bod mwy o faterion cadwraeth natur a geofforffegol yn cael eu hystyried wrth ddylunio / adeiladu amddiffynfeydd newydd;
- Ceisio lleihau ôl-droed amddiffynfeydd;
- Ceisio gweithio gyda phrosesau naturiol;
- Amseru gwaith er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar nodweddion safleoedd e.e. ni chaniateir gwaith onid ar adeg briodol yn y flwyddyn (Ebrill – Medi) i beidio â tharfu ar adar y gaeaf;
- Sicrhau bod materion cadwraeth natur yn cael eu hystyried wrth reoli a chynnal amddiffynfeydd;
- Ceisio cyfleoedd i wella cyflwr yr amgylchedd naturiol lle y bo'n ymarferol;
- Ystyried y potensial i gynnwys buddion amgylcheddol / biobeirianeg / peirianeg 'feddal' mewn cynlluniau wrth eu dylunio.

7.2. Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARC)

Nod Cyfarwyddbau Cynefinoedd (92/43/EEC) ac Adar (79/409/EEC) yr UE yw diogelu adar a rhywogaethau Ewropeaidd a'r cynefinoedd sy'n eu cynnal. Yn y DU, gweithredir y Cyfarwyddbau drwy Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010. Adwaenir y rhain fel y **Rheoliadau Cynefinoedd**.

Dan y ddeddfwriaeth rhaid i '**awdurdodau cymwys**' gyflawni '**asesiad priodol**' o gynlluniau, projectau a strategaethau a allai gael effaith sylweddol ar y safle, os nad yw'r cynlluniau, y projectau a'r strategaethau hynny'n ymwneud yn uniongyrchol â rheoli'r safleoedd a ddiogelir eu hunain. Enw'r broses sy'n cynnwys 'asesiad priodol' yw **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARC)**. Yn y DU, mae hefyd yn bolisi i gynnal asesiad tebyg o safleoedd a ddynodir dan Gonfensiwn Ramsar (sef **safleoedd Ramsar**).

Mae nifer o safleoedd a ddiogelir gan yr UE yn ardal strategaeth llifogydd Caerdydd neu'n agos ati. Rhaid i'r 'awdurdod cymwys' (yn yr achos hwn, Cyngor Caerdydd) gynnal ARC i sicrhau nad yw'r safleoedd yn cael eu difrodi pan fo'r camau gweithredu yn y strategaeth llifogydd yn cael eu dilyn. Os nad oes modd osgoi achosi unrhyw ddifrod i'r safleoedd, rhaid rhoi mesurau ar waith i wneud yn iawn am unrhyw ddifrod neu gollod.

Aseswyd y camau gweithredu a'r amcanion a ddatblygwyd i strategaeth llifogydd Caerdydd yn seiliedig ar ofynion penodol y broses ARC, mewn ymgynghoriad â Chyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC), sef Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) mwyach.

Mae rhai o'r mesurau a nodir yn strategaeth llifogydd Caerdydd yn brojectau y bydd angen iddynt gael ARC unigol arnynt wrth iddynt ddatblygu i sicrhau nad yw'r camau gweithredu penodol a gynigir (e.e. gweithgareddau adeiladu) yn niweidio'r safleoedd neu rywogaethau a ddiogelir.

7.2.1. Casgliadau ARC

Aseswyd y camau gweithredu a'r amcanion a ddatblygwyd i'r strategaeth llifogydd yn seiliedig ar ofynion y broses ARC. Daw'r asesiad hwn i'r casgliad y gallai'r strategaeth llifogydd arwain at weithrediadau a allai gael effaith andwyol ar nodweddion safleoedd a ddiogelir. Fodd bynnag, bu'n bosibl nodi mesurau lliniarol a allai, pe'u gweithredid, ddileu'r effeithiau hyn.

Mewn rhai achosion ni fu'n bosibl diystyru'r posibiliad o effeithiau sylweddol gan nad yw'r strategaeth llifogydd yn cynnwys holl fanylion ar sut y gellid cyflawni camau gweithredu. Yn yr achosion hyn, fe'i hystyrir yn fwy priodol pennu unrhyw effeithiau sylweddol ar lefel project, pan fydd mwy o fanylion am y camau gweithredu'n hysbys. Bu'n bosibl nodi camau lliniarol y dylid eu cymryd er mwyn lleihau'r posibiliad i brojectau gael effaith sylweddol ar nodweddion y safle.

Er mwyn sicrhau bod effeithiau negyddol y Strategaeth yn cael eu dileu ac nad oes unrhyw effeithiau ar safleoedd a ddiogelir gan yr UE, argymhellir defnyddio'r camau lliniarol canlynol (gallai rhai o'r camau lliniarol fod yr un fath â'r rhai a nodir fel rhan o'r CCAu).

- Sicrhau bod Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd/ARC yn cael ei gynnal ar lefel y project neu lefel is⁷.
- Sicrhau bod mwy o faterion cadwraeth natur a geoforffegol yn cael eu hystyried wrth ddylunio / adeiladu amddiffynfeydd newydd;
- Ceisio lleihau ôl-droed amddiffynfeydd / ardal waith. Osgoi neu effeithio cyn lleied â phosibl ar goed ffawydd wrth adeiladu / cynnal a chadw.
- Plannu coed ffawydd newydd yn lle'r rhain sy'n rhaid eu cwmpo.
- Plannu rhywogaethau brodorol lleol yn lle unrhyw goed a allai fod angen eu cwmpo.
- Osgoi neu wneud cyn lleied o waith clirio llystyfiant â phosibl.
- Plannu o'r newydd neu symud llystyfiant a gliriwyd.
- Osgoi neu wneud cyn lleied o waith clirio pren marw â phosibl.
- Storio ac yna ail-osod unrhyw bren marw a gliriwyd ar ôl gorffen gwaith, neu symud pren marw i ardaloedd eraill o'r safle.
- Ystyried y potensial i gynnwys buddion amgylcheddol / biobeirianeg / peirianeg 'feddal' mewn cynlluniau wrth eu dylunio.
- Ceisio gweithio gyda phrosesau naturiol.
- Gwneud cyn lleied o waith â phosibl yn y golofn ddŵr.
- Rhoi mesurau atal llygredd ar waith i reoli rhyddhau gwaddol a llygryddion eraill.
- Tynnu neu beidio â chreu rhwystrau i fudo neu integreiddio'r llwybr mudo yn y dyluniad e.e. llwybrau pysgod i'r holl gylchoedd bywyd perthnasol.
- Defnyddio deunydd sy'n briodol i'w defnyddio mewn dŵr neu wrth ei ymyl, gan ystyried cyngor perthnasol gan CNC mewn perthynas â'r materion hyn.
- Caiff staff/contractwyr wybod am yr angen am fioddiogelwch a lleihau'r risg o ledaenu rhywogaethau anffrodorol.
- Glanhau offer, dillad, cerbydau a chychod yn briodol.
- Gwneud cyn lleied o waith â phosibl yn yr ardal rynglanwol.
- Gwneud cyn lleied o waith â phosibl mewn ardaloedd lle gallai fod halogyddion yn hanesyddol. Os oes yn rhaid gweithio yn yr ardaloedd hyn, rhaid pennu mesurau priodol i leihau'r risg o ail-symud llygryddion hanesyddol.
- Ystyried yr angen am lwybrau pysgod dros dro / parhaol.
- Amseru gwaith i leihau effeithiau mudo.
- Gwneud cyn lleied o waith â phosibl sy'n debygol o greu sŵn / dirgryndod.
- Defnyddio offer a pheiriannau distaw neu eu tawelu.
- Diffodd peiriannau nas defnyddir.
- Sicrhau bod offer a pheiriannau'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda.
- Defnyddio cyn lleied o olau artiffisial / gwaith gyda'r nos â phosibl.
- Gorchuddio goleuadau / defnyddio goleuadau a gyfeirir
- Amseru gwaith i osgoi tarfu ar nodweddion y safleoedd e.e. ni chaniateir gwaith onid ar adeg briodol y flwyddyn (Ebrill – Medi) i beidio tarfu ar adar y gaeaf.
- Sicrhau bod materion cadwraeth natur yn cael eu hystyried wrth reoli a chynnal amddiffynfeydd newydd.
- Ceisio cyfleoedd i wella cyflwr yr amgylchedd naturiol lle y bo'n ymarferol.
- Dylai cynlluniau neu brojectau sy'n rhan o'r gwaith o reoli'r perygl o lifogydd / o amgylch Gwastatir Gwent ystyried sut i reoli'r holl ffynonellau sy'n peri perygl o lifogydd, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i lifogydd dŵr wyneb, llifogydd llanwol, ymchwyddion storm a chronni llanw, a rhyngweithio'r holl ffynonellau perthnasol o lifogydd yn y cynllun / project a ddatblygir.
- Gweithio gyda CNC i sicrhau bod gwaith dylunio'n unol ag amcanion cadwraeth.

⁷ In developing lower tier plans, consideration should also be given to the need to carry out a Strategic Environmental Assessment (SEA)

7.3. Asesiad y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (CFfD)

Nod Cyfarwyddeb Cyngor yr UE 2000/60/EC sef 'sefydlu fframwaith ar gyfer gweithredu Cymunedol ym maes polisi dŵr' yw gwella ac integreiddio'r ffordd y caiff cyrff dŵr eu rheoli ledled Ewrop. Yr enw cyffredin arni yw'r *Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (CFfD)*. Daeth yn rhan o gyfraith Cymru a Lloegr gan Reoliadau Amgylchedd Dyfrol (Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2003.

Nod y CFfD yw sicrhau bod yr holl ddyfroedd mewndirol ac arfordirol yn yr UE mewn cyflwr 'da' erbyn 2015. Cyflawnir hyn yn rhannol drwy greu system o gynlluniau rheoli sef **Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd (CRBAau)**.

Mae strategaeth llifogydd Caerdydd o fewn **CRBA Hafren** ger ardal **CRBA Gorllewin Cymru**. Mae 10 dalgylch a 859 corff dŵr yn CRBA Hafren. Mae ardal strategaeth llifogydd Caerdydd yn nalgylch **Cymoedd y De-ddwyrain**. Mae hefyd wrth ymyl dalgylch **Ogwr i Dawe** yn CRBA Gorllewin Cymru.

Mae nifer o nodau'r CFfD yn berthnasol wrth baratoi strategaeth llifogydd Caerdydd ac mae gan y strategaeth llifogydd y potensial i helpu i gyflawni rhai o'r camau a nodwyd yn y CRBAau. Er mwyn sicrhau nad yw strategaeth llifogydd Caerdydd yn gwrthdaro â CRBA Hafren nac yn tansilio nodau'r CFfD, cynhaliwyd asesiad CFfD o'r polisiâu a'r camau gweithredu arfaethedig dan y strategaeth llifogydd mewn ymgynghoriad ag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru bellach).

7.3.1. Casgliadau Asesu CFfD

Daeth yr asesiad CFfD i'r casgliad y gallai rhai o'r mesurau/camau gweithredu yn strategaeth llifogydd Caerdydd gael effaith gadarnhaol neu negyddol wrth gyflawni nodau ac amcanion y CFfD. Er mwyn sicrhau y gellir cael gwared ar effeithiau negyddol a manteisio i'r eithaf ar yr effeithiau cadarnhaol, argymhellir defnyddio'r camau lliniaru canlynol:

- Ystyried yr angen am AEA ac ARC ar Broiectau Gwella ac Amnewid Asedau (astudiaethau cyn dichonolrwydd) (Nant Lleucu Isaf ac Afon Rhymni)
- Ystyried y potensial i gynnwys buddion amgylcheddol / biobeirianeg / peirianeg 'feddal' mewn cynlluniau ar y cam dylunio
- Sicrhau bod materion cadwraeth natur a geomorffolegol yn cael eu hystyried wrth ddylunio / adeiladu amddiffynfeydd newydd.
- Sicrhau bod AEA/ARC yn cael ei gyflawni ar lefel project
- Ceisio lleihau ôl-droed amddiffynfeydd
- Ceisio gweithio gyda phrosesau naturiol
- Amseru gwaith i darfu cyn lleied â phosibl ar nodweddion safleoedd e.e. ni chaniateir gwaith onid ar yr adeg briodol o'r flwyddyn (Ebrill – Medi) i osgoi tarfu ar adar y gaeaf.
- Sicrhau bod materion cadwraeth natur yn cael eu hystyried wrth reoli a chynnal a chadw amddiffynfeydd newydd
- Ceisio cyfleoedd i wella cyflwr yr amgylchedd naturiol lle y bo'n ymarferol

Gyda'r mesurau hyn ar waith, credir na chaiff strategaeth llifogydd Caerdydd effaith andwyol ar nodau ac amcanion y CFfD.

8. Monitro ac adolygu

8.1. Monitro ac adolygu

Dyma ddechrau cam newydd yn y gwaith o reoli'r perygl o lifogydd yng Nghaerdydd a Chymru. Bydd newidiadau sylweddol dros y blynyddoedd nesaf yn y system gynllunio, gofynion draenio cynaliadwy a darparu yswiriant llifogydd. Bydd y gwaith o ariannu, dylunio cynlluniau atal llifogydd a gwella'r wybodaeth o ran pa ardaloedd sydd fwyaf mewn perygl o lifogydd yn newid.

O ganlyniad mae'n gwneud synnwyr i'r adolygiad cyntaf o'r strategaeth llifogydd fod yn gymharol fuan. Cynigir cynnal adolygiad yn 2015 i gyfateb i gyflawni Cynlluniau Rheoli'r Perygl o Lifogydd fel rhan o Reoliadau Perygl o Lifogydd. Ar ôl hynny byddai'r strategaeth yn dal i gael ei hadolygu yn unol â Rheoliadau Perygl o Lifogydd, bob 6 mlynedd, gyda'r adolygiad nesaf yn 2021.

8.2. Adolygu a Monitro Amgylcheddol

Dylai gwybodaeth sy'n berthnasol i fonitro'r AEA gael ei chasglu ynghyd â gwybodaeth i'r adolygiadau o'r strategaeth llifogydd a dylai cynnydd ar amcanion a thargedau'r AEA fod yn rhan graidd o'r broses o adolygu'r strategaeth llifogydd.

Mae'r targedau a'r dangosyddion a ddatblygwyd i'r amcanion AEA wedi ystyried y data sydd ar gael ar hyn o bryd, data a fyddai ar gael wrth roi strategaeth llifogydd Caerdydd ar waith a rhaglenni monitro sy'n mynd rhagddynt sy'n berthnasol i amcanion AEA. Maent hefyd wedi ystyried y data a gesglid i fonitro cynnydd y strategaeth llifogydd ei hun. Nodir y dangosyddion a'r data / gwybodaeth AEA y dylid eu casglu neu eu cyfeirio er mwyn monitro gweithrediad y strategaeth llifogydd a'r effeithiau ar yr amgylchedd yn Adroddiad Amgylcheddol yr AEA. Nid yw llawer o'r dangosyddion yn fesurau uniongyrchol o effeithiau'r strategaeth llifogydd ar yr amgylchedd, ond maent yn brocsis sy'n monitro gweithrediad y strategaeth llifogydd neu'r pwysau y gellir ei roi ar dderbynyddion amgylcheddol.

9. Cyfeiriadau

- Defra. (2006). *Flood and Coastal Defence Project Appraisal Guidance FCDPAG3 "Economic Appraisal"*. Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.
- Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (2009). *Eastern Valleys CFMP*. Asiantaeth yr Amgylchedd.
- Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (2009). *Taff and Ely CFMP*. Asiantaeth yr Amgylchedd.
- FHRC. (2010). *The Benefits of Flood and Coastal Risk Management - A Handbook of Assessment Techniques*. Prifysgol Middlesex, Canolfan Ymchwil Perygl o Lifogydd.
- Hyder Consulting (UK) Ltd. (2011). *Cardiff Council Preliminary Flood Risk Assessment Final Report*. Caerdydd: Cyngor Caerdydd.
- Pitt, S. M. (2010). *The Pitt Review: Learning Lessons From The 2007 Floods*. Llundain: HMSO.
- Grŵp Arfordirol Aber Afon Hafren (2010). *Severn Estuary Shoreline Management Plan (SMP) Review*. DU: SECG.
- Llywodraeth Cymru. (2011a). *Canllawiau Strategaethau Lleol Rheoli'r Perygl o Lifogydd*. Llywodraeth Cymru.
- Llywodraeth Cymru. (2011b). *Strategaeth Genedlaethol Rheoli'r Perygl o Lifogydd ac Erydiad Arfordirol yng Nghymru*. Llywodraeth Cymru.
- Llywodraeth Cymru. (2011c). *Addasu i newid yn yr hinsawdd: Canllawiau i Awdurdodau Rheoli'r Perygl o Lifogydd ac Erydiad Arfordirol yng Nghymru*. Llywodraeth Cymru.
- Llywodraeth Cymru. (2011d). *Datblygu Cynaliadwy: Canllawiau i Awdurdodau Rheoli Risg Adran 27 – Datblygu Cynaliadwy*. Llywodraeth Cymru.

Atodiadau

- Appendix A. Adopted Policies**
- Appendix B. Risk Management Authorities Contact Details**
- Appendix C. Record of Consultation Responses**
- Appendix D. National Strategy Objectives**
- Appendix E. Local Flood Risk Strategy Appraisal Tables**
- Appendix F. Glossary**
- Appendix G. List of abbreviations**

Appendix A. Polisiau a Fabwysiadwyd

A.1. Polisi ceuffosydd



POLISI CEUFFOSYDD

Cynnwys

1. Diben
 2. Cyflwyniad
 3. Polisiâu Cyngor Caerdydd
 4. Eithriadau
 5. Gofynion cyfreithiol a'r angen am ganiatâd
 6. Gweithdrefnau Caniatâd
 7. Diffiniadau
 8. Cysylltiadau
 9. Cyfeiriadau
-

1. Diben

Mae'r daflen hon yn cynnig eglurhad manwl o bolisi ceuffosydd Cyngor Caerdydd. Fe'i bwriadwyd ar gyfer tirlfeddianwyr a datblygwyr Cyngor Caerdydd.

2. Cyflwyniad

Mae gan gyrsiau dŵr nifer o rolau yn yr amgylchedd heddiw. Maent yn draenio tir sydd wedi'i ddatblygu a thir amaeth, ac yn adnoddau dŵr hollbwysig, ac mae gan rai werth hamdden pwysig. Maent yn nodweddion pwysig yn y dirwedd ac yn darparu cynefinoedd i amrywiaeth eang o fywyd gwyllt. Mae felly'n bwysig bod cyrsiau dŵr a'r cynefinoedd cysylltiedig yn cael eu diogelu a'u gwella er budd pobl heddiw ac yn y dyfodol.

Mae Cyngor Caerdydd o'r farn ei fod o fudd i gyrsiau dŵr aros yn agored o ran rheoli'r perygl o lifogydd ac at ddibenion amgylcheddol. Mae cadw cyrsiau dŵr agored yn un o brif nodau Cyngor Caerdydd a, lle y bo'n bosibl, bydd Cyngor Caerdydd yn annog ac yn hyrwyddo cael gwared ar geuffosydd i adfer amgylchedd cwrs dŵr mwy naturiol.

Wrth ystyried cynigion datblygu newydd, amcan Cyngor Caerdydd yw cadw cyrsiau dŵr agored gyda choridor o dir agored ar y naill ochr iddynt. Mae hyn yn cynnal sianel llifogydd ac yn creu nodwedd amgylchweddol werthfawr a all wella'r safle. Bydd Cyngor Caerdydd yn annog datblygwyr i gynnwys cyrsiau dŵr agored yn nyluniad y safle. Mae nodweddion o'r fath yn arbennig o bwysig i fywyd gwyllt, gan gynnig tir agored gwerthfawr mewn ardaloedd datblygedig.

Gall creu ceuffosydd waethygu'r perygl o lifogydd a chynyddu gofynion cynnal a cadw cwrs dŵr. Mae hefyd yn dinistrio cynefinoedd bywyd gwyllt, yn difrodi amwynder naturiol ac yn tarfu ar didoriant cynefin llinol cwrs dŵr.

Ni ddylid ystyried creu ceuffosydd onid ystyriwyd opsiynau eraill yn drwyadl, er enghraifft:

- pontydd agored llydan sy'n cadw'r glannau a'r gwely sydd eisoes yno;
- adolygu cynllun y safle i gynnwys cwrs dŵr agored;
- dargyfeirio'r cwrs dŵr i fod yn sianel ac yn goridor sy'n ystyriol o'r amgylchedd.

Cydnabyddir bod amryw resymau pam fod tirlfeddianwyr, datblygwyr ac awdurdodau lleol o'r farn y dylid troi cyrsiau dŵr agored yn geuffosydd dan rhai amgylchiadau. Ond mae Cyngor Caerdydd o'r farn bod unrhyw fuddion fel arfer yn cael eu gwrthbwysio gan broblemau posibl o ran rheoli'r system, colli cynefinoedd ac anawsterau canfod llygredd.

Serch hynny, gallai fod achosion lle nad oes modd osgoi peidio â chreu ceuffosydd, e.e. ar ddarnau byr at ddibenion mynediad neu pan fo priffyrdd yn croesi cyrsiau dŵr. Mewn achosion o'r fath, dylid cyfyngu ar yr hyd dan sylw, dylid cynnal asesiad hydrologig ac amgylcheddol cynhwysfawr a dylid sicrhau bod mesurau gwella lliniarol priodol i'r amgylchedd cyfagos wedi'u cynnwys yn y cynnig.

3. Polisiau Cyngor Caerdydd

Ar y cyfan mae Cyngor Caerdydd yn gwrthwynebu creu ceuffosydd ar gyrsiau dŵr oherwydd yr effeithiau ecolegol, y perygl o lifogydd ac effeithiau eraill sy'n tebygol o ddigwydd.

Bydd Cyngor Caerdydd felly ond yn cymeradwyo cais i greu ceuffos ar gwrs dŵr os nad oes dewis rhesymol arall ar gael neu os byddai effeithiau andwyol creu ceuffos mor ddibwys fel na fyddant yn cyfiawnhau mynd am ddewis arall mwy costus. Ym mhob achos, fel y bo'n briodol, rhaid cyflwyno mesurau lliniarol i wneud yn iawn am ddifrod a achosir.

Lle bynnag y bo'n ymarferol, bydd Cyngor Caerdydd yn ceisio adfer cyrsiau dŵr sydd wedi'u troi'n geuffosydd yn sianeli agored.

3.1. Rhesymau dros y Polisi

Mae Deddf Draenio Tir 1991, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, yn gosod dyletswyddau cyffredinol a phenodol ar Gyngor Caerdydd o ran caniatáu a gorfodi adeileddau sydd i'w ar gwrs dŵr cyffredinol.

Rhaid i Gyngor Caerdydd ystyried y dyletswyddau hyn wrth gyflawni ei holl swyddogaethau, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â rheoli'r perygl o lifogydd a draenio tir.

O ganlyniad, mae Cyngor Caerdydd yn gyffredinol yn gwrthwynebu creu ceuffosydd ar gyrsiau dŵr oherwydd yr effeithiau andwyol sy'n debygol o ddeillio o wneud hynny. Ymhlith yr effeithiau hyn gallai fod;

- colli ac andwyo nodweddion amgylcheddol a chynefin bywyd gwyllt;
- tebygolrwydd uwch o lifogydd oherwydd blocio;
- llifogydd mwy dinistriol;
- colli 'storfeydd' dŵr llifogydd;
- mwy o anhawster creu cysylltiadau draenio;
- anawsterau o ran trwsio a chynnal a chadw ceuffosydd a gosod rhai newydd;
- peryglon mwy o ran iechyd a diogelwch;
- lleihau gallu'r tir i amsugno dŵr;
- anawsterau cynyddol wrth ganfod tarddiad llygrydd ac wrth fonitro ansawdd dŵr.

3.2. Colli nodweddion amgylcheddol

Mae creu ceuffosydd o gyrsiau dŵr yn andwyo'r amgylchedd. Caiff nodweddion amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'r rhan honno o'r cwrs dŵr eu colli'n gyfan gwbl. Torrir ar draws coridor y cwrs dŵr, sy'n andwyo'r dirwedd a gwerth ecolegol y cwrs dŵr a tharfu ar ymfudo rhai rhywogaethau. Caiff amwynder presennol neu bosibl ei golli i'r dyfodol.

Mae creu ceuffosydd yn cael gwared ar rywogaethau a nodweddion cyrsiau dŵr fel pyllau, rhigolau, gro, coblau, tywod, gwaddol, llystyfiant ffiniol/dyfrol, torlannau daear a'r llystyfiant cysylltiedig, cymunedau o infertebratau a physgod. Mae hyd yn oed cyrsiau dŵr sy'n sych am ran o'r flwyddyn yn gynefinoedd gwerthfawr i rai rhywogaethau, fel amffibiaid ac infertebratau.

Felly mae creu ceuffosydd yn mynd yn groes i gyfrifoldeb Cyngor Caerdydd i wneud mwy o waith cadwraeth mewn cysylltiad â'i gyfrifoldebau i reoli'r perygl o lifogydd, a'r nod yw cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy.

3.3. Tebygolrwydd cynyddol o achosi blocio

O'i gymharu â chwrs dŵr agored mae blocio yn fwy tebygol o ddigwydd ar ôl gosod ceuffos. Os yw'r geuffos wedi'i blocio, mae'n anos delio â'r sefyllfa. Oherwydd hyn, mae sgriniau'n cael eu gosod ar ben uchaf nifer o geuffosydd. Mae'r sgriniau eu hunain yn aml yn cael eu blocio ac mae angen cynnal gwaith clirio rheolaidd arnynt a sicrhau bod gweithdrefnau brys cadarn ar waith fel nad ydynt yn achosi llifogydd.

Weithiau, dadleuir y bydd creu ceuffosydd yn lleihau'r broblem sy'n deillio o sbwriel yn cronni mewn cyrsiau dŵr agored. Mae Cyngor Caerdydd o'r farn, yn y rhan fwyaf o achosion, fod y manteision tymor byr yn cael eu gwrthbwysu gan anfanteision cyffredinol creu ceuffosydd ac y dylid ceisio dulliau eraill o fynd i'r afael â phroblem sbwriel.

3.4. Llifogydd mwy dinistriol

Mae effaith llifogydd ar y tir ei hun, sy'n digwydd pan na all ceuffos ymdopi â'r llif sy'n ei chyrraedd, yn aml yn fwy difrifol na llifogydd o gwrs dŵr agored.

3.5. Colli 'storfeydd' dŵr llifogydd

Yn gyffredin, mae cyrsiau dŵr agored yn gallu storio mwy o ddŵr na cheuffos, a bydd y difrod a achosi'n fwy pan fydd y geuffos yn hirach.

3.6. Mwy o anhawster creu cysylltiadau draenio

Gall draeniau gael eu darparu'n haws ar gyrsiau dŵr agored, lle mae modd creu cysylltiadau draenio'n haws a bod modd monitro perfformiad systemau draenio'n weledol. Gall arllwysfeydd mewn ceuffosydd flocio neu, yn achos arllwysfeydd â fflapiau arnynt, gallant gael eu gorfodi ar agor. Yn aml, mae cynnal a chadw'r arllwysfeydd hyn yn haws mewn sianeli agored.

3.7. Anawsterau trwsio a chynnal a chadw ceuffosydd a gosod rhai newydd

Mae ceuffosydd yn cuddio cwrs dŵr, a gall datblygiadau gael eu codi arnynt neu gall y tir oddi uchod gael ei ddefnyddio at ddefnydd annerbyniol. Codwyd adeiladau mewn nifer o ardaloedd trefol uwch neu wrth ymyl ceuffosydd. Mae hyn yn golygu y gallai fod yn amhosibl gwella safonau diogelu rhag llifogydd neu greu mesurau sy'n delio â dŵr mewn datblygiadau yn y dyfodol, neu ei bod yn aneconomaidd i dalu am y gost o ehangu neu amnewid ceuffosydd. Yn ddiweddar, bu achosion o lifogydd difrifol yn sgîl ceuffosydd yn cwmpo oherwydd bod gormod o ddeunydd wedi'i osod oddi uchod iddynt.

Mewn ardaloedd trefol, rhaid ystyried yr angen i gynnis dulliau amgen o ddelio â llifogydd, a chan hynny llifogydd sy'n waeth na gallu'r geuffos i ddelio â nhw. Bydd hyn hefyd yn cynnwys gwneud trefniadau wrth gefn pe bai ceuffos yn blocio, gan felly leihau'r perygl o lifogydd mewn eiddo.

Cyfrifoldeb tirfeddiannwr neu berchennog y geuffos yw ei chadw mewn cyflwr da a'i chynnal a'i chadw onid oes drefniadau eraill ar waith. Felly rhai i'r sawl sy'n gyfrifol amdani sicrhau bod y geuffos ac unrhyw sgriniau mewn cyflwr da ac yn ddirwystr. Os na wnânt hynny, gallent fod yn atebol am unrhyw ddifrod a achosir gan lifogydd.

Yn gyffredinol, nid yw'n ddiogel cael mynediad at geuffos heb ddefnyddio gweithdrefnau ac offer arbennig, sy'n ei gwneud yn anodd ac yn gostus ei harolygu a'i chynnal a'i chadw.

3.8. Peryglon iechyd a diogelwch

Mae peryglon yn gysylltiedig â chysiau dŵr agored naturiol, ond gall cyrsiau dŵr sy'n geuffosydd fod yr un mor beryglus. Nid yw creu ceuffos yn dileu'r perygl o foddau neu anafu. Gall lefel dŵr godi'n gyflym ac yn ddirybudd, a gall fod diffyg ocsigen neu gall nwyon a all fod yn wenwynig neu'n ffrwydroldronni mewn ceuffosydd.

Gall y rhain beryglu'r cyhoedd a gweithredwyr sy'n gwneud gwaith cynnal a chadw.

3.9. Effaith ar allu'r tir i amsugno dŵr

Wrth osod ceuffos, creir gwely anathraidd ar gwrs dŵr, sy'n cynyddu cyflymder llif y dŵr, gan lleihau faint o ddŵr sy'n cael ei amsugno gan y tir, a all fod yn arbennig o ddirifol mewn datblygiadau mawr neu ardaloedd â daeareg athraidd.

3.10. Llygredd a'r effaith ar ansawdd dŵr

Drwy greu ceuffos o gwrs dŵr, mae'n anos canfod a chanfod tarddle llygredd yn gynnar, sy'n gwaethygu'r effeithiau andwyol a achosir. Mae effaith bellach ar ansawdd dŵr o ganlyniad i golli prosesau biolegol sy'n hanfodol i buro afonydd, ac fel arfer mae ocsigeneiddiad dŵr sy'n llifo drwy geuffos yn llai. Gall ceuffosydd arwain at achosi merddwr, yn enwedig os yw lefelau ceuffos wedi'u cynllunio neu eu hadeiladu'n wael.

(Nid oes gan Gyngor Caerdydd y grym dan ddeddfwriaeth draenio tir i wrthod caniatâd ar y sail bod ceuffos yn ei gwneud yn anos canfod llygredd yn unig).

4. Eithriadau

Mae rhai achosion lle nad oes modd osgoi creu ceuffosydd, er enghraifft, ar ddarnau byr at ddibenion mynediad pan fo priffyrdd yn croesi cyrsiau dŵr. Mewn achosion o'r fath, rhaid i ddewisiadau eraill fel codi pontydd agored neu ddargyfeirio'r cwrs dŵr fod wedi'u hysytyried yn drylwyr gan gynnwys cyfyngu'r hyd i isafswm penodol i gyflawni amcan yr ymgeisydd, a chynnwys gwelliannau amgylcheddol lliniarol yn y cais.

Cyn gosod ceuffos argymhellir cynnal asesiad risg ar sail y tebygolrwydd o flocio a chanlyniadau hynny, a dylid gweithredu cynigion i leihau'r risg i lefel dderbyniol.

5. Gofynion cyfreithiol a'r angen am ganiatâd

5.1. Caniatâd Cwrs Dŵr Cyffredin

Bydd gosod ceuffos ar gwrs dŵr, neu addasu ceuffos sy'n bodoli, yn gofyn am Ganiatâd Cwrs Dŵr gan Gyngor Caerdydd dan Adran 23 Deddf Draenio Tir 1991. Ar brif afonydd rhaid cael caniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru.

Os adeiledir (neu addesir) ceuffos ar gwrs dŵr heb ganiatâd, gall Cyngor Caerdydd gyflwyno hysbysiad atal i'r person a'i orfodi i gael gwared ohoni. Os nas cydymffurfir â'r hysbysiad, gallai'r unigolyn cyfrifol gael ei erlyn ac mae gan Gyngor Caerdydd yr hawl i gynnal y gwaith angenrheidiol ac adennill unrhyw gostau rhesymol yr eir iddynt wrth wneud hynny.

5.2 Mathau eraill o ganiatâd

Mae'n rhaid cael caniatâd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, fel y bo'n briodol, ar gyfer gwneud gwaith mewn safle dynodedig, neu a fyddai'n effeithio ar safle dynodedig, (h.y. Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig – SoDdGA) drwy newid llif neu lefel dŵr.

Dylai ymgeiswyr hefyd holi Cyngor Caerdydd p'un ai a oes angen caniatâd cynllunio ar eu cynigion ceuffosydd dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a/neu ganiatâd dan Ddeddf Iechyd Cyhoeddus 1936.

6. Gweithdrefnau Caniatâd

Dylai tirfeddianwyr a datblygwyr geisio cyngor gan Gyngor Caerdydd cyn gynted â phosibl ar unrhyw gynnig, gan ofalu bod digon o amser cyn i'r gwaith ddechrau. Bydd nodi a datrys problemau posibl cyn i gynlluniau gyrraedd y camau olaf yn lleihau costau i bawb ac yn lleihau faint o amser y bydd Cyngor Caerdydd yn ei gymryd i brosesu cais caniatâd pan ddaw i law. Hefyd, gellir nodi cyfleoedd gwella amgylcheddol, na fyddent o reidrwydd yn gostus i ddatblygwyr ar ôl cytuno ar y manylion. Ar ôl cytuno ar y manylion rhagarweiniol, rhaid i gais gael ei gwblhau a'i gyflwyno i Gyngor Caerdydd ynghyd â ffi briodol er mwyn cael caniatâd ffurfiol. Ar ôl i gais cyflawn a dilyd ddod i law, mae gan Gyngor Caerdydd ddeufis i benderfynu arno. Caiff pob cais ei drin ar sail ei rinweddau ei hun yn unol â dyletswyddau a chyfrifoldebau Cyngor Dinas Caerdydd dan Ddeddf Draenio Tir 1991 a Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, gan gynnwys yr effaith ar yr amgylchedd. Mae Cyngor Caerdydd yn cydnabod nad yw ei bolisi ar geuffosydd ynddo'i hun yn ddigonol i wrthod caniatâd i osod ceuffos ar gwrs dŵr.

7. Diffiniadau

Pont

Adeiledd agored gyda ffordd, llwybr cerdded, rheilffordd ac ati arno, sy'n croesi cwrs dŵr **Ceuffos**

Sianel neu bibell wedi'i gorchuddio a ddefnyddir i sicrhau dilyniant i lwybr cwrs dŵr neu ddraenio o dan adeiledd artiffisial.

Cwrs dŵr cyffredinol

Dan Ddeddf Draenio Tir 1991, 'Cwrs Dŵr cyffredinol' yw cwrs dŵr nad yw'n ffurfio rhan o brif afon, sy'n cynnwys yr holl afonydd a nentydd a'r holl ffosydd, draeniau, ceuffos, morglawdd, llifddor, carthffos (heblaw am garthffosydd yng nghwmpas Deddf y Diwydiant Dŵr 1991) a thamwyfa y mae dŵr yn llifo drwyddo. Mae gan Gyngor Caerdydd bwerau rheoleiddiol mewn cysylltiad â'r Cwrsiau Dŵr cyffredinol yn ei ffiniau.

Prif afon

Dynodir Prif Afonydd fel rhai sydd ar fapiau a gedwir gan yr Adran dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) a gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Rhaid cael caniatâd gan Cyfoeth Naturiol Cymru i wneud gwaith ar Brif Afonydd neu'n gyfagos â nhw. Gellir cael rhagor o wybodaeth am brif afonydd o swyddfeydd lleol Cyfoeth Naturiol Cymru.

Datblygu Cynaliadwy

Datblygiad sy'n diwallu anghenion y presennol heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

8. Cysylltiadau

Cyngor Caerdydd

Rheoli Draeniau – Gwasanaethau'r Ddinas

Brindley Road

Lecwydd

Caerdydd

CF11 8TX

Ffôn: 029 2087 2087 (Saesneg) 029 2087 2088 (Cymraeg)

E-bost: C2C@caerdydd.gov.uk

<http://www.caerdydd.gov.uk>

Cyfoeth Naturiol Cymru

Plas yr Afon

Parc Busnes Llanelirwg

Fortran Road

Llanelirwg

Caerdydd

CF3 0EY

Rhif ffôn: 0300 065 3000 (Llun-Gwe, 8am - 6pm)

E-bost: enquiries@naturalresourceswales.gov.uk

Gwe: <http://cyfoethnaturiolcymru.gov.uk>

9. Cyfeiriadau

Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (2010). Ar gael gan The Stationary Office Limited

Deddf Draenio Tir Act (1991). Ar gael gan the Stationary Office Limited.

Deddf Iechyd Cyhoeddus (1936). Ar gael gan The Stationary Office Limited.

Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (1990). Ar gael gan The Stationary Office Limited

A.2. Polisi Bagiau Tywod



POLISI BAGIAU TYWOD

Yng Nghaerdydd, daw'r perygl mwyaf o lifogydd yn sgîl dŵr yn cronni ar ffyrdd neu ddraeniau wedi'u blocio. Oherwydd y gall dŵr wyneb godi'n cyflym, a'i bod yn anodd rhagweld lleoliad neu raddfa unrhyw ddigwyddiad, mae Cyngor Caerdydd wedi llunio'r polisi bagiau tywod canlynol.

Y ffordd fwyaf effeithiol o ddiogelu eiddo yw drwy ddefnyddio systemau priodol sydd ar gael gan gwmnïau sy'n arbenigo mewn atal llifogydd. Gall trigolion gael cyngor am ddulliau a chynhyrchion atal llifogydd o www.nationalfloodforum.org.uk

Nid oes gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i gyflwyno bagiau tywod mewn llifogydd.

Mae'r Cyngor yn argymhell yn gryf i drigolion weithredu cyn i lifogydd ddigwydd.

Cydnabyddir nad yw gallu bagiau tywod i atal llifogydd yn gwbl ddibynadwy, ac ni all bagiau tywod ddiogelu eiddo rhag llifogydd. Y mwyaf y gallant ei wneud yw atal dŵr sy'n codi am gyfnod. Felly, blaenoriaeth y Cyngor yw rhoi gwybodaeth i drigolion am beth y gallant ei wneud i baratoi at lifogydd. Mae Cyngor Caerdydd yn parhau i gefnogi'r gwaith a gyflawnir gan Cyfoeth Naturiol Cymru o ran codi ymwybyddiaeth am lifogydd yng Nghaerdydd, a bydd yn parhau i wneud gwaith gyda chymunedau ac unigolion i baratoi at lifogydd.

Yn ystod llifogydd, caiff ein hadnoddau eu neilltuo ar sail y risg, ar y cyd â'r gwasanaethau brys os yw'n briodol, gan roi blaenoriaeth i ddiogelu'r nifer ehangach posibl o eiddo a seilwaith allweddol.

Os bydd llifogydd, neu bod llifogydd yn cael eu rhagweld, bydd y canlynol yn berthnasol wrth gyflwyno bagiau tywod:

- 1. Blaenoriaethir rhoi stoc i'r gwasanaethau brys bob tro.**
2. Pan fydd digon o adnoddau, bydd modd nôl bagiau tywod o depo Brindley Road y Cyngor. (Mae bagiau tywod ar gael gan nifer o fasnachwyr adeiladu ac os yw trigolion o'r farn y gallai eu cartref fod mewn perygl dylent gadw rhai ohonynt fel rhan o'u cynlluniau eu hunain i atal llifogydd).
3. Rhoddir hyd at 5 bag tywod i aelodau'r cyhoedd o depo Brindley Road.
4. Caiff y bagiau eu rhoi am ddim.
5. Os ydych yn eu nôl ar ran mwy nag un eiddo, rhaid cyflwyno tystiolaeth o'r cyfeiriadau wrth gasglu.
6. Caiff y bagiau tywod eu darparu ar sail y cyntaf i'r felin, ac ar ôl i'r cyflenwad cyhoeddus ddod i ben, ni fydd rhagor o fagiau ar gael. (Fel arfer cedwir stoc o tua 250-1000 o fagiau)
7. Pan fydd perygl o lifogydd, ni fydd modd cyflenwi sympiau o fagiau tywod i gymunedau lleol oherwydd ni allwn reoli'r gwaith o'u dosbarthu'n effeithiol i sicrhau darpariaeth gydradd.
8. Caiff trigolion na allan nôl neu osod bagiau tywod e.e. yr henoed, pobl anabl neu bobl egwan, gymorth gan y Cyngor os oes adnoddau ar gael. Ni fydd hyn yn digwydd onid aseswyd y bydd y bagiau tywod yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at ddiogelu eiddo rhag llifogydd.
9. Ar ôl llifogydd, dylai perchennog tŷ symud a storio bagiau tywod neu eu dychwelyd i Depo Brindley Road. Bydd y Cyngor yn cael gwared ag unrhyw fagiau tywod sydd wedi cael eu gadael.

Ymwybyddiaeth ac Ymgysylltu ar Lefel Uchel	6.1	Gweithio mewn partneriaeth	Bod wedi paratoi	√	√	√	√	√	√	√	√	√
Monitro	7.1	Monitro – Tonnau, Traethau, Ffotograffiaeth o'r Awyr ac Arolygon Topograffig	Bod wedi paratoi		√		√	√	√	√		√
	7.2	Monitro Cynefinoedd	Bod wedi paratoi					√		√		√
	7.3	Arolwg topograffig	Bod wedi paratoi						√			
	7.4	Arolygon o'r awyr	Bod wedi paratoi							√	√	√

Thema Cyflawni	Cyf	Gweithgareddau	Math o weithredu	Amserlenni				
				0-5	5-10	10-20	20-50	50-100 mlynedd
				Blaenoriaethu – Byrdymor (SLRPL bresennol) 2012-2016	Blaenoriaethu – Byrdymor (SLRPL 2) 2012-2016	Blaenoriaethu – Byrdymor (SLRPL 3) 2012-2016	Tymor Canolig	Hirdymor
Cynllunio ac Addasu Datblygiadau	1.1	Cynllunio Cynaliadwy a Datblygu Strategol, CDLI	Atal	0-5 mlynedd				
	1.2	ASPL / ACLIS	Atal	0-5 mlynedd				
	1.3	Strategaeth Cylchdro Dŵr	Atal		5-10 mlynedd			
	1.4	Adleoli	Atal					50-100 mlynedd
	1.5	Cynllun Mwynau a Gwastraff	Atal		5-10 mlynedd			
	1.6	Draenio Trefol Cynaliadwy	Atal		5-10 mlynedd			
Rhagolygu llifogydd, ac ymateb	2.1	Ymwybyddiaeth o lifogydd	Bod wedi paratoi	0-5 mlynedd			20-50 mlynedd	
	2.2	Rhybudd o lifogydd	Bod wedi paratoi		5-10 mlynedd			
	2.3	Rhagfynegi llifogydd	Bod wedi paratoi		5-10 mlynedd			
	2.4	Cynlluniau Ymateb mewn Argyfwng	Bod wedi paratoi	0-5 mlynedd				
	2.5	Cynlluniau Cymunedol pan fo Llifogydd	Bod wedi paratoi	0-5 mlynedd				
	2.6	Cynlluniau Llifogydd Amlasiantaeth	Bod wedi paratoi		5-10 mlynedd	10-20 mlynedd		
Rheoli tir, diwylliant ac amgylchedd	3.1	Rheoli Tir	Atal		5-10 mlynedd	10-20 mlynedd	20-50 mlynedd	
	3.2	Gwydnwch	Bod wedi paratoi	0-5 mlynedd	5-10 mlynedd	10-20 mlynedd		
	3.3	Gwrthsefyll	Diogelu	0-5 mlynedd	5-10 mlynedd	10-20 mlynedd		
	3.4	Adfer	Atal	0-5 mlynedd	5-10 mlynedd	10-20 mlynedd	20-50 mlynedd	
	3.5	Gwelliannau Amgylcheddol	Atal	0-5 mlynedd	5-10 mlynedd	10-20 mlynedd	20-50 mlynedd	
	3.6	Cynlluniau Rheoli Lefel Dŵr	Diogelu		5-10 mlynedd	10-20 mlynedd	20-50 mlynedd	
	3.7	Creu Cynefin	Diogelu		5-10 mlynedd	10-20 mlynedd	20-50 mlynedd	
Rheoli a Chynnal Aseidiad	4.1	Cynlluniau Rheoli mewn Argyfwng	Diogelu	0-5 mlynedd	5-10 mlynedd	10-20 mlynedd		
	4.2	Rheoli Amddiffynfeydd / Adeileddau	Diogelu	0-5 mlynedd	5-10 mlynedd	10-20 mlynedd	20-50 mlynedd	
	4.3	Cynnal a Chadw Sianeli	Atal	0-5 mlynedd	5-10 mlynedd	10-20 mlynedd		
	4.4	Cynnal a Chadw Ceuffosydd	Atal	0-5 mlynedd	5-10 mlynedd	10-20 mlynedd		
Astudiaethau, Aseidiadau a Chynlluniau	5.1	Ymchwilio	Bod wedi paratoi	0-5 mlynedd	5-10 mlynedd	10-20 mlynedd		
	5.2	Aseidiadau Risg	Bod wedi paratoi				20-50 mlynedd	
	5.3	Cynllun Strategaeth	Bod wedi paratoi		5-10 mlynedd	10-20 mlynedd		
	5.4	Lliniaru lefel llifogydd i eiddo lleol - gwydnwch	Bod wedi paratoi				20-50 mlynedd	
	5.5	Lliniaru lefel llifogydd i eiddo lleol - gwrthsefyll	Diogelu				20-50 mlynedd	
	5.6	Astudiaethau Cyn Dichonoldeb / Astudiaethau Dichonoldeb	Bod wedi paratoi	0-5 mlynedd	5-10 mlynedd	10-20 mlynedd		
	5.7	Cynlluniau a Ragfynegi – Gwerthuso Opsiynau	Bod wedi paratoi				20-50 mlynedd	
	5.8	CRhDWau yn cysylltu â CRAau	Bod wedi paratoi				20-50 mlynedd	
Ymwybyddiaeth ac Ymgysylltu ar Lefel Uchel	6.1	Gweithio mewn partneriaeth	Bod wedi paratoi	0-5 mlynedd	5-10 mlynedd	10-20 mlynedd		
Monitro	7.1	Monitro – Tonnau, Traethau, Ffotograffiaeth o'r Awyr ac Arolygon Topograffig	Bod wedi paratoi	0-5 mlynedd	5-10 mlynedd	10-20 mlynedd	20-50 mlynedd	
	7.2	Monitro Cynefinoedd	Bod wedi paratoi	0-5 mlynedd	5-10 mlynedd	10-20 mlynedd		
	7.3	Arolwg topograffig	Bod wedi paratoi		5-10 mlynedd	10-20 mlynedd	20-50 mlynedd	
	7.4	Arolygon o'r awyr	Bod wedi paratoi		5-10 mlynedd	10-20 mlynedd	20-50 mlynedd	

E.3. Asesiad Economaidd

Project:	Strategaeth Leol Rheoli'r Perygl o Lifogydd Caerdydd	I:	Tîm y Project
Pwnc:	Asesu economaidd	O:	K Owen
Dyddiad:	29 Gorffennaf 2012 Diweddarwyd Mawrth 2013	CC:	

Mae'r nodyn technegol yn nodi'r dull gweithredol a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r asesiad economaidd strategol i'r SLRPL.

Methodoleg

Agweddau allweddol ar yr asesiad

Mae'r asesiad yn dilyn egwyddorion Canllawiau Gwerthuso Projectau Amddiffynfeydd Llifogydd ac Arfordirol FCDPAG3 (Defra, 2006). Mae'n dilyn egwyddorion asesu ariannol y Llywodraeth fel y'u nodir yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM gan asesu effaith difrod a budd gweithredu ar lefel genedlaethol.

Cost Trosglwyddo Mae dadansoddiadau budd-cost yn ymwneud ag effeithlonrwydd economaidd cenedlaethol, pan fo effeithlonrwydd, yn ei hanfod, yn gymhareb rhwng gwerth allbynnau (defnydd) a mewnbynnau (adnoddau). Mae'r mewnbynnau hyn o stoc (e.e. safle peiriannu, adeiladau, traethau) ac o lifoedd (e.e. trydan, llafur). Mae taliad trosglwyddo'n digwydd pan fo newid yn effeithio ar naill ai pwy sy'n cael defnydd o'r hyn dan sylw, neu'r un sy'n darparu'r adnoddau, ond nid oes newid yng nghyfanswm cenedlaethol yr holl ddefnydd na'r holl adnoddau sydd eu hangen i hwyluso'r defnydd.

Prawf taliad trosglwyddo: A fydd newid yn yr un neu'r ddau o gyfanswm gwerth defnydd y DU neu yn yr adnoddau sydd eu hangen i hwyluso'r defnydd hwnnw? Os na, dim ond taliad trosglwyddo sy'n rhaid ei dalu ac ni chyfrifir am unrhyw ddifrod.

Gwerthoedd difrod

Mae'r helaethder a ddangosir ym Map Llifogydd Dŵr Wyneb (MLIDW) Asiantaeth yr Amgylchedd wedi'i ddefnyddio i asesu nifer yr eiddo yr effeithir arnynt. Mae'n mapio'r canlynol:

- Llifogydd bas tebygolrwydd 1/30
- Llifogydd dwfn (mwy na 0.3m) tebygolrwydd 1/30
- Llifogydd bas tebygolrwydd 1/200
- Llifogydd dwfn tebygolrwydd 1/200

Mae rhifau'n seiliedig ar werthoedd wedi'u talgrynnu o ddata sydd yn The Benefits of Flood and Coastal Risk Management: A Handbook of Assessment Techniques – 2010, a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Ymchwil i'r Perygl o Lifogydd, Prifysgol Middlesex .

Y rhagdybiaethau / paramedrau a ddefnyddir yw:

Llifogydd Bas

- Llifogydd am Gyfnod Byr – dyfnder o 0.1m yn effeithio ar eiddo preswyl arferol = £11,952

Llifogydd Dwfn

- Llifogydd am Gyfnod Byr – dyfnder o 0.3m yn effeithio ar eiddo preswyl arferol = £22,944

Addaswyd y gwerthoedd hyn yn seiliedig ar newid yn y Mynegi Pris Defnyddwyr rhwng 2010 a 2012.

- Ebrill 2010 = 114.9
- Ebrill 2012 = 122.9
- Newid = +6.9%

Gwerthoedd a ddefnyddir yn y dadansoddiad

- Llifogydd Bas = £12,000
- Llifogydd Dwfn = £24,000

Rhagdybiaethau'r dadansoddiad y gall systemau draenio presennol ymdopi â llifogydd hyd at y safon ddylunio arferol o ddigwyddiad cyfle 1/30. Os yw'n uwch na hyn, creir llifogydd, a fydd yn effeithio ar eiddo.

Aseswyd y gwerthoedd tebygol i'r difrod yn seiliedig ar y cyfle blynyddol o ddigwyddiad yn digwydd, i bennu gwerth cyfartalog yn ystod unrhyw flwyddyn arferol (Difrod Blynyddol Cyfartalog, DBC).

Er mwyn profi effeithlonrwydd economaidd opsiynau gwahanol ar sail gymaradwy, rhaid gostwng costau a buddion unrhyw fuddsoddiad, o'r adeg y digwyddant yn y dyfodol, i'w gwerth presennol. Penna'r Llywodraeth (y Trysorlys) y Gyfradd Ostyngiadau Brawf a ddefnyddir i werthuso projectau sector cyhoeddus fel lleddfau llifogydd a chynlluniau diogelu arfordirol. Mae hon yn 3.5% am yr 20 mlynedd nesaf, gan leihau i 2.5% wedi hynny. Rydym wedi cymryd ein cyfnod asesu i ystyried yr 20 mlynedd nesaf i alinio â chyfnod byrdymor cylch oes y SLRPL.

Y gwahaniaeth rhwng y lefel a ragwelir o ddifrod a'r sefyllfa 'gwneud dim' yw lefel y budd y rhagwelir y gall pob dull ei gynnig.

Amodau a aseswyd

Ystyriwyd tri amod i alinio â'r rhai a aseswyd fel rhan o'r asesiad o Amcanion a Mesurau;

- Gwneud dim - llinell sylfaen a alinir â'r canllawiau. Mae'n ystyried y sefyllfa os nad yw Cyngor Caerdydd yn cyflawni camau gweithredu (gan gynnwys y rhai a wna ar hyn o bryd). Mewn gwirionedd, ni fydd hyn yn digwydd, ond mae'n cynnig llinell sylfaen gyffredin gytûn i gymharu camau gweithredu ar draws awdurdodau / adrannau gwahanol yn ôl y gofyn.
- Gweithredu'n ôl yr arfer - rhagdybir y bydd lefel y gweithredu yma'n atal difrod gan lifogydd mewn digwyddiad cyfle 1/30. Bydd difrod yn uwch na'r lefel honno. Gellid ystyried hyn fel y sefyllfa "gyfredol"
- Gwneud mwy - y rhagdybiaeth yma yw y bydd y gwaith yn gwella'r sefyllfa; ni ddigwyddai lefel y difrod mewn digwyddiad cyfle 1/30 onid mewn digwyddiad cyfle 1/200 (llai tebygol)

Allbwn

Noda'r tablau canlynol ganlyniad y cyfrifiadau hynny.


Tabl 2 Difrod a ragwelir ar gyfer llifogydd a asesir

Digwyddiad	Nifer yr eiddo a effeithir - net	Difrod arferol i eiddo	Difrod digwyddiad	Cyfanswm Difrod digwyddiad
1/30 - bas	7963	£ 12,000	£ 95,556,000	
1/30 dwfn	2141	£ 24,000	£ 51,384,000	£146,940,000 (£146.9M)
1/200 - bas	25047	£ 12,000	£ 300,564,000	
1/200 dwfn	8046	£ 24,000	£ 193,104,000	£493,668,000 (£493.7M)

Tabl 3 Difrod Gwerth Presennol a ragwelir (£M)

Digwyddiad - Sefyllfa	1 / 20 5%	1 / 30 3.33%	1 / 200 0.5%	"anherfynedd"	AAD	Gwerth presennol	
						Difrod (DGP)	Buddion (DGP)
Gwneud dim	0	£146.9	£ 493.7	£ 661.8	£13.2	£194.0	
Gweithredu'n ôl yr arfer	0	£ -	£ 493.7	£ 661.8	£9.9	£145.4	£48.6
Gwneud mwy	0	£ -	£ 146.9	£ 493.7	£3.7	£54.2	£139.8

Ffigur 1 Siart grynhoi AAD



Appendix F. Geirfa

— A —

Deddf

Bil a gymeradwywyd gan Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi ac y cytunwyd arno'n ffurfiol gan y teyrn (Caniatâd Brenhinol).

Cynlluniau amaeth-amgylchedd

Cynlluniau dan Reoliad 1257/99 yr UE sy'n cynnig grantiau i fesurau i gadw a gwella cefn gwlad.

Cynllun Amaeth-amgylchedd Tir Cynnal

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gyfrifol am Tir Cynnal, y cynllun amaeth-amgylchedd 'lefel mynediad' newydd sy'n rhagflaenu Tir Gofal (gweler isod). Mae'n ddull i ffermwyr gael taliadau cymell am drosi o leiaf 5% o'u tir yn gynefin rhannol naturiol i fywyd gwyllt e.e. drwy waith ar goridorau afonydd.

Tir Cymru

Mae cynllun amaeth-amgylchedd Tir Cymru'n cynnwys rhaglenni Tir Gofal a Tir Cynnal. Tir Gofal yw cynllun amaeth-amgylchedd blaenllaw Llywodraeth Cymru. Fe'i cyflwynwyd ym 1999 i ddisodli cynlluniau Ardaloedd Amgylchedd Arbennig a Tir Cymen. Cynllun fferm gyfan ydyw, sydd ar gael i dir a ffermir ledled Cymru. Mae'n gwobrwo ffermwyr am ofalu am nodweddion amgylcheddol, hanesyddol a diwylliannol ar eu tir, a'r nod yw cefnogi'r gymuned ffermio wrth ddiogelu a gwella tirweddau amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gyfle i annog tiffeddianwyr yn ardal y Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch i reoli tir mewn ffordd fwy cynaliadwy. Cyflwynwyd cynllun Tir Cynnal gan Lywodraeth Cymru yn 2005. Cynllun lefel mynediad fferm gyfan ydyw sy'n rhoi mwy o gyfleoedd i ffermwyr Cymru ddiogelu ardaloedd a nodweddion o bwysigrwydd amgylcheddol ar eu tir, yn gyfnewid am daliad. Rhaid wrth fesurau diogelu amgylcheddol helaethach yn y cynllun hwn na gofynion Trawsgydymffurfiol SPS, ond nid oes cymaint o ofynion â Tir Gofal. Rhaid i'r rhai sy'n rhan o'r cynllun nodi'r risgiau i bridd, dŵr ac aer ar eu fferm sy'n deillio o arferion ffermio cyfredol, gan sicrhau bod 5% o'r tir yn cael ei neilltuo i fod yn gynefinoedd bywyd gwyllt.

Cynllun Amaeth-Amgylchedd Tir Gofal

Mae Tir Gofal, y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd yn gyfrifol amdani, yn fenter fferm gyfan sy'n ceisio annog arferion amaethyddol a fydd yn diogelu ac yn gwella tirwedd Cymru, nodweddion diwylliannol a'r bywyd gwyllt cysylltiedig, drwy gynnig taliadau cymhellol.

Dosbarthiad Tir Amaethyddol

System graddio i dir amaeth yn seiliedig ar ddadansoddi cyfyngiadau ffisegol hirdymor at ddefnydd amaethyddol. Gall hinsawdd, y safle, nodweddion pridd a'r berthynas rhyngddynt effeithio ar y dosbarthiad.

Difrod Blynyddol Cyfartalog (DBC)

Yn dibynnu ar eu maint (neu ddifrifoldeb) bydd llifogydd yn achosi lefel wahanol o ddifrod. Y difrod blynyddol cyfartalog yw'r difrod mewn punnoedd y flwyddyn a fyddai'n digwydd mewn ardal ddynodedig o ganlyniad i lifogydd dros gyfnod hir. Mewn nifer o flynyddoedd, ni fydd difrod o lifogydd, mewn rhai blynyddoedd bydd rhywfaint o ddifrod (a achosir gan lifogydd bychain a chymharol aml) ac, mewn ychydig o flynyddoedd, bydd difrod mawr (a achosir gan lifogydd mawr, prin).

Arfarniad

Y broses o ddiffinio amcanion, archwilio opsiynau a gwerthuso costau, buddion, risgiau, cyfleoedd ac ansicrwydd cyn dod i benderfyniad.

Dyfrhaen

Haen danddaearol o graig athraidd a all gadw dŵr, neu ddeunyddiau anghyfunedig (graean, silt tywod neu glai) o'r dŵr llawr y gellir ei echdynnu.

ArcView

Pecyn meddalwedd gyfrifiadurol System Wybodaeth Ddaearyddol (GIS).

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AoHNE)

Dynodwyd AoHNE dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 i ddiogelu ardaloedd o gefn gwlad â golygfeydd o safon uchel na allant ennill statws Parc Cenedlaethol am fod diffyg cyfleoedd hamdden awyr agored (sy'n hanfodol i Barc Cenedlaethol). Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am roi gyngor i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar ddynodiad AoHNE. Rhagor o wybodaeth am AoHNE yn: <http://www.aonb.org.uk>

Gwanhad

O ran llifogydd, effaith y gorlifdir ar siâp hydrograff llifogydd (yn lleihau maint llifogydd ond yn ymestyn y cyfnod mae'n para) oherwydd cyfuniad o storio ac ymwrthedd. Ystyriwyd gwanhad llifogydd drwy 'storio naturiol' yn gynyddol fel ategiad defnyddiol i amddiffynfeydd llifogydd arferol mewn rhai sefyllfaoedd e.e. gellir defnyddio ardaloedd gwanhad i ymdopi â gorlif pan fydd afonydd yn ymchwyddo. Drwy gael llifogydd i lifo dros y manau agored hyn, mae modd diogelu eiddo sy'n is i lawr yr afon yn well.

System Neges Llais Awtomatig

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru system sy'n rhoi gwybodaeth am lifogydd sydd ar fin digwydd, er enghraifft i: awdurdodau lleol, y gwasanaethau brys, cartrefi a busnesau – naill ai dros y ffôn, ffacs neu drwy beiriant galw. Hefyd, mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru 'Linell Llifogydd', sy'n gynllun gwybodaeth gyhoeddus cenedlaethol. Y rhif ffôn yw 0845 988 1188

— B —

Buddion

Y newidiadau cadarnhaol mesuradwy ac anfesuradwy sy'n deillio o gynllun, polisi neu weithred, gan gynnwys y difrod o lifogydd a osgoir.

Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth

Cynllun y cytunwyd arno i gynefin neu rywogaeth sy'n ffurfio rhan o ymrwymiad y DU i fioamrywiaeth. Maent yn ddogfennau statudol. Ewch i'r wefan am ragor o wybodaeth: <http://www.ukbap.org.uk>

Bil

Cynnig am ddeddf newydd, neu gynnig i newid deddf sy'n bodoli eisoes a gyflwynir gerbron y Senedd i'w thrafod.

Cyfarwyddeb Adar

Cyfarwyddeb Gymunedol Ewropeaidd (79/409/EEC) ar gadwraeth adar gwyllt. Gweithredir yn y DU drwy Reoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol ac ati) (1994). I gael rhagor o wybodaeth ewch i wefan y Swyddfa Gwybodaeth Sector Cyhoeddus: <http://www.opsi.gov.uk> neu wefan Her Majesty's Stationary Office (HMSO): http://www.hmso.gov.uk/si/si1994/Uksi_19942716_en_1.htm

Clai Clogfeini

Gweddillion o rewlifoedd wrth iddynt ymgilio ar ddiwedd oesoedd iâ. Mae'n cynnwys cymysgedd o gerrig, clai, tywod a graean.

— C —

Cadw

Cadw – adran amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Y bwriad yw hyrwyddo cadwraeth a'r gwerthfawrogiad o amgylchedd hanesyddol Cymru. Y brif ffynhonnell o wybodaeth am weddillion archeolegol a gofnodwyd fydd y Cofnod Safleoedd a Henebion a'r Cofnod Henebion Cenedlaethol. Dylai'r Cofnod Safleoedd a Henebion gynnwys gwybodaeth am yr holl weddillion archeolegol hysbys. Ceir rhagor o wybodaeth naill ai ar wefan Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn: <http://www.rcahmw.org.uk/> neu ar wefan Cadw: www.cadw.cymru.gov.uk

Calchaidd

Rhywbeth a wnaed o garbonad calch neu dywodfaen, neu a wnaed yn rhannol ohonynt.

Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf

Manylion am gynlluniau amddiffynfeydd rhag llifogydd arfaethedig a gwelliannau a gynigir mewn dalgyrch fel y'u cymeradwyd gan y cyrff priodol (pwyllgor Rheoli'r Perygl o Lifogydd Cymru ers Ebrill 2006).

Dalgyrch

Yr ardal a ddraenir gan afon neu gwrs dŵr penodol. Dalgylch dŵr wyneb yw'r ardal a ddiffinnir gan y ffin uchaf rhwng dau ddalgylch. Dalgylch dŵr daear yw'r ardal sy'n cyfrannu at elfen dŵr daear llif yr afon.

Strategaeth Rheoli Echdynnu Dalgylch (CAMS)

Dogfen strategaeth Asiantaeth yr Amgylchedd yn amlinellu argaeledd a phwysau ar adnoddau dŵr mewn dalgylch.

Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch

Mae Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch yn fframwaith cynllunio strategol mawr hirdymor (50-100 mlynedd) sy'n rhoi trosolwg o'r perygl o lifogydd ym mhob dalgylch afon ac aber. Mae'n argymhell ffyrdd o reoli'r risgiau hynny nawr a thros y 50-100 mlynedd nesaf.

Cyfleoedd a Chyfyngiadau Dalgylch

Materion pwysig o ran dalgylchoedd a nodwn drwy ddefnyddio cyfuniad o nodweddion dalgylchoedd (e.e. ardaloedd dynodedig y mae angen eu diogelu neu eu gwella), polisi/targedau Llywodraeth a/neu fentrau dalgylchoedd (e.e. strategaethau presennol yr awdurdod lleol). Dylai nod polisiâu/mesurau dalgylchoedd fod i ystyried cyfyngiadau a hyrwyddo cyfleoedd drwy'r fframwaith arfarnu Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch (economaidd, amgylcheddol a thechnegol). Mae gan safleoedd dynodedig Gynlluniau Rheoli Lefel Dŵr sy'n nodi anghenion rheoli lefel dŵr mewn rhai rhannau o'r dalgylch, ac mae gan rai ardaloedd gorlifdir fuddiannau cadwraeth natur neu dreftadaeth sy'n cael budd o lifogydd cynyddol.

Polisiâu Dalgylch

Allbynnau'r Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch, sef polisiâu datganedig rheoli'r perygl o lifogydd mewn ardal ddiffiniedig o'r Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch o'r enw 'uned polisi'.

Ffermio Sensitif Dalgylch

Menter gan y llywodraeth i leihau llygredd dŵr tryledol o amaeth yng Nghymru a Lloegr. Nod y rhaglen yw helpu i fwrw targedau ansawdd dŵr y Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr. Nod y project yw gwella'r amgylchedd a lleihau effaith ffermio at nentydd, afonydd a llynnoedd lleol.

Y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg (CEH)

CEH (Wallingford), y Sefydliad Hydroleg gynt.

Newid yn yr Hinsawdd

Y newid yn amodau cyfartalog yr atmosffer wrth wyneb y Ddaear dros gyfnod hir.

Erydiad arfordirol

Treulio'r arfordir yn bennaf gan wynt a/neu donnau.

Cynllun Rheoli Cynefin Arfordirol (CHaMP)

Cynlluniau strategol sy'n mesur newid cynefinoedd (colledion ac enillion) dros gyfnod o 30-100 mlynedd, gan argymhell mesurau i atal colledion yn y dyfodol. Ymhlith y mesurau hyn mae opsiynau o ran amddiffynfeydd rhag llifogydd ac amddiffynfeydd arfordirol i osgoi difrod, neu nodi'r gwaith adfer neu adnewyddu angenrheidiol ar gynefinoedd i wneud yn iawn am golledion anochel. Cyflawni camau gweithredu CHaMP drwy Gynlluniau Rheoli'r Arfordir a strategaethau a chynlluniau amddiffynnol eraill o ran llifogydd a'r arfordir.

[Living with the Sea - CHaMPS - What are they?](#)

Perygl o erydiad arfordirol

Yn mesur arwyddocâd erydiad arfordirol posibl o ran tebygolrwydd ac effaith.

Rheoli'r perygl o erydiad arfordirol

Unrhyw beth a wneir at y diben o ddadansoddi, asesu a lleihau'r perygl y bydd yr arfordir yn erydu.

Llifogydd Arfordirol

Pan na all amddiffynfeydd arfordirol ymdopi â llanwon uchel rhagweledig arferol a all achosi llifogydd, o bosibl pan fydd llanw uchel yn cyfuno ag ymchwydd storm (a grëir gan wyntoedd cryfion neu bwysau atmosfferig isel iawn).

Y Polisi Amaethyddol Cyffredin

Mae'r Polisi'n system o gymorthdaliadau a rhaglenni amaethyddol yr UE. Mae'r cymorthdaliadau'n sicrhau isafswm pris i gynhyrchwyr drwy dalu cymorthdaliadau'n uniongyrchol ar gyfer cynydu a blennir. Mae'r system wrthi'n cael ei diwygio, gan gynnwys drwy Gynllun Talu Sengl ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermydd, sy'n cael ei gyflwynodd i'r DU.

Cynllun Cyfathrebu

Cynllun sy'n nodi rhaglen ymgynghori'r Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch, a threfniadau penodol ar gyfer ymgynghori timau mewnol a sefydliadau allanol.

Ardaloedd Cadwraeth

Ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig y mae eu cymeriad neu ymddangosiad yn werth ei gadw neu ei wella. Mae gan awdurdodau lleol Cymru a Lloegr bŵer i ddynodi Ardaloedd Cadwraeth mewn unrhyw ardal o "diddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig" y mae ei chymeriad neu ei hymddangosiad yn werth diogelu neu wella. Bernir yr "arbenigrwydd" yn erbyn meini prawf lleol a rhanbarthol, yn hytrach na phwysigrwydd cenedlaethol, fel yw'r achos ag adeiladau rhestredig.

Grŵp Ymgynghori

Rhoi o bobl a ymgynghorir, sy'n cynrychioli'r rhanddeiliaid, sydd â budd yn natblygiad y Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch a'i bolisiau terfynol.

Trawsgludiad

Y gair am fesur pa mor dda y mae sianel neu adeiledd, sef pont neu geuffos, yn galluogi dŵr i basio drwyddo. Mae'n dibynnu ar nodweddion ffisegol sianel neu adeiledd, gan gynnwys ei faint, ei siâp a garwedd yr arwyneb.

Deddf Hawliau Tramwy Cefn Gwlad (CROW)

Daeth Deddf Hawliau Tramwy Cefn Gwlad 2000 i rym ar 30 Ionawr 2001. Mae'n berthnasol i Gymru a Lloegr ac mae pum rhan iddi:

1. Mynediad i Gefn Gwlad
2. Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Thraffig Ffyrdd
3. Cadwraeth Natur a Diogelu Bywyd Gwyllt
4. Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
5. Amrywiol ac Ategol

O'r rhain, Rhan 3 sydd fwyaf perthnasol o ran rheoli llifogydd dalgylchoedd gan ei bod yn rhoi sylfaen statudol i fioamrywiaeth, yn adolygu gweithdrefnau hysbysu SoDdGAau, yn cynyddu'r mesurau diogelwch iddynt ac yn atgyfnerthu rôl ymgynghorol EN / CCGC, yn cynyddu cwmbras rhai troseddau bywyd gwyllt ac yn cynyddu cosbau. I gael rhagor o wybodaeth, cyfeirier at wefan y Swyddfa Gwybodaeth Sector Cyhoeddus: <http://opsi.gov.uk> neu wefan Her Majesty's Stationary Office (HMSO): www.hmso.gov.uk/acts/acts2000/20000037.htm

Cyngor Cefn Gwlad Cymru

Hyd nes Ebrill 2013, Cyngor Cefn Gwlad Cymru oedd ymgynghorydd statudol Llywodraeth Cymru ar gynnal harddwch naturiol, bywyd gwyllt a'r cyfle i fwynhau'r awyr agored yng Nghymru a'r dyfroedd mewndirol. Nid yw CCGC yn bodoli ers Ebrill 2013, gyda Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflawni ei ddyletswyddau bellach.

Safle Bywyd Gwyllt Sirol / Safle o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (SoBCN)

Dynodir y rhain yn lleol drwy eu cynnwys mewn cynlluniau datblygu lleol neu unedol oherwydd eu diddordeb cadwraeth rhanbarthol neu leol. Fel arfer, mabwysiedir y safleoedd hyn gan awdurdodau lleol at ddibenion cynllunio ond nid ydynt wedi'u diogelu'n statudol. Mae rhagor o wybodaeth am y dynodiadau ar y wefan ganlynol: <http://www.naturenet.net/status/sinc.html>

Cyrsiau Dŵr cyffredinol Critigol (CDACau)

Darnau o gyrsiau dŵr llai, a ddiffiniwyd yn rhan critigol o ran rheoli'r perygl o lifogydd drwy ymgynghori rhwng Asiantaeth yr Amgylchedd (fel y bu), Awdurdodau Lleol a Byrddau Draenio Mewnol (BDMau).

Ceuffos

Adeiledd a orchuddir dan ffordd, arglawdd ac ati i gyfeirio llif dŵr.

— D —

Yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol

Olynydd Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog. Yn gyfrifol am hyrwyddo cydlyniant cymunedol a chydaddoldeb, tai, adfywio trefol, cynllunio a llywodraeth leol.

<http://www.communities.gov.uk>

Defra

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Yr adran llywodraeth ganolog sy'n gyfrifol am y bolisi rheoli llifogydd yn Lloegr.

[Defra, UK - About Defra](#)

Dogfennau FCDPAG Defra/Llywodraeth Cymru – wedi'u disodli (gweler FCERM-AG)

Mae'r dogfennau FCDPAG (canllawiau gwerthuso projectau amddiffynfeydd llifogydd ac arfordirol) yn nodi'r meini prawf sy'n pedernfynu ar ba un a yw cynllun yn gymwys i gael grant ai peidio. Y dogfennau PAG yw:

PAG1. Trosolwg

PAG2. Cynllunio a gwerthuso strategol

PAG3 Arfarniad eocnomaidd

PAG4. Dulliau o ymdrin â risg

PAG5. Arfarniad Amgylcheddol

[Defra, DU - Rheoli Llifogydd - Canllawiau Gwerthuso Projectau](#)

Mapiau Cyngor Datblygu

Ym mis Gorffennaf 2004, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fapiau cyngor datblygiad i ategu fersiwn ddiweddaraf TAN15 – Datblygu a'r Perygl o Llifogydd. Fe'u defnyddir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol i benderfynu ar ba un a oes angen ystyried materion sy'n ymwneud â'r perygl o lifogydd wrth gynllunio datblygiadau yn y dyfodol. Disgrifir tri pharth cyngor datblygu ar y mapiau, sy'n ymwneud â chamau gweithredu cynllunio gwahanol.

[Llywodraeth Cymru | Nodyn Cyngor Technegol\(TAN\) 15: Datblygiadau a'r Perygl o Llifogydd \(2004\) ...](#)

Cofrestr DG5

Cofrestr a gedwir gan gwmnïau dŵr ar ba mor aml y caiff llifogydd o'r system garthffosiaeth gyhoeddus effaith ar eiddo drwy ddŵr budr, dŵr wyneb neu garthffosiaeth gyfunol.

Model Uchder Digidol (MUD)

Set ddata sy'n cynrychioli topograffi ardal, fel arfer ar ffurf map electronig. Mae DEM yn cynnwys y llawr ac adeileddau fel adeiladau, neu adeileddau dynol a llystyfiant.

Model Tir Digidol (MTD)

Set ddata sy'n cynrychioli topograffi ardal, fel arfer ar ffurf map electronig. Mae DTM yn cael ei brosesu i gynnwys y llawr ac adeileddau fel adeiladau, neu adeileddau dynol a llystyfiant.

Drifft

Mewn daeareg, drifft yw gweddillion craig a symudir dros greigwely solet. Gall gael ei gludo gan afonydd a rhewlifoedd. Drifft rhewlifol yw'r term cyffredinol am y gweddillion bras ac unfath o darddiad rhewlifol. Yn y DU, defnyddir 'drifft' i ddisgrifio unrhyw weddillion pedryddol.

— E —

Asiantaeth yr Amgylchedd

Corff cyhoeddus anadrannol sy'n gyfrifol am gyflawni polisi Llywodraeth y DU ar yr amgylchedd a rheoli'r perygl o lifogydd yng Nghymru a Lloegr.

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

Hyd at fis Ebrill 2013, Corff Cyhoeddus dan nawdd Llywodraeth Cymru a oedd yn atebol i Weinidogion Cymru a Chorff Cyhoeddus Anadrannol Gweithredol yn atebol i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Ers Ebrill 2013 nid yw'n bodoli a throsglwyddwyd ei chyfrifoldebau i Cyfoeth Naturiol Cymru.

Gweledigaeth Asiantaeth yr Amgylchedd

'Gweledigaeth' Asiantaeth yr Amgylchedd i'r amgylchedd a dyfodol cynaliadwy yw: Amgylchedd iach, cyfoethog ac amrywiol yng Nghymru a Lloegr, heddiw ac yn y dyfodol. I gyflawni'r targedau a fydd yn gwireddu'r 'weledigaeth', mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi nodi naw prif 'thema' neu fframwaith dros newid i sicrhau dyfodol mwy cynaliadwy.

1. Ansawdd bywyd gwell: Byddwn yn gweithio gyda phob sector i wella ansawdd yr amgylchedd a'r gwasanaethau a ddefnyddiwn - i fusnesau, genweirwyr, defnyddwyr cychod a phobl eraill sy'n defnyddio'r dyfrffyrdd, ffermwyr, cynllunwyr, a phob rhan o'r gymuned.
2. Amgylchedd gwell i fywyd gwyllt: sicrhawn nad yw ein gwaith a gwaith a awdurdodir gennym yn bygwth rhywogaethau a chynefinoedd pwysig.
3. Aer glanach i bawb.
4. Dyfroedd mewndirol ac arfordirol gwell a ddiogelir: gweithiwn i lanhau dyfroedd wedi'u llygru a lleihau'r risg o lygru pellach.
5. Tir a ddiogelir ac a adferwyd gyda phridd iachach.
6. Byd busnes 'gwyrdach'.
7. Defnydd cynaliadwy doethach a adnoddau naturiol.
8. Cyfyngu ac addasu i newid yn yr hinsawdd.
9. Lleihau'r perygl o lifogydd: byddwn yn gwella'r amddiffynfeydd rhag llifogydd a gwybodaeth am beryglon llifogydd.

Am fwy o wybodaeth ewch i'r wefan: [Asiantaeth yr Amgylchedd - Ein Gweledigaeth](#)

Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd (AEA)

Y broses lle nodir ac asesir effeithiau tebygol project neu ddatblygiad ar yr amgylchedd i benderfynu ar ba mor arwyddocaol ydynt. Mae AEAau yn statudol i nifer o ddatblygiadau sy'n debygol o gael effaith andwyol ar yr amgylchedd, ac i unrhyw gynllun sy'n effeithio ar safle a ddynodwyd gan Ewrop er cadwraeth.

Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif (AAS)

Wedi'u cyflwyno gan Y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (MAFF; rhagflaenydd DEFRA) ym 1987 ac a ddynodir dan ddarpariaethau adrannau 18 ac 19 Deddf Amaeth 1986 a Gorchymyn Dynodi Ardal Amgylchedd Arbennig (Cam II) (Diwygio) (Rhif 2) 2001. Fe'u llywodraethir gan DEFRA ac maent yn cynnig cymhellion (ar gytundeb 10 mlynedd gyda chymal torri ar ôl 5 mlynedd) i annog ffermwyr i fabwysiadu arferion amaethyddol, a fyddai'n diogelu ac yn gwella rhannau o'r wlad o werth tirwedd, bywyd gwylt neu hanesyddol uchel. Cyflwynodd DEFRA'r Cynllun Stiwardiaeth Amgylcheddol ym mis Mawrth 2005 sy'n disodli (gyda gwelliannau) yr Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif a'r Cynlluniau Stiwardiaeth Cefn Gwlad. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar wefan DEFRA: <http://www.defra.gov.uk/erdp/schemes/esas/default.htm>

Gorfaethu

Mae gorfaethu'n broses lle bydd cyrff o ddŵr, fel llynnoedd, aberoedd, neu nentydd araf yn cael gormod o faetholion sy'n ysgogi gordyfiant ymhlith planhigion. Caiff ocsigen toddedig yn y dŵr ei leihau pan fydd planhigion meirwon yn dadelfennu, a gall achosi i organebau eraill farw. Gall maetholion ddod o nifer o ffynonellau, fel gwrtaith ar dir amaeth; erydu pridd sy'n cynnwys maetholion; a gollyngiadau o safleoedd trin carthffosiaeth.

Dŵr Llonydd a Orfaethir

Dŵr sy'n llawn maetholion sydd i'w gael mewn pyllau caeau, llynnoedd, camlesi, pyllau graean a chronfeydd dŵr.

Anweddu

Y broses lle mae hylif (dŵr) yn troi'n nwy (anwedd dŵr).

F

Cynllun Gweithredu Pysgodfeydd

Dogfen yn nodi gweledigaeth i afonydd, camlesi a pysgodfeydd dŵr llonydd mewn dalgyllch, a chynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r prof broblemau sy'n effeithio arnynt. Nodir ariannu posibl hefyd lle y bo'n bosibl. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn datblygu cynlluniau gweithredu gyda chynrychiolwyr o'r gymuned pysgodfeydd lleol. Cynigiwyd llunio Cynlluniau Gweithredu Pysgodfeydd yn Adolygiad Eogiaid a Physgodfeydd Dŵr Croyw 2000 ac ers hynny fe'i cefnogwyd gan y Llywodraeth. Cewch ragor o wybodaeth am y cynlluniau ar y wefan: <http://www.environment-agency.gov.uk>

Cynlluniau Lliniaru Llifogydd (CLILI)

Cynllun a ddyluniwyd i leihau'r perygl o lifogydd mewn ardal benodol.

Asesiad Canlyniadau Llifogydd (ACLI)

Asesiad o'r perygl o lifogydd sy'n ofynnol dan TAN 15 (canllawiau cynllunio Cymru) i ddatblygiadau a gynigir mewn ardaloedd lle mae perygl o lifogydd.

FCERM

Rheoli'r Perygl o Llifogydd ac Erydiad Arfordirol

Swyddogaeth FCERM

Diffinnir gan Adrannau 4 a 5 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 fel swyddogaeth y gellir ei harfer gan awdurdod rheoli risg at ddiben sy'n gysylltiedig â naill ai rheoli'r perygl o lifogydd neu erydiad arfordirol.

Llifogydd

Unrhyw achos lle mae tir nas gorchuddir gan ddŵr fel arfer yn cael ei orchuddio gan ddŵr.

Canllawiau gwerthuso rheoli'r perygl o lifogydd ac erydiad arfordirol (FCERM-AG)

Rhydd y rhain ganllawiau ar sut i weithredu Datganiad Polisi Defra: Gwerthuso Rheoli'r Perygl o Llifogydd ac Erydiad Arfordirol, Mehefin 2008. Mae'n disodli Canllawiau Gwerthuso Project Defra. <http://www.environment-agency.gov.uk/research/planning/116705.aspx>

Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

Deddf Seneddol sy'n diweddarau ac yn diwygio deddfwriaeth i fynd i'r afael â'r bygythiad o lifogydd a phrinder dŵr, y rhagwelir i'r ddau beth ddod yn broblemau cynyddol yn sgîl newid yn yr hinsawdd.

Difrod Llifogydd

Caiff difrod llifogydd ei weithio allan o ddyfnder amcangyfrifedig y llifogydd a'r data maint a geir o modelu hydrologig. Drwy gyfuno'r wybodaeth am fath a gwerth eiddo y dangosir eu bod yn yr amlinelliad llifogydd a fodelir, mae modd cyfrifo'r difrod cyffredinol y byddai'r llifogydd yn ei achosi. Gellir rhoi ffigurau ar ddifrod llifogydd am ystod o feintiau penodol o lifogydd e.e. y llifogydd tebygolrwydd blynyddol 1%.

Amddiffyniad rhag Llifogydd

Adeiledd (neu system o adeileddau) i leddfu llifogydd sy'n codi o afonydd neu'r môr. Nid yw amddiffynfeydd rhag llifogydd ond yn lleihau'r tebygolrwydd o lifogydd. Nid ydynt yn effeithio ar ganlyniadau llifogydd pan gânt eu trechu. Mae'r perygl o lifogydd yn gyfuniad o debygolrwydd rhywbeth i ddigwydd a chanlyniadau hynny pan ddigwyddo.

Llyfryn Amcangyfrif Llifogydd (LIALI)

Lluniwyd ym 1999 gan y Sefydliad Hydroleg (y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg, Wallingford, bellach), mae'r LIALI yn cynnig methodolegau safonol a dderbynnir ar hyn o bryd ar gyfer amcangyfrif llifoedd llifogydd yn y DU.

Map Llifogydd

Yn dangos llifogydd o afonydd a'r môr, gyda chyfle 1% a 0.5% o ddigwydd mewn unrhyw flwyddyn benodol. Dangosir yr amlinelliad llifogydd eithafol hefyd o ran llifogydd afonydd a llanwol gyda chyfle blynyddol 0.1%. Mae'r map llifogydd hefyd yn dangos amddiffynfeydd rhag llifogydd a'r ardaloedd sy'n cael budd ohonynt. Mae ar gael ar y wefan yn www.environment-agency.gov.uk/flood Weithiau, cyfeirir at y mapiau hyn fel mapiau Adran 105, neu Fapiau Llifogydd Dangosol.

Gorlifdir

Unrhyw ddarn o dir y mae dŵr yn llifo drosto, neu y byddai'n llifo drosto pe na bai amddiffynfeydd rhag llifogydd. Gall hefyd fod yn rhywle lle storir dŵr yn ystod llifogydd.

Perygl o lifogydd

Y perygl o lifogydd yw'r cyfuniad o debygolrwydd (neu amllder) llifogydd a'u canlyniadau (fel colli neu ddifrodi eiddo, difrod ffisegol neu ofid ac amharu cymdeithasol ac economaidd).

Asesiadau Perygl O Llifogydd

Asesiad o'r perygl o lifogydd sy'n ofynnol dan PPS25 (canllawiau cynllunio Lloegr) i ddatblygiadau a gynigir mewn ardaloedd lle mae perygl o lifogydd.

Rheoli'r Perygl o Llifogydd

Y gweithgaredd o ddeall tebygolrwydd a chanlyniadau llifogydd, a cheisio addasu'r ffactorau hynny i leihau'r perygl o lifogydd i bobl, eiddo a'r amgylchedd. Dylai hyn ystyried gofynion eraill o ran rheoli lefel dŵr a gofynion amgylcheddol, a chyfleoedd a chyfyngiadau.

Mesurau Rheoli'r Perygl O Llifogydd

Y ffordd y mae'r perygl o lifogydd sy'n cael eu rheoli naill ai drwy newid amllder llifogydd, neu drwy newid helaethder a chanlyniadau llifogydd, neu drwy amddiffyn y rhai y gall llifogydd effeithio arnynt yn fwy.

Cynllun(iau) Rheoli'r Perygl o Llifogydd

Ystod o gamau gweithredu i leihau amllder llifogydd a/neu ganlyniadau llifogydd i lefel dderbyniol neu gytûn.

Rheoli'r Perygl o Llifogydd

Wedi'i sefydlu dan Adran 14 Deddf yr Amgylchedd 1995, Rheoli'r Perygl o Llifogydd Cymru yw pwyllgor amddiffyn rhag llifogydd Cymru (gan ddisodli Pwyllgor Amddiffyn rhag Llifogydd Rhanbarthol Cymru). Mae'n bwyllgor gweithredol o Cyfoeth Naturiol Cymru (Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru gynt) sy'n gyfrifol am reoli swyddogaethau rheoli'r perygl o lifogydd. Dan y trefniadau, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2006, mae Rheoli'r Perygl o Llifogydd Cymru'n cynnwys 18 aelod, y mae wyth ohonynt yn benodiadau gan y Cynulliad (gan gynnwys y Cadeirydd a'r Aelod Cadwraeth), wyth gan, neu ar ran, awdurdodau lleol a dau gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mapiau o'r Perygl o Llifogydd

Gweler y Map Llifogydd

Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009

Rheoliadau sy'n gosod Cyfarwyddeb Llifogydd y CE (Cyfarwyddeb 2007/60/EC ar asesu a rheoli'r perygl o lifogydd) yn gyfraith ddomestig ac i weithredu ei darpariaethau.

Astudiaeth o'r Perygl o Llifogydd

Yn asesu'r perygl o lifogydd mewn ardal ddiffiniedig ac yn awgrymu mesurau posibl i reoli'r perygl o lifogydd.

Astudiaeth 'Flood Warning Levels of Service'

Astudiaeth sy'n dynodi lefel y gwasanaeth a roddir mewn lleoliadau yn y dalgylch a phosibiliadau i'w gwella a rhesymau dros wneud hynny.

Mae Floodline Warnings Direct

yn wasanaeth am ddim sy'n cynnig rhybuddion llifogydd yn uniongyrchol i chi dros y ffôn, mewn e-bost, drwy neges destun ac ar ffacs.

Afonol

Yn ymwneud â chwrs dŵr (afon neu nant)

Geoforffoleg Afonol

Prosesau a ffurfiau sy'n gysylltiedig ag erydiad, trosglwyddo a dyddodiad gwaddod afon.

Comisiwn Coedwigaeth Cymru

Tan fis Ebrill 2013 Comisiwn Coedwigaeth Cymru oedd adran goedwigaeth Llywodraeth Cymru, a stiwardiaid'n uniongyrchol 38% o goetir Cymru y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn berchen arno. Ei genhadaeth a'i gynllun corfforaethol yw helpu i gyflawni coetiroedd gwell i Gymru. Ers Ebrill 2013 Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n cyflawni ei ddyletswyddau.

Dynodiad Cyfarwyddeb Pysgodfeydd Dŵr Croyw

Cyfarwyddeb y CE (78/659/EEC) sydd â'r nod o ddiogelu a gwella ansawdd dŵr, gan ffurfio rhan o raglen monitro ansawdd dŵr Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae'r Gyfarwyddeb yn pennu safonau i ddiogelu pysgodfeydd dŵr croyw, yn bennaf o ran ansawdd dŵr, gan ei gwneud yn ofynnol i ddarnau dynodedig o ddŵr gyrraedd y safonau hynny i alluogi pysgod i fyw neu genhedlu ynddynt. [Asiantaeth yr Amgylchedd - Cyfarwyddeb Pysgod Dŵr Croyw](#)

— G —

Asesiad Ansawdd Cyffredinol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn asesu ansawdd afonydd bob blwyddyn gan ddefnyddio cynllun Asesu Ansawdd Cyffredinol. Mae'n mesur pedair agwedd ar ansawdd afonydd – bioleg, cemeg, maetholion ac ansawdd esthetig.

System Wybodaeth Ddaearyddol (GIS)

System gyfrifiadurol i ddal, storio, gwirion, integreiddio, manipiwleiddio, dadansoddi a dangos data a gyfeirnodir yn ofodol.

Geoforffoleg.

Mae geoforffoleg yn ymwneud â strwythur, tarddiad a datblygiad nodweddion topograffig cramen y ddaear. Mae Geoforffoleg Afonol yn ymwneud â'r broses ffisegol sy'n erydu a dyddodi gwaddol, ac sy'n diffinio siâp afon a'i gorlifdir.

Rhewglai

Gwaddol rhewlifol nas didolir yw rhewglai. Mae'n rhan o ddrifft rhewlifol a dyddodwyd yn uniongyrchol gan y rhewlif. Gall amrywio o glai i gymysgedd o glai, tywod, graen a chlogfaen.

Dŵr Daear

Dŵr tanddaearol mewn ffurfiannau naturiol (fel arfer creigiau, graean a thywod). Y dŵr tanddaearol sy'n dirlenwi, gan gynnwys dŵr is y bwrdd dŵr a dŵr mewn ceudodau, mandyllau ac agoriadau mewn priddoedd a chreigiau is.

Llifogydd Dŵr Daear

Mae llifogydd dŵr daear yn digwydd pan fydd lefelau dŵr yn y ddaear yn codi'n uwch na'r arwyneb naturiol. Mae'n fwyaf cyffredin yn yr iseldir lle mae haenau athraidd.

— H —

Cyfarwyddeb Cynefinoedd

Cyfarwyddeb y Gymuned Ewropeaidd (92/43/EEC) ar Warchod Cynefinoedd Naturiol a Phlanhigion ac Anifeiliaid. Fe'i gweithredir yn y DU drwy Reoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol ac ati) (1994) ac fe'i gelwir 'Y Gyfarwyddeb Cynefinoedd'. Mae'n sefydlu system i ddiogelu ffawna, fflora a chynefinoedd penodol a ystyrir yn rhaid sydd o bwysigrwydd cadwraeth Ewropeaidd. I gael rhagor o wybodaeth, cyfeirier at wefan y Swyddfa Gwybodaeth Sector Cyhoeddus: http://www.opsi.gov.uk/si/si1994/Uksi_19942716_en_1.htm

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARC)

Mae Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (SI 490, 2010), neu'r 'Rheoliadau Cynefinoedd', yn gweithredu 'Cyfarwyddeb Cynefinoedd' yr UE (Cyfarwyddeb 92/43/EEC) ar Gadwraeth cynefinoedd naturiol a fflor a ffawns gwyllt, A rhai elfennau o'r 'Gyfarwyddeb Adar' (2009/147/EC). Mae'r ddeddfwriaeth yn gosod fframwaith cyfreithiol i ddiogelu cynefinoedd a rhywogaethau o bwysigrwydd Ewropeaidd yng Nghymru.

Rhagnant

Tarddle afon – gallai fod yn llyn, yn waun, yn ffynnon, neu'n amrywiaeth ohonynt. Nentydd bychain ydynt sy'n creu'r afon.

HEC-RAS

Rhaglen modelu hydrologig a fydd yn perfformio cyfrifiadau llifoedd sefydlog ac ansefydlog undimensiynol ar ran o gwrs dŵr.

Ardaloedd Cymeriad Hanesyddol

Proses cymeriadu tirlun hanesyddol (gweler isod) sy'n rhannu pob ardal dirlun ar y Gofrestr yn nifer o ardaloedd daearyddol llai sy'n gymharol debyg o ran eu cymeriad hanesyddol.

Yr Amgylchedd Hanesyddol

Yn cynnwys pob elfen o safleoedd archeolegol, adeiladau hanesyddol a thirluniau hanesyddol dynodedig ac annynodedig. Mae hefyd yn cynnwys safleoedd o ddiddordeb paleo-amgylcheddol sy'n cynnig gwybodaeth am natur tirweddau, hinsawdd ac amgylcheddau'r gorffennol.

Tirweddau hanesyddol

Bu Cadw a CCGC yn gweithio i nodi tirweddau hanesyddol ledled Cymru. Fe'u casglwyd yn nwy gyfrol Cofrestr Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Cymru. Mae'r ddogfen cynghorol anstatudol hon yn amlygu'r hyn a ystyrir yr enghreifftiau gorau o fathau gwahanol o dirwedd hanesyddol yng Nghymru, sef naill ai Rhan 1 – Parciau a Gerddi neu Ran 2 – Tirweddau Hanesyddol. Am fwy o wybodaeth ewch i wefan Cadw: <http://www.cadw.cymru.gov.uk>

Nodweddu Tirweddau Hanesyddol

Rhaglen a gyflawnwyd gan Cadw ac Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru ar y cyd â'r Gofrestr Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn cynnig gwybodaeth fanylach am bob ardal ar y Gofrestr er mwyn rhoi gwybodaeth at ddibenion cadwraeth a rheoli tirweddau e.e. fel y gallai fod ei hangen ar gynlluniau amaeth-amgylchedd.

Cofrestr Tirweddau Hanesyddol

Mae'r Gofrestr Tirweddau Hanesyddol yn cynnig trosolwg cenedlaethol o gyd-destun hanesyddol tirwedd Cymru. Cofrestr gynghorol anstatudol ydyw sydd am gynnig gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth o ardaloedd tirwedd hanesyddol pwysig yng Nghymru, er mwyn eu diogelu a'u cadw a rhoi'r un pwyslais i'r amgylchedd hanesyddol â materion mwy traddodiadol fel cadwraeth natur, diogelu bywyd gwylt ac amwynder golygfaol. Noda Rhan 1 y Gofrestru 'dirweddau o ddiddordeb hanesyddol eithriadol' a noda Rhan 2 'dirweddau o ddiddordeb hanesyddol arbennig'.

Parciau a gerddi hanesyddol

Gan ddechrau ym 1992, bu Cadw wrthi'n cynnal arolwg cynhwysfawr o barciau a gerddi hanesyddol yng Nghymru. Mae parciau a gerddi o bwysigrwydd cenedlaethol wedi'u cynnwys ar Gofrestr Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru Cadw/ICOMOS. Lluniwyd y Gofrestr er mwyn cynorthwyo â'r gwaith cadwraeth gwybodus ar barciau a gerddi hanesyddol gan berchenogion, awdurdodau cynllunio lleol, datblygwyr, cyrff statudol a phawb sy'n ymwneud â nhw. Mae'n anstatudol.

Model Hydrologig

Model o gwrs dŵr, neu ran o gwrs dŵr (fel arfer yn ddigidol) sy'n galluogi amcangyfrifon o lefel y dŵr yn y cwrs dŵr ar gyfer llif benodol.

Hydrograff

Graff sy'n dangos:

- cofnod dros amser o lif afon, neu
- cofnod dros amser yn lefel y dŵr mewn dyfrhaen, a fesurir mewn ffynnon.

Model hydrolegol

Dull o amcangyfrif llif afon neu ddalgylch yn deillio o ddŵr glaw'n disgyn ar y dalgylch. Mae modelau fel arfer yn cyfrif am ffactorau fel dalgylch, topograffeg, priddoedd, daeareg a'r defnydd o dir.

— | —

Anathraidd

I ddisgrifiad deunyddiau – naturiol a synthetig – na all dŵr lifo drwyddynt.

Safon Ddiogelu Ddangosol

Ystod lefel y mesurau diogelwch i'w hystyried i amddiffyn rhag llifogydd, yn seiliedig ar y defnydd o'r tir sy'n cael ei ddiogelu. Nid ydynt fel rheol yn cynrychioli unrhyw hawl i ddiogelu, na lefel sylfaenol i'w chyrraedd.

Byrddau Draenio Mewnol

Mae'r Byrddau Draenio Mewnol yn gyrrff hirsefydledig sy'n gweithredu'n bennaf dan Ddeddf Draenio Tir 1991 ac mae ganddynt bwerau goddefol i gyflawni gwaith i sicrhau gwaith rheoli draenio a lefel dŵr yn eu hardaloedd a chynnal gwaith rheoli'r perygl o lifogydd ar gyrsiau dŵr cyffredinol yn eu hardaloedd (h.y. cyrsiau dŵr heblaw am 'brif afon'). Mae llawer o'r gwaith yn cynnwys cynnal a chadw afonydd, sianeli draenio a gorsafoedd pwmpio, hwyluso draenio ar gyfer datblygiadau newydd a rhoi cyngor ar geisiadau cynllunio. Mae ganddynt hefyd ddyletswyddau statudol o ran yr amgylchedd a hamdden wrth arfer eu bwerau goddefol.

— L —

Rheoli Tir

Cynllun neu broiect arall sy'n defnyddio arferion penodol yn fwriadol i newid cymeriad, ansawdd neu werth ardal. Mae Rheoli Tir yn amodol ar ddeddfwriaeth y DU a gallai ofyn am awdurdodiad gan awdurdod cymwys pan fo'n arwain at newid mewn Defnydd Tir, a gallai fod angen caniatâd cynllunio.

Defnydd Tir

Y defnydd a wneir o dir (e.e. preswyl, amaeth, coedwigaeth ac ati). Defnydd y term mewn nifer o gyd-destun ac fe'i rheolir gan y system cynllunio gwlad a thref.

Ardaloedd Cymeriad Tirwedd (ACTau)

Datblygir y rhain gan yr Asiantaeth Cefn Gwlad dan y Fenter Cymeriad Cefn Gwlad, ac mae elfen gymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol gref iddynt. Mae'r Fenter Cymeriad Cefn Gwlad yn rhaglen gwybodaeth a chyngor ar gymeriad cefn gwlad Lloegr. Mae'n cynnwys disgrifiadau systematig o'r nodweddion sy'n creu'r dirwedd, a dogfennau canllaw ar sut i gyflawni Asesiad Cymeriad Tirwedd.

Awdurdod Arweiniol Lleol Llifogydd

Y Cyngor Sir neu'r Cyngor Bwrdeistref Sirol.

Perygl Lleol o Llifogydd:

Yn ôl diffiniad Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 mae hyn yn cynnwys dŵr ffo wyneb, dŵr daear a chysiau dŵr cyffredinol.

Strategaeth Leol Perygl o Lifogydd

Gofynnol yng Nghymru dan Adran 10 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Rhaid i awdurdodau arweiniol llifogydd lleol baratoi strategaethau lleol perygl o lifogydd a rhaid iddynt nodi sut y byddant yn rheoli'r perygl lleol o lifogydd yn eu hardaloedd.

Ardal Llai Ffatriol (ALIFf)

Ardaloedd yng Nghymru sy'n anodd eu ffafrio oherwydd eu hinsawdd, eu lleoliad neu nodweddion y dirwedd. Dosberthir yr ardaloedd hyn yn dir Ardal dan Anfantais Fawr (AdAF) ac yn dir Ardal dan Anfantais (AdA). Mae'r ddau ddsbarthiad hyn yn rhan o Ardal Llai Ffatriol (ALIFf) Cymru. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:

<http://www.countryside.wales.gov.uk/fe/master.asp?n1=4&n2=205>

LiDAR

Canfod a Phennu Ehangder Golau (LiDar): system mapio awyrol sy'n defnyddio laser i fesur y pellter rhwng yr awyren ac arwyneb y llawr neu'r llystyfiant arno.

Adeiladau rhestredig

Mae CADW ac English Heritage yn gyrrff cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddiogelu adeiladau hanesyddol drwy nodi'r rhai a ddylai fod yn rhestredig. Mae tair gradd o adeiladau rhestredig:

- Adeiladau rhestredig Gradd I yw adeiladau o ddiddordeb eithriadol;
- Adeiladau Gradd II* yw adeiladau pwysig iawn o fwy na diddordeb arbennig;
- Adeiladau Gradd II yw adeiladau o ddiddordeb arbennig, sy'n golygu y dylid gwneud pob ymdrech i'w cadw.

Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (LBAP)

Agenda leol (a lunnir gan Awdurdod Lleol) gyda chynlluniau a thargedau i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth a chyflawni datblygu cynaliadwy. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd a Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymrwymedig i CGBau gan weithio gyda Llywodraeth y DI (Uwchgynhadledd y Ddaear Rio 1992) i gyflawni amcanion CGBLlau.

Dogfennau Datblygu Lleol

Mae'r rhain yn gynlluniau statudol sy'n rhoi gwybodaeth a ddefnyddir i benderfynu ar geisiadau cynllunio at ddefnydd tir yn Lloegr. Mae'r system ar hyn o bryd yn cynnwys Cynlluniau Datblygu Lleol (a lunnir gan Gyngorau Ardal ac Awdurdodau Unedol) a Chynlluniau Strwythur (a lunnir gan Gyngorau Sir a Chyngorau Metropolitan). Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn disodli'r dogfennau hyn gyda Strategaethau Gofodol Rhanbarthol (e.e. i dde-ddwyrain Lloegr) a Fframweithiau Datblygu Lleol.

Cynlluniau Datblygu Lleol

Mae'r rhain yn gynlluniau statudol sy'n rhoi gwybodaeth a ddefnyddir i benderfynu ar geisiadau cynllunio at ddefnydd tir yng Nghymru, sydd bellach yn ofynnol dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.

Cynllun Lleol Asiantaeth yr Amgylchedd (LEAP)

Cynllun anstatudol gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer basn afon (neu grŵp o is-ddalgylchoedd/dalgylchoedd llai). Mae LEAPau yn cynnig gwybodaeth sylfaen amgylcheddol a chamau gweithredu / amcanion i fasnau afonydd a, a ddisodlwyd i raddau helaeth gan Gynlluniau Rheoli Dalgylchoedd (CRhD) yr Awdurdod Afonydd Cenedlaethol (AAC).

Strategaeth Leol Rheoli'r Perygl o Lifogydd (SLRPL)

Y "Strategaeth" a luniwyd gan yr AALL mewn ymateb i'r gofyniad dan Adran 10 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr.

Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNLI)

Dynodwyd dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad 1949 gan awdurdodau lleol (sy'n rhaid bod â rheolaeth gyfreithiol dros y safle) mewn ymgynghoriad â Chyngor Cefn Gwlad Cymru ar gyfer eu nodweddion bywyd gwyllt neu ddaearegol sydd o bwysigrwydd lleol. Maent yn gyffredinol ar gyfer addysg a hamdden yn ogystal â chadwraeth. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan Cyngor Cefn Gwlad Cymru: <http://www.ccw.gov.uk>

Am fwy o wybodaeth ewch i wefan English Nature:

http://www.english-nature.org.uk/special/lnr/lnr_search.asp

— M —

'Infertebrat Macro'

Infertebrat nad oes angen microsgop i'w weld.

Macroffyttau

Unrhyw blanhigion y gellir eu gweld â'r llygaid. Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys planhigion dyfrol uwch ynghyd â grwpiau o alga y gellir gweld eu bod yn bennaf o un rhywogaeth.

Prif afon

Fel arfer, prif afonydd yw nentydd ac afonydd mwy, ond maent hefyd yn cynnwys cyrsiau dŵr sydd o bwysigrwydd draenio strategol. Diffinnir prif afon fel cwrs dŵr a ddangosir ar brif fap afon, a gall gynnwys unrhyw adeiledd neu offer neu'n rheoli neu'n rheoleiddio llif y dŵr, i mewn neu allan o'r brif afon. Mae ein pwerau i gynnal gwaith amddiffyn rhag llifogydd yn berthnasol i brif afonydd yn unig. Dynodir prif afonydd gan Lywodraeth Cymru a Defra.

Cynllun Digwyddiad Mawr

Gellir diffinio Cynllun Digwyddiad Mawr fel: Cynllun sy'n disgrifio'r trefniadau ymateb amlasiantaeth ar gyfer delio â llifogydd mawr, sy'n digwydd mewn amgylchiadau eithriadol, mewn lleoliadau â phoblogaeth sylweddol, lle ystyrir bod angen mesurau arbennig.

Ffynhonnau Dŵr Uchder Cyfartalog (MHWS)

Cyfartaledd llanwon ffynhonnau, sy'n digwydd bob pythefnos.

Y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (MAFF)

Rhagflaenydd Defra.

Morffoleg

Astudiaeth ffurf neu siapiau e.e. siâp sianeli afonydd a sut maent yn newid dros amser drwy brosesau erydiad a gwaddoli.

— N —

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff cynrychioliadol â phwerau deddfwriaethol mewn meysydd datganoledig. Mae ganddo 60 o aelodau etholedig ac mae'n cwrdd yn y Senedd.
<http://www.cymru.gov.uk/organipo/index.htm>

Rôl Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw craffu a monitro Llywodraeth Cymru.

Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr

Mae'r Undeb hwn yn cynrychioli ffermwyr a thyfwyr Cymru a Lloegr. Ei amcan canolog yw hyrwyddo amaeth a garddwriaeth lwyddiannus a chymdeithasol gyfrifol, gan sicrhau hyfywedd hirdymor cymunedau gwledig. UCA Cymru sy'n cynrychioli ffermwyr Cymru.

Cronfa ddata Genedlaethol Amddiffynfeydd rhag Llifogydd a'r Arfordir

Bwriad y Gronfa Ddata yw fod yn brif ffynhonnell wybodaeth am amddiffynfeydd rhag llifogydd. Y nod yw y dylai'r wybodaeth ym mhob ased fod yn gywir yn ofodol a chynnwys math, lleoliad yr amddiffynfeydd, amcanbris eu hamnewid, safon dylunio, oedran, dyddiad arolygu nesaf, uchder a hyd. Nod y gronfa ddata yw cynnwys yr holl asedau amddiffyn rhag llifogydd gan gynnwys y rhai y mae awdurdodau lleol yn gyfrifol amdanynt.

System Genedlaethol Rhagfynegi Llifogydd

Fel rhan o raglen genedlaethol ehangach, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn datblygu system gyfrifiadurol y gellir gweithredu modelau rhagfynegi llifogydd amrywiol ohonynt. Mae gan y system hon y posibiliad o wella gallu rhagfynegi llif a llifogydd i bob ardal sydd mewn perygl o lifogydd afonol, llanwol neu arfordirol yn y rhanbarth.

Cofnod Henebion Cenedlaethol a Chofnodion Amgylcheddol Hanesyddol

Yng Nghymru, cynhelir Cofnodion Amgylcheddol Hanesyddol gan nifer o Ymddiriedolaethau Archeolegol rhanbarthol. Bydd y Cofnod Cofebau Cenedlaethol yn ffynhonnell data polygon GIS cyfredol i adeiladau hanesyddol, henebion, parciau a gerddi hanesyddol ac ati. Mae'r data ar gael at ddibenion Asesu Amgylcheddol. Mae Cofnodion Safleoedd a Henebion yn cynnwys gwybodaeth am weddillion archeolegol, tra bod Cofnodion Amgylcheddol Hanesyddol (y mae'r rhan fwyaf o Gofnodion Safleoedd a Henebion Ymddiriedolaethau ac awdurdodau lleol yn newid atynt) yn ceisio cynnig gwybodaeth am yr holl asedau amgylcheddol hanesyddol hysbys.

Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG)

Dynodir Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 neu Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) yn bennaf, neu gadwraeth natur, ond gallant hefyd gynnwys safleoedd â nodweddion daearegol neu ffisegol penodol. Fe'u sefydlwyd i ddiogelu'r ardaloedd â'r cynefinoedd bywyd gwylt neu ffurfiadau daearegol pwysicaf ym Mhrydain, ac fel llefydd i gynnal ymchwil wyddonol. Cyngor Cefn Gwlad Cymru sydd fel arfer yn berchen arnynt neu'n eu prydlesu, neu'n cael eu rheoli'n unol â chytundeb Gwarchodfa Natur â'r tîrfeddiannwr neu'r meddiannwr.

Parc Cenedlaethol

Deillir dyletswyddau a phwerau Awdurdod Parc Cenedlaethol o nifer o Ddeddfau Seneddol a datganiadau Polisi Llywodraeth, yn fwyaf diweddar yn Neddf yr Amgylchedd (1995). Dibenion statudol Parciau Cenedlaethol, y mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol ddyletswydd i'w cyflawni, yw:

- cadw a gwella harddwch, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol ardal;
- hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig yr ardal.

Wrth gyflawni'r dibenion hyn, mae gan Awdurdodau Parc Cenedlaethol ddyletswydd i feithrin lles economaidd a chymdeithasol y cymunedau yn y Parc Cenedlaethol, ond heb wario arian sylweddol wrth wneud hynny. I gael rhagor o wybodaeth am Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ewch i: <http://www.anpa.gov.uk/>

Yr Awdurdod Afonydd Cenedlaethol (AAC)

Roedd yr Awdurdod Afonydd Cenedlaethol yn un o'r tri chorff a ragflaenodd Asiantaeth yr Amgylchedd.

Strategaeth Genedlaethol

Y "Strategaeth Genedlaethol Rheoli'r Perygl o Lifogydd ac Erydiad Arfordirol yng Nghymru" a luniwyd gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i'r gofyniad dan Adran 8 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr.

Strategaeth Eogiaid Genedlaethol

Ni sydd bellach yn gweithredu'r Strategaeth Eogiaid Genedlaethol a lansiwyd gan yr Awdurdod Afonydd Cenedlaethol ym mis Chwefror 1996. Mae'n nodi'r amcanion ar gyfer rheoli pysgodfeydd yng Nghymru a Lloegr i gadw stocia pysgod at y dyfodol gan ddiogelu ecsbloetio cynaliadwy a chydabod gwerth economaidd pysgodfeydd. Fe'i gweithredir drwy Gynlluniau Gweithredu Eogiaid sy'n ddogfennau lleol a lunnir fesul dalgylch.

Rhwydwaith Natura 2000

Rhwydwaith Ewropeaidd o safleoedd a ddiogelir sy'n cynrychioli'r ardaloedd o'r gwerth uchaf i gynefinoedd naturiol a rhywogaethau planhigion ac anifeiliaid sy'n brin, dan fgythiad neu'n agored i niwed yn y Gymuned Ewropeaidd. Bydd rhwydwaith Natura 2000 yn cynnwys dau fath o ardal. Gall ardaloedd gael eu dynodi fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau) pan fônt yn cynnal cynefinoedd prin, dan fgythiad neu agored i niwed naturiol a rhywogaethau o blanhigion neu anifeiliaid (heblaw am adar). Pan fo ardaloedd yn cynnal nifer sylweddol o adar gwyllt a'u cynefinoedd, gallant ddod yn Ardaloedd Gwarchod Arbennig (AGAau). Dynodir ACAau dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd a dosberthir AGAau dan y Gyfarwyddeb Adar. Gall rhai ardaloedd pwysig iawn fod yn Ardal Cadwraeth Arbennig ac yn Ardal Gwarchodaeth Arbennig.

Natural England

Mae Natural England yn gweithio yn Lloegr i bobl, llefydd a natur, i wella bioamrywiaeth, tirweddau a bywyd gwyllt mewn ardaloedd gwledig, trefol, arfordirol a morol; gan hyrwyddo mynediad, hamdden a lles cyhoeddus, a chyfrannu at y ffordd mae adnoddau naturiol yn Lloegr yn cael eu rheoli fel bod modd eu mwynhau'n awr ac yn y dyfodol.

Cyfoeth Naturiol Cymru

O fis Ebrill 2013, sefydlodd Llywodraeth Cymru un corff amgylcheddol i Gymru, Cyfoeth Cenedlaethol Cymru. Cyfunodd swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru.

Cynlluniau Anstatudol

Ers tua 1990, bu nifer o fentrau cynlluniau anstatudol sy'n delio'n benodol â materion arfordirol. Mae gan nifer ohonynt bolisiau a chynigion sydd â goblygiadau i'r defnydd o dir. Ymhlith y cynlluniau anstatudol mae: Cynlluniau Rheoli Llifogydd Dalgylchoedd, Cynlluniau Rheoli'r Arfordir, CHaMPs, cynlluniau rheoli aberoedd, cynlluniau rheoli basnau afonydd, Cynlluniau Lleol Asiantaeth yr Amgylchedd a Chynlluniau Rheoli Lefel y Dŵr.

— O —

Storio All-lein / Ar-lein

Storio all-lein: creu'n fwriadol ardal(oedd) llifogydd ar wahân ger afon, yn gysylltiedig â'r afon drwy lifddor, cored neu ddull rheoli arall. Yn dibynnu ar amllder llifogydd, gellir cynnal rhan neu'r cyfan o ardal storio llifogydd at ddibenion ffermio (pori neu aredig) neu i fod o fudd i fywyd gwyllt neu'r amgylchedd. Ar-lein: cysylltu afonydd ac ardaloedd storio'n uniongyrchol drwy waredu torlannau, gan felly greu ardal wleib barhaol sy'n llenwi pan fydd llifogydd. Mae llifogydd mewn ardaloedd ar-lein yn amlach, ac mewn ffordd sy'n rheoli colledion yn fwy na cholledion all-lein, sy'n golygu eu bod yn llai effeithlon ac o ganlyniad fod angen ardal fwy ar gyfer yr un cyfnod.

Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog

Adran flaenorol y llywodraeth ganolog oedd yn gyfrifol dros bolisi cynllunio a materion cysylltiedig. Fe'i disodlwyd gan yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol.

Y Swyddfa Gwasanaethau Dŵr

Corff rheoliadol gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr.

Cyrsiau Dŵr cyffredinol

Cyrsiau dŵr nas dynodir yn 'brif afonydd'. Mae gan awdurdodau gweithredu, fel Awdurdodau Lleol, bwerau a dyletswyddau i gynnal cyrsiau dŵr cyffredinol yn eu ffiniau. Mae perchenogion afonydd (tirfeddianwyr) yn gyfrifol am gynnal cyrsiau dŵr cyffredinol.

Ordnance Datum Newlyn (ODN)

Y system gyfesur fertigol draddodiadol sy'n cynnwys datum mesur llanwol yn ei darddle (0,0) a leolir yn Newlyn (Cernyw) a Ffrâm Cyfeirnod Tirolo a arsylwir gan lefel wirod rhwng 200 o feincnodau sylfaenol ledled Prydain. Mae gan bob meincnod uchder fertigol yn unig (nid uchder elipsoid na lleoliad llorweddol cywir). Mae'r system gyfesur yn bwysig oherwydd y'i defnyddir i ddisgrifio lleoliad fertigol nodweddiadol ar fapiau Prydain (e.e. uchelfannau a chyfuchlinau) o ran ei uchder uwch lefel gyfartalog y môr.

Gollyngfa

Y mae lle liffa afon, draen neu garthffos pan lifa i'r môr, i lyn ac ati.

— P —

Athraidd

Gallu gael ei dreiddio gan ddŵr.

Ffytoplancton

Plancton yw'r enw cyffredinol am organebau sy'n drifftio mewn unrhyw ddyfnder yn y môr neu mewn dŵr croyw. Ffytoplancton yw'r rhan blanhigaidd o'r plancton.

Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004)

Deddfwriaeth a hyrwyddwyd gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, a ddiwygiodd y fframwaith cynllunio trefol a phrynu gorfodol ym Mhrydain Fawr. Diwygiodd ac adalwodd rannau sylweddol o'r deddfwriaeth cynllunio a phrynu gorfodol gan gyflwyno diwygiadau fel diddymu Cynlluniau Lleol a Chynlluniau Strwythurol, a'u disodli gan Fframweithiau Datblygu Lleol.

Datganiad Polisi Cynllunio 25: Datblygu a'r Perygl o Llifogydd (PPS25) - Lloegr yn Unig

Dwi'm yn meddwl bod angen hwn.

Polisi Cynllunio Cymru

Mae Polisi Cynllunio Cymru'n nodi polisiau cynllunio'r defnydd o dir gan Lywodraeth Cymru. Fe'i hategir gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol. Gyda'i gilydd maent yn cynnwys polisi cynllunio cenedlaethol y dylai awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru eu hystyried wrth baratoi cynlluniau datblygu unedol a chynlluniau datblygu lleol.

Arfarniad Polisi

Proses o werthuso polisiau penodol yn erbyn amcanion dalgylch a senarios newid dalgylchoedd.

Uned Polisi

Ardaloedd mewn ardal Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch pan fo'r un polisiau rheoli llifogydd yn berthnasol. Mae iddynt nodweddion tebyg.

Astudiaeth Cyn Dichonolrwydd

Astudiaeth ragarweiniol i benderfynu ar pa un a oes angen astudiaeth o ddichonoldeb neu arfarniad project.

Cam Gweithredu â Blaenoriaeth

Anghenion brys sydd angen sylw â blaenoriaeth (e.e. ni ddylai atgyweirio brys neu welliannau unigol y dylid eu gwneud ar unwaith aros nes i'r broses Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch gael ei chwblhau).

Asesiad Rhagarweiniol o'r Perygl o Llifogydd (ARPL)

Asesiad cychwynnol o'r perygl lleol o lifogydd fel sy'n ofynnol dan Reoliadau Perygl o Llifogydd 2009.

Tebygolrwydd o Ddigwydd

Y tebygolrwydd o lifogydd yn digwydd i'r graddau a ddisgwylir, neu'n fwy na hynny, mewn blwyddyn (a fynegir fel arfer fel cyfnod dychwelyd – e.e. 1% AEP).

Ardaloedd lle ceir problemau

Ardaloedd yn y dalgylch a nodir fel rhan sydd mewn perygl sylweddol o lifogydd.

Partneriaid Proffesiynol

Cyrff, asiantaethau a sefydliadau proffesiynol eraill rydym yn gweithio gyda nhw

Rhaglen o Fesurau

Rhestr neu amserlen o gamau gweithredu y bwriedir eu cyflawni

Arfarniad Project

Y broses o ddiffinio amcanion, archwilio opsiynau a gwerthuso costau, buddion, risgiau, cyfleoedd ac ansicrwydd cyn dod i benderfyniad.

Adroddiad Arfarnu Project (AAP)

Noda'r ddogfen y broses arfarnu a'r achos busnes dros broject amddiffyn rhag llifogydd, hyd at bwynt lle ceir cymeradwyaeth gan yr awdurdod ariannu. O ran cynlluniau Asiantaeth yr Amgylchedd, mae angen cymeradwyaeth fewnol, ond bydd angen i Awdurdodau Lleol gael caniatâd gan Lywodraeth Cymru.

Tîm Project

Yn gyfrifol am lunio'r Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch, sy'n cynnwys ein staff a gynorthwyir gan ymgynghorwyr.

— Q —

QMED

Llifogydd llin ganol magsima blynyddol sydd â chyfle o mwy na 0.5 o ddigwydd, a chyfnod ailadrodd o ddwy flynedd.

— R —

Safle Ramsar

Mae Confensiwn Ramsar ar Wlyptiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol, yn arbennig Cynefinoedd Adar Dŵr (1971) yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU hyrwyddo defnyddio gwlyptiroedd mewn ffordd ddoeth ac i ddiogelu gwlyptiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol. Mae hyn yn cynnwys dynodi rhai ardaloedd yn safleoedd Ramsar, lle bo'u pwysigrwydd o ran cadwraeth natur (yn enwedig o ran adar dŵr) a chynaliadwyedd amgylcheddol yn bodloni meini prawf penodol. Caiff

safleoedd Ramsar ddynodiad SoDdGA dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CRoW) 2000 a Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd). Mae rhagor o wybodaeth ar wefan gwlyptiroedd Confensiwn Ramsar: <http://www.ramsar.org/>

Derbynnnydd

Ased, pobl neu amgylcheddol, adnodd diwylliannol neu dirwedd, a allai gael ei effeithio gan lifogydd.

Parciau a gerddi cofrestredig

Mae CADW yn cynnal Cofrestr Parciau a Gerddi genedlaethol o safleoedd o ddiddordeb hanesyddol yng Nghymru. Nod y gofrestr yw sicrhau bod y nodweddion sy'n creu'r tirweddau hyn o bwysigrwydd cenedlaethol yn cael eu diogelu, ond ni chânt ddiogelwch ychwanegol. Fe'u graddir yn yr un modd ag adeiladau cofrestredig, gyda Gradd 1 y rhai o bwysigrwydd mwyaf a rhyngwladol (c10%), G2* o safon o diddordeb hanesyddol eithriadol, a G2 o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae llawer o rai eraill fel G3, ar restr a gedwir gan awdurdodau lleol ac a gynhelir gan yr ymddiriedolaethau gerddi. Mae'r rhain o bwysigrwydd rhanbarthol ac nid ydynt yn berthnasol i strategaeth lefel uchel.

Pwyllgorau Llifogydd ac Arfordir Rhanbarthol

Pwyllgor Asiantaeth yr Amgylchedd, sy'n gyfrifol am gydsynio cynlluniau tymor canolig a hirdymor a chynlluniau gweithredu i Fwrdd a Phrif Swyddfa'r Asiantaeth. Mae'n monitro ac yn adrodd ar gynnydd. Unig Bwyllgor Cymru yw grŵp Rheoli'r Perygl o Lifogydd Cymru.

Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru

Mae gan CADW Gofrestri o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru fel modd i nodi, a rhoi gwybodaeth am y tirweddau pwysicaf a mwyaf cyflawn yng Nghymru. Ystyrir y tirweddau hyn o bwysigrwydd cenedlaethol. Nod dynodi yw roi pwys i faterion tirwedd hanesyddol ac i helpu i reoli newid yn y dirwedd. Mae dau ddynodiad: 'Diddordeb Hanesyddol Eithriafol' i dirweddau helaeth ac 'O ddiddordeb Hanesyddol Arbennig' i ardaloedd llai. Dylid rhoi ystyriaeth gydradd i'r ddau gategori yn y broses o wneud penderfyniadau.

Cronfa Ddŵr

Llyn artiffisial lle cesglir dŵr a'i storio nes bod ei angen. Gellir eu defnyddio i ddyfrhau, hamddena, cyflenwi dŵr i anghenion trefol, cynhyrchu ynni neu reoli llif dŵr.

(ddim am roi hwn – egluro yn y ddogfen yn hytrach na them)

Riff

Ardal fas mewn afon lle mae'r swbstrad yn cynnwys graen ac mae'r afon yn llifo'n gynt.

Afonol

Tir neu gynefin sy'n gysylltiedig â glannau afon neu nant neu sydd wrthynt.

Perchenogion afonol

Pobl sydd â hawliau neu rwymedigaethau dan gyfraith gyffredin o ran cyrsiau dŵr.

Risg

Yn mesur digwyddiad posibl o ran tebygolrwydd ac effaith. Yng nghyd-destun Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, mae'r digwyddiadau dan sylw'n argyfyngau.

Asesiad Risg

Proses strwythuredig o archwilio i nodi digwyddiadau a allai fod yn rhai sylweddol, asesu'r tebygolrwydd y byddant yn digwydd ac effeithiau hynny ac yna'u cyfuno i greu asesiad risg cyffredinol i lywio penderfyniadau a chamau gweithredu pellach

Asesu Risg ar gyfer Cynllunio Strategol (ARCS)

Nod ARCS yw datblygu a dangos dulliau ategol o ddelio â systemau amddiffynfeydd rhag llifogydd. Ariennir RASP gan Asiantaeth yr Amgylchedd o fewn Rhaglen ar y Cyd Ymchwil a Datblygu Amddiffynfeydd rhag Llifogydd ac Amddiffynfeydd Arfordirol yr Asiantaeth / Defra wrth Werthuso Risg a Deall Ansicrwydd.

Rheoli Risg – unrhyw beth a wneir at ddiben dadansoddi, asesu a lleihau risg.

Awdurdod Rheoli Risg – Awdurdod rheoli risg yng Nghymru, a diffinnir dan Adran 6 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 fel Asiantaeth yr Amgylchedd (Cyfoeth Naturiol Cymru bellach), awdurdoda arweiniol llifogydd lleol, cyngor dosbarth i ardal lle nad oes awdurdod unedol, Bwrdd Draenio Mewnol ar gyfer ardal ddraenio fewnol sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru a chwmni dŵr sy'n arfer swyddogaethau mewn ardal yng Nghymru.

Llifogydd afonydd -

Mae hyn yn digwydd pan fo lefel y dŵr mewn sianel afonol yn drech na gallu'r sianel i ddal y dŵr hwnnw.

Rheoli Basn Afon

Cynnal cydbwysedd rhwng gweithgareddau a galw dynol a statws ecolegol a hydrolegol mewn dalgyrch basn afon. Rhaid deall holl elfennau rheoli dalgyrch a'r ddeddfwriaeth sy'n eu cymell fel Fframwaith Dŵr yr UE a Chyfarwyddebau Cynefinoedd.

Cynllun Rheoli Basn Afon

Rhan o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a ddaeth i rym yn 2009. Maent yn disgrifio nodweddion unigryw pob basn afon a'r pwysau y mae'n ei wynebu o du llygredd a gorddefnydd. Mae

Asiantaeth yr Amgylchedd wedi llunio rhaglen o fesurau sy'n nodi cyfarwydddebau'r CFfD i bob basn afon.

Arolwg o Gynefinoedd Afonydd

Mae'r arolygon yn cynnal dull rhannol wrthrychol o asesu nodweddion ac ansawdd ffisegol cynefinoedd afonol. Mae'r system yn defnyddio dulliau arolygu cae safonol gyda rheolaethau achredu llawn, cronfa ddata gyfrifiadurol i sicrhau dadansoddiadau cyflym, ac mae allbynnau ar gyfer mynegi ansawdd cynefinoedd ac addasu sianeli'n artiffisial. Fodd bynnag, datblygwyd y dull ac fe'i profwyd mewn rhannau o afonydd, heb ddiffiniad clir o'r pwynt i lawr yr afon lle mae'r nodweddion morffolegol a'r prosesau sy'n dylanwadu ar gynefinoedd ac amodau ecoffisiolegol yn cael eu heffeithio gan lifoedd llanwol. Ewch i'r wefan am ragor o wybodaeth: www.environment-agency.gov.uk/gui/dataset3/3leg.htm

(afonol)

Amcan Ansawdd Afon (AAA)

System ddsbarthu a ddatblygwyd i fonitro dyletswydd Asiantaeth yr Amgylchedd i gyflawni safonau ansawdd dŵr penodol, fel y'u pennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Ar hyn o bryd, dosberthir AAA drwy System Ddsbarthu Ecosystemau Afonydd sy'n seiliedig ar gyfres o baramedrau ansawdd dŵr cemegol a diffinnir yng Nghyfarwyddeb Pysgod Dŵr Croyw'r CE (78/659/EEC). Nid oes sail gyfreithiol benodol i'r Amcan Ansawdd Afon.

Dŵr ffo

Dŵr glaw sy'n mynd i nentydd, afonydd ac ati ac sy'n llifo i'r môr.

— S —

Cynllun Gweithredu Eogiaid (CGE)

Cynllun lleol i reoli eogiaid, a baratwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Senario

Sefyllfa bosibl yn y dyfodol, a all ddylanwadu naill ai ar brosesau llifogydd dalgylchoedd neu ymatebion i lifogydd. Bydd senarios fel arfer yn cynnwys cyfuniad o'r canlynol: datblygu trefol (yn y dalgylch a choridor yr afon); newid yn y defnydd o dir ac arfer rheoli tir (gan gynnwys dynodiadau amgylcheddol yn y dyfodol); neu newid yn yr hinsawdd.

Henebion Cofrestredig

Er mwyn gwarchod safleoedd archeolegol ar gyfer y cenedlaethau a ddêl, gall y rhai mwyaf gwerthfawr gael eu "rhestru". Hon yw'r broses o roi diogelwch cyfreithiol i safleoedd a henebion o bwysigrwydd cenedlaethol drwy eu gosod ar gofrestr. CADW sy'n gwneud y gwaith hwn yng Nghymru. Mae'r ddeddfwriaeth gyfredol, sef Deddf Henebion a Mannau Archaeolegol 1979, yn sail i system ffurfiol o Ganiatâd Heneb Gofrestredig ar gyfer unrhyw waith ar heneb gofrestrdig.

Adroddiad Cwmpasu

Adroddiad a fydd yn casglu gwybodaeth am nodweddion dalgylchoedd a'r perygl o lifogydd. Bydd yn profi pa mor sensitif yw'r ardal Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch i newidiadau yn y dyfodol o ran hinsawdd a'r defnydd o dir ac yn datblygu amcanion dalgylch drafft.

Adran 105

Yr Adran yn y Ddeddf Adnoddau Dŵr y cynhelir gwaith Mapio Gorlifdiroedd oddi tani. Lefel A oedd y modelu cychwynnol yn Adran 105, tra bod modelu lefel B wedi'i gyflawni i graffu ar feysydd penodol.

Gwaddodi

Y broses o waddod yn dyddodi.

Carthffos

Dyfrbibell artiffisial, fel arfer o dan y ddaear, i gludo carthffosiaeth (carthffos fudur) neu ddŵr glaw (carthffos stormydd) neu'r ddwy (carthffos gyfunol).

Llifogydd Carthffos

Mae llifogydd carthffosydd yn digwydd pan fydd carthffos yn llawn ac yn gorlifo y tu allan i adeilad wrth dyllau carthffos neu ddraeniau mewn gerddi (sef llifogydd allanol) neu hyd yn oed y tu mewn i adeiladau o dai bach a draeniau (sef llifogydd mewnol).

Cynlluniau Rheoli Traethlin

Mae'r rhain yn asesiadau mawr o'r peryglon sy'n gysylltiedig â phrosesau arfordirol sy'n helpu i leihau'r peryglon hyn i bobl a'r amgylcheddau datblygedig, hanesyddol a naturiol. Fe'u paratwir gan Asiantaeth yr Amgylchedd neu awdurdodau lleol morol, yn unigol neu fel rhan o grwpiau amddiffynfeydd arfordirol.

Cynllun Taliadau Sengl (CTS)

Cynllun amaeth-amgylchedd a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2005 ac a ddisodlodd y rhan fwyaf o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, sef cymorthdaliadau a wnaed i ffermwyr yn flaenorol. Rhaid i ffermwyr sy'n hawlio CTS fod wrthi'n ffermio a/neu'n cynnal y tir mewn Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da.

Safle o Ddiddordeb Cadwraeth Cenedlaethol (SoDdCC)

Dynodir y rhain yn lleol drwy eu cynnwys mewn cynlluniau datblygu lleol neu unedol oherwydd eu diddordeb cadwraeth rhanbarthol neu leol. Fel arfer, mabwysiedir y safleoedd hyn gan awdurdodau lleol at ddibenion cynllunio ond nid ydynt wedi'u diogelu'n statudol.

Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SDdGA)

Safleoedd a nodir dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000) am eu fflora, ffawna, a'u nodweddion daearegol neu

ffisiograffigol. Mae dynodiad SoDdGA yn cynnwys rhestr o weithgareddau a allai fod yn niweidiol i ddiddordeb arbennig y safle. Disodlwyd Adran 28 Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 (darpariaethau o ran SDdGAau) gan Adran 28 newydd yn Atodlen 9 y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. Mae'r Adran 28 newydd yn diogelu SDdGAau llawer mwy. Dynodi pob ACA, AGA a safle Ramsar yn SDdGA. Am fwy o wybodaeth ewch i wefan y Cyngor Cefn Gwlad: <http://www.ccw.gov.uk/>

Mynegai Agoredrwydd Cymdeithasol i Lifogydd

Gan gydnabod y gall llifogydd gael effaith wahanol ar grwpiau gwahanol i bobl, mae'r mynegai'n cymryd data o ystadegau poblogaeth fel oedran, anabledd iechyd, statws rhieni, ac amddifadedd ariannol i gynnig mynegai y gellir ei fapio'n erbyn y tebygolrwydd y bydd llifogydd. Gellir ei ddefnyddio ar y cam cynllunio ar raddfa fawr i ddangos pa ardaloedd neu gymunedau a allai fod yn arbennig o agored i effeithiau llifogydd.

Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), Darpar Ardal Cadwraeth Arbennig (dACA)

Safle o bwysigrwydd rhyngwladol i gynefinoedd a/neu rywogaethau, a ddynodir yn unol â gofynion 'Cyfarwyddeb Cynefinoedd' (92/43/EEC) y Gymuned Ewropeaidd. Diogelir ACAau am eu cynefinoedd a'u rhywogaethau (ac eithrio adar) o bwysigrwydd rhyngwladol. Mae dACA yn safle sy'n symud at fod yn ACA, ond mae ganddo'r un statws â safle a gadarnheir. Caiff ACAau a dACAau hefyd ddynodiad SoDdGA dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 a Deddf Bywyd Gwylt a Chefn gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd). Mae rhagor o wybodaeth ar wefan y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur: http://www.jncc.gov.uk/ProtectedSites/SACselection/UK_SAC_map.htm

Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA), Darpar Ardal Gwarchodaeth Arbennig (dAGA)

Safle o bwysigrwydd rhyngwladol i adar, a ddynodir yn ôl gofynion Cyfarwyddeb Adar y CE. Safle a gynigir yw dAGA, ond mae ganddo'r un statws â safle a gadarnheir. Dynodir AGAau am eu pwysigrwydd rhyngwladol o ran bridio, bwydo a chlwydo i rywogaethau adar. Rhaid i'r Llywodraeth ystyried cadwraeth AGAau yn ei holl benderfyniadau cynllunio. Caiff AGAau a dACAau hefyd ddynodiad SoDdGA dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 a Deddf Bywyd Gwylt a Chefn gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd). I gael rhagor o fanylion ewch i wefan y Comisiwn Ewropeaidd http://europa.eu.int/comm/environment/nature/spa/intro_en.pdf a gwefan y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur yn <http://www.jncc.gov.uk/ukspa/sites/spalistA-C.htm>

Gwasgfa

O ran gwasga arfordirol, hwn yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio beth sy'n digwydd i gynefinoedd arfordirol sydd rhwng ffin sefydlog tua'r tir, fel mur morol, a lefel môr sydd ar godi a/neu ragor o stormydd. Mae gwasgfa ar y cynefin rhwng y ddau, a gall ei faint a'i safon ddirywio.

Safon Diogelwch

Safon yr amddiffynfa rhag llifogydd mewn lleoliad neu gymuned, a fynegir drwy y cyfle y bydd llifogydd mewn ardal neu'n trechu amddiffynfeydd. Mae Safon Diogelwch o 0.1% (cyfle 1/100 o ddigwydd mewn unrhyw flwyddyn) yn golygu na fydd yr ardal yn cael ei heffeithio gan lifogydd oni ddigwyddo hyn neu rywbeth gwaeth.

Canran Safonol y Dŵr Ffo

Cyfnewidyn di-ddimensiwn (0-100%) sy'n cynrychioli canran y dŵr glaw sy'n achosi'r cynnydd byrdymor yn llif man all-lifo'r dalgylch ar ôl storm.

Grŵp Llywio

Mae'r Grŵp Llywio'n goruchwyllo llunio'r Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch ac mae'n cynnwys ein staff a staff o awdurdodau gweithredu eraill neu grwpiau pwysig eraill â diddordeb, lle y bo'n briodol.

Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)

Gofyniad cyfreithiol yn y DU i rai cynlluniau a rhaglenni, a ragnodir gan Gyfarwydddeb yr AAS (2001/42/EC) i gyflawni Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS). Gweithredir y Gyfarwydddeb AAS yng Nghymru drwy Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (OS 2004 Rhif 1656, W170). Diben yr AAS yw cynnig mesurau diogelwch cadarn i'r amgylchedd, i sicrhau integreiddiad ystyriaethau amgylcheddol wrth baratoi a mabwysiadu cynlluniau a rhaglenni ac i gyfrannu at hyrwyddo datblygu cynaliadwy a mesurau diogelu amgylcheddol.

Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol (ACLIS) – Cymru'n unig

Asesiad eang o'r perygl o lifogydd a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol i gefnogi a llywio'r gwaith o greu Cynlluniau Datblygu Lleol.

Is-ddalgylch

Naill ai dalgylch llai o fewn un mwy (h.y. yr ardal a ddraenir gan lednant y prif ddalgylch) neu ardal o'r dalgylch a nodwyd at ddiben gwella'r broses Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch.

Llifogydd Dŵr Wyneb

Yn y cyd-destun trefol, mae hyn fel arfer yn golygu'r dŵr wyneb ffo sy'n gorlethu systemau draenio. Yn y cyd-destun gwledig, mae'n cyfeirio at pan fydd dŵr wyneb ffo yn achosi llifogydd.

Dŵr wyneb ffo

Mae hyn yn digwydd pan fydd mwy o ddŵr glaw yn disgyn na all y ddaear neu'r pridd ymdopi ag ef.

Cynaliadwyedd

Cysyniad sy'n delio ag effaith dyn ar yr amgylchedd drwy ddatblygiadau. Datblygu cynaliadwy yw datblygiad sy'n diwallu anghenion ar hyn o bryd heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau yn y dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain (diffiniad Bruntland, 1987). Yn achos y perygl o lifogydd, mae cynaliadwyedd yn ymwneud â faint mae opsiynau o ran rheoli'r perygl o lifogydd yn osgoi ymlynu cenedlaethau'r dyfodol i opsiynau anhyblyg neu ddudfawr o ran amddiffynfeydd rhag llifogydd. Mae hyn fel arfer yn cynnwys ystyried amddiffynfeydd eraill, a datblygiadau tebygol, ynghyd â phrosesau o fewn dalgylch. Dylai hefyd ystyried e.e. y galw hirdymor am ddeunydd anadnewyddadwy.

Arfarniad Cynaliadwyedd

Asesiad sy'n ehangach nag Asesiad Amgylcheddol Strategol. Mae'n ystyried effeithiau cymdeithasol ac economaidd - yn ogystal â rhai amgylcheddol - strategaeth neu gynllun, gan eu gwerthuso o ran nodau datblygu cynaliadwy, dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.

Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau)

Cyfres o arferion rheoli a strwythurau rheoli a gynlluniwyd i leihau effaith dŵr wyneb o ran y perygl o lifogydd a'r amgylchedd. Ymhlith y technegau sy'n cael eu defnyddio mae deunyddiau hydraiddd a systemau amsugno i ymestyn hyd yr amser y mae'n ei gymryd i ddŵr fynd i'r rhwydwaith afonydd.

Sustrans

Elusen trafndiaeth gynaliadwy sy'n gweithio ar brojectau ymarferol i annog pobl i gerdded, beicio a defnyddio trafndiaeth gynaliadwy i leihau traffig moduron a'r effeithiau andwyol a gânt.

— T —

Nodyn Cyngor Technegol 15 (TAN 15): Datblygu a'r perygl o lifogydd

Un o gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru i roi cyngor i awdurdodau cynllunio lleol a datblygwyr. Ar y cyd â Pholisi Cynllunio Cymru, mae'n rhoi cyngor ar ddatblygu a'r perygl o lifogydd gan fod y rhain yn ymwneud ag egwyddorion cynaliadwyedd ac mae'n cynnig fframwaith lle gellir mynd i'r afael â pheryglon o lifogydd o afonydd a'r môr ac o ddŵr ffo ychwanegol o ddatblygiadau. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan Llywodraeth Cymru: [Llywodraeth Cymru | Nodyn Cyngor Technegol \(TAN\) 15: Datblygu a'r Perygl o Lifogydd \(2004\)](#)

Telemetreg

Y ffordd y caiff signal data ei drosglwyddo i ganolfan rheoli o bell drwy'r rhwydwaith ffonau.

Y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad

Gyda bron canrif o brofiad, y Gymdeithas yw'r prif sefydliad dros ddiogelu buddiannau'r rhain sy'n gyfrifol am dir, eiddo a busnesau yng Nghymru a Lloegr wledig. [Y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad](#)

Topograffeg

Nodweddion ffisegol ardal ddaearyddol.

Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cymru

Polisi Trafnidiaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn gyfrifol am gynnal a gwella cefnffyrdd a thraffyrdd yng Nghymru. Mae'n gweinyddu grantiau i awdurdodau lleol a chyrrff eraill i ariannu ystod o gynlluniau trafndiaeth cyfalaf a gwasanaethau trafndiaeth.

— U —

Rhaglen Effeithiau Newid Yn Yr Hinsawdd y DU (UKCIP)

Datblygodd UKCIP02 senarios o ran allyriadau yn y dyfodol i astudio newid yn yr hinsawdd. Fe'u diweddarwyd yn 2005 ac yn 2008. Ariennir y rhaglen gan yr Adran dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) ac mae wedi'i modelu gan Ganolfan Hadley dros Ragweld ac Ymchwilio'r

Hinsawdd (rhan o'r Swyddfa Dywydd) ac mae'n elfen graidd o asesiad o effeithiau cenedlaethol a rhanbarthol yr hinsawdd ar y DU.

Cynlluniau Datblygu Unedol

Mae'r rhain yn gynlluniau statudol sy'n rhoi gwybodaeth a ddefnyddir i benderfynu ar geisiadau cynllunio at ddefnydd tir. Maent yn mynd ochr yn ochr â Chynlluniau Lleol (a lunnir gan Gyngorau Dosbarth ac Awdurdodau Unedol) a Chynlluniau Strwythur (a lunnir gan Gyngorau Sir a Chyngorau Metropolitaidd). Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn disodli'r holl ddogfennau hyn â'r Fframweithiau Datblygu Lleol, i gynnwys Cynlluniau Datblygu Lleol sydd wrthi'n cael eu cwblhau gan Awdurdodau Lleol ledled Cymru.

— W —

Cynllun Gofodol Cymru

Mae Cynllun Gofodol Cymru yn gynllun 20 mlynedd ar ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru. Aiff y cynllun ymhellach na'r defnydd traddodiadol o dir drwy gynnig sail gyson ar gyfer integreiddiad gofodol yr holl bolisiâu yng Nghymru, gan gynnwys polisiâu Llywodraeth Cymru nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r system cynllunio'r defnydd o dir.

Cwmni dŵr

Cwmni a benodwyd dan Bennod 1 Rhan 2 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 neu sydd â thrywydded dan Bennod 1A Rhan 2 y Ddeddf honno. Dŵr Cymru yw'r prif gwmni dŵr yng Nghymru.

Cyrsiau dŵr

Nodweddion dŵr gan gynnwys afonydd, llynnoedd, pyllau, camlesi a dyfroedd arfordirol.

Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (CFfD)

Cyfarwyddeb y Gymuned Ewropeaidd (2000/60/EC) ar reoli basnau afonydd integredig. Mae CFfD yn nodi amcanion amgylcheddol o ran statws dŵr yn seiliedig ar: mesurau ecolegol a chemegol; strategaethau monitro ac asesu cyffredin; trefniadau ar gyfer rheoli a chynllunio basnau afonydd; a rhaglen o fesurau i gyflawni'r amcanion. I gael rhagor o fanylion ewch i wefan y Comisiwn Ewropeaidd: <http://europa.eu.int>

Cynllun Rheoli Lefel Dŵr

Dogfen sy'n nodi anghenion rheoli lefel dŵr mewn ardal gorlifdir ddiffiniedig (fel arfer SoDdGA). Nod y ddogfen hon yw cyflawni balans gwell rhwng anghenion gwahanol daenio.

Lefel Trwythiad

Lefel naturiol dŵr tanddaearol, a ddefnyddir fel mesuriad safonol yn y broses o gadw dŵr. Pan fo'r lefel trwythiad yn cwrdd â'r llawr mae ffynhonnau, nentydd, afonydd a llynnoedd yn cael eu creu.

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)

Yn cynrychioli buddiannau Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Mae'r tri awdurdod tân ac achub, y pedwar awdurdod heddlu a'r tri pharch cenedlaethol yn aelodau cyswllt.

Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (cyn Ebrill 2011 fe'i gelwyd yn Llywodraeth Cynulliad Cymru) yw llywodraeth ddatganoledig Cymru. Fe'i arweinid gan y Prif Weinidog ac mae'n gyfrifol am nifer o faterion gan gynnwys iechyd, addysg, datblygu economaidd, diwylliant, yr amgylchedd a thrafnidiaeth. <http://new.wales.gov.uk/?lang=cy>

Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd)

Prif ddull diogelu'r amgylchedd ym Mhrydain Fawr. Y ddeddfwriaeth yw'r modd i weithredu Cyfarwyddeb Cynefinoedd y CE a Chyfarwyddeb Adar y CE ym Mhrydain.

Coetir i Gymru

Hon yw strategaeth y Cynulliad Cenedlaethol i goed a choetiroedd yng Nghymru. Mae'n cyflwyno Gweledigaeth dros bolisi coedwigaeth a choetiroedd am y 50 mlynedd nesaf gan bennu cyfeiriad i'r ffordd y bydd coed a choetiroedd yn cyfrannu dyfodol cynaliadwy i bobl Cymru. <http://www.forestry.gov.uk/forestry/INFD-5NLKT7>

Safleoedd Treftadaeth y Byd

Caiff Safleoedd Treftadaeth y Byd ddynodiad gan Mudiad Addysgol, Gwyddonol a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig (UNESCO). Rhaid diogelu'r safleoedd hyn, ond nid ydynt wedi'u diogelu'n ychwanegol yn statudol rhag dynodiad o'r fath er bod rhagdybiaeth y byddant eisoes yn ddigon pwysig i gael eu diogelu yn sgîl eu statws, os nad gan drefniadau a chyfreithiau statudol cyfredol (fel Treftadaeth, Cadwraeth, yr Amgylchedd, Cynllunio ac ati ar lefel genedlaethol a lleol.) Mae statws Safle Treftadaeth y Byd yn ystyriaeth berthnasol i awdurdodau cynllunio wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio a cheisiadau am ganiatâd i ddatblygiadau sy'n effeithio ar adeiladau rhestredig a'u lleoliad. I gael rhagor o fanylion cyfeirier at wefan UNESCO: <http://whc.unesco.org/toc/mainf13.htm>

Appendix G. Rhestr o dalfyriadau

— A —

DWI WEDI CWTOGI'R EIRFA LOT FEL MOND Y RHAI PERTHNASOL SYDD DAL YNO

AoWTA Ardal o Werth Tirwedd Arbennig

DTA Dosbarthiad Tir Amaethyddol

CRhA Cynllun Rheoli Asedau

AoHNE Ardal O Harddwch Naturiol Eithriadol

ASA Ardal Sensitif Archeolegol

CRSA Cynllun Rheoli Systemau Asedau

— B —

CGB Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth

— C —

PAC Y Polisi Amaethyddol Cyffredin

CCGC Cyngor Cefn Gwlad Cymru

CHaMP Cynllun Rheoli Cynefinoedd Arfordirol

COWs Cyrsiau Dŵr Cyffredin Critigol

SBGS Safle Bywyd Gwyllt Sirol

— E —

CE Comisiwn Ewropeaidd

AEA Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd

ESA Ardal Amgylchedd Arbennig

UE Undeb Ewropeaidd

— F —

CGP	Cynllun Gweithredu Pysgodfeydd
CLILI	Cynllun Lleddfu Llifogydd
RhPoL	Rheoli'r Perygl o Llifogydd
CRhPoL	Cynllun Rheoli'r Perygl o Llifogydd
FRMW	Rheoli'r Perygl o Llifogydd Cymru
— G —	
GIS	System Gwybodaeth Ddaearyddol
— H —	
CGC	Cynllun Gweithredu Cynefinoedd
ACH	Ardal Cymeriad Hanesyddol
— I —	
BDM	Bwrdd Draenio Mewnol
ADF	Ardal Ddraenio Fewnol
MLID	Map Llifogydd Dangosol
— L —	
CGBLI	Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol
FfDLI	Fframwaith Datblygu Lleol
CLIAA	Cynllun Lleol Asiantaeth yr Amgylchedd
AALL	Awdurdod Arweiniol Lleol Llifogydd
GNL	Gwarchodfa Natur Lleol
— N —	
CCC	Cynulliad Cenedlaethol Cymru
UCA	Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
CGC	Cyfeirnod Grid Cenedlaethol
GNG	Gwarchodfa Natur Genedlaethol
AAC	Awdurdod Afonydd Cenedlaethol

CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
— O —	
AO	Arolwg Ordnans
— P —	
PPG25 Lifogydd	Nodyn Canllawiau Polisi Cynllunio 25: Datblygiadau a'r Perygl o
PPS25	Datganiad Polisi Cynllunio 25: Datblygiadau a'r Perygl o Lifogydd
PCC	Polisi Cynllunio Cymru
— R —	
AReCS	Asesu Risg er Cynllunio Strategol
CRhBA	Cynllun Rheoli Basn Afon
ARR	Awdurdod Rheoli Risg
CCRh	Canllawiau Cynllunio Rhanbarthol
RSPB	Cymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar
— S —	
ACA	Ardal Cadwraeth Arbennig
CGE	Cynllun Gweithredu Eogiaid
ADS	Ardal Ddatblygu Strategol
AAS	Asesiad Amgylcheddol Strategol
SEWTA	Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru
ASPLI	Asesiad Strategol o'r Perygl o Lifogydd
SoBCN	Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur
CRhA	Cynllun Rheoli'r Arfordir
AGA	Ardal Gwarchodaeth Arbennig
SoDdGA	Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
SDCau	Systemau Draenio Cynaliadwy

— T —

TAN	Nodyn Cyngor Technegol
TAN15	Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a'r Perygl o Lifogydd

— W —

LIC	Llywodraeth Cymru
CFfD	Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr
MALIC	Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru
CRhLD	Cynllun Rheoli Lefel Dŵr

Kevin Owen
Atkins
West Glamorgan House
12 Orchard Street
Abertawe
SA1 5AD

water@atkinsglobal.com

© Atkins Ltd except where stated otherwise.

The Atkins logo, 'Carbon Critical Design' and the strapline
'Plan Design Enable' are trademarks of Atkins Ltd.